






Gellir lawrlwytho fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon oddi ar wefan Comisiwn Dylunio Cymru: www.dcfw.org/publications/

An English language version of this publication is available to download from the Design Commission for Wales website: www.dcfw.org/publications/

Cyhoeddwyd gan Gomisiwn Dylunio Cymru – www.dcfw.org
Dylunio: Marc Jennings – www.theundercard.co.uk

Comisiwn Dylunio Cymru Design Commission for Wales yw enw masnachu DCFW LIMITED, Cwmni Cyfyngedig Preifat Rhif 04391072 a ymgorfforwyd yng Nghymru a Lloegr yn is-gwmni dan berchnogaeth Lywodraeth Cymru. Mae ei Swyddfa Gofrestredig ar y 4ydd Llawr, Adeiladau Cambrian, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd CF10 5FL.

Ffôn: + 44 (0) 29 2045 1964
dcfw.org
[@designcfw](https://twitter.com/designcfw)

© Comisiwn Dylunio Cymru 2020

ISBN 978-1-8381102-3-9

Cynnwys

- 4 Rhageiriau
- 6 Cyflwyniad

- 12 **Rhan un: Deall Lle**
- 14 Y Celfyddydau a Lle: Rôl ymarfer seiliedig ar y celfyddydau wrth feithrin lles ac adfywio mewn cymunedau yn y DU.
Jess Richmond
- 24 Dysgu cerdded (eto) ac ymwneud â lleoedd.
Aled Singleton
- 30 Harneisio adeiladau presennol wrth greu lleoedd
Priit Jürimäe
- 38 Darllen ac ailysgrifennu lleoedd: ymateb i dirwedd
Rhian Thomas + Amanda Spence

- 48 **Rhan dau: Llunio Lleoedd**
- 50 Creu Trefi Ffyniannus: Pa ddyfodol i drefi Cymru yn sgil y pandemig?
Dr Matthew Jones
- 56 VeloCity – gweledigaeth seiliedig ar le i gymunedau gwledig
Sarah Featherstone
- 64 Cymuned a Phreifatrwydd mewn Lle am Oes
Bethan Scorey
- 70 Dyfodol y maestrefi
Diana Sanchez a Tom Wigg
- 78 Gwynfaen
Rob Wheaton
- 86 Ailgodi â Gwerthoedd Gwell
Robert I Chapman

Rhagair Gweinidogol

Creu lleoedd gwyh yw un o amcanion sylfaenol y system gynllunio yng Nghymru. Mae dylunio rhagorol a ffyrdd effeithiol i greu lleoedd yn elfennau annatod yn Polisi Cynllunio Cymru 10 a Cymru'r Dyfodol, y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol newydd a gyhoeddir yn 2021.



Ym mis Medi eleni cyflwynais Siarter Creu Lleoedd Cymru a Chanllawiau Creu Lleoedd a ddatblygwyd drwy bartneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Chomisiwn Dylunio Cymru, gyda chymorth rhwydwaith cydweithredol Partneriaeth Creu Lleoedd Cymru. Mae'r bobl, y sefydliadau, y cyrff ac ymarferwyr proffesiynol a helpodd i sefydlu'r Bartneriaeth wedi cyfrannu o'u harbenigedd a'u profiad ymarferol ac maent yn helpu i hyrwyddo'r canllawiau newydd a chyflwyno arferion da ar gyfer creu lleoedd ledled y wlad.

Sicrhau lleoedd gwyh sy'n hybu cynaliadwyedd amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol yr aneddiadau a'u trigolion yw un agwedd allweddol ar gyflawni nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Ein hamgylcheddau adeiledig a naturiol, aer glân, tai gweddus, trafndiaeth dda, gwasanaethau iechyd ac addysg yw sylfeini'r ansawdd bywyd y mae ar bawb eu hangen i ffynnu. Mae rhagor i'w wneud a digon o le i wella, ac mae angen cymryd camau mwy buan yn wyneb y risgiau o'r newid yn yr hinsawdd a'r perygl i fioamrywiaeth.

Felly rwyf yn falch o gefnogi Lleoedd Byw 2 gan Gomisiwn Dylunio Cymru sy'n cynnig rhagor o anogaeth, yn ehangu'r drafodaeth ac yn cymell gweithredu'n ddioed drwy'r ysgrifau craff ac arbenigol gan ymarferwyr sydd wedi'u cynnwys yn y gyfrol hon.

Gwyddom fod cydweithio'n allweddol i gynnwys a hwyluso'r cyfranogi hollbwysig gan y gymuned, i ddeall a llunio lleoedd, i ddatrys problemau mewn ffordd greadigol ac i sicrhau'r dylunio ystyriol sy'n cael ei amlygu yn Lleoedd Byw 2. Rhaid i ni beidio â derbyn datblygiadau difywyd ac anghydnaws sydd heb berthynas â man penodol ac, wrth gefnogi, rwyf hefyd yn herio pawb sy'n gweithio yn yr amgylchedd adeiledig i ffurfio gweledigaeth greadigol ac uchelgeisiol ar gyfer y lleoedd rydym yn dymuno ac yn gweld angen eu creu a'u llunio yng Nghymru - lleoedd y gallwn ymfalchïo ynddynt.

Mae cynllunio strategol, sy'n cydnabod gwerth dylunio da ac yn edrych ar greu lleoedd ar lefel uwch a rhanbarthol, yn fan cychwyn hanfodol i sicrhau datblygu priodol yn y mannau priodol, wedi'i gysylltu drwy drafndiaeth gynaliadwy a theithio llesol.

Mae'n bwysig bod awdurdodau lleol yn cydweithio ar lefel ranbarthol i gydgyssylltu cynllunio ar gyfer defnydd tir a thrafnidiaeth â'u gweledigaeth strategol. Bydd yn hanfodol bod egwyddorion creu lleoedd wedi'u cynnwys o'r dechrau wrth lunio Cynlluniau Datblygu Lleol er mwyn sicrhau dehongliad lleol o'r egwyddorion ac ymatebion i nodweddion unigryw ein dinasoedd, trefi, pentrefi a thirweddau. Mae rhan hollbwysig i'w chwarae gan Gomisiwn Dylunio Cymru wrth hwyluso'r broses hon ac rwyf yn annog awdurdodau lleol i dderbyn cymorth ganddo drwy ei hyfforddiant pwrpasol, cefnogaeth i gleientiaid a gwasanaethau adolygu dylunio.

Mae'r pandemig COVID-19 wedi dangos pa mor bwysig yw ansawdd ein cartrefi a'r cysylltiadau cefnogol yn ein cymunedau ac mae nifer o gyfranwyr Lleoedd Byw 2 yn rhoi pwys ar hyn. Rhaid hybu iechyd a lles y boblogaeth drwy roi sylw i anghenion sylfaenol fel mannau amwynder awyr agored a llwybrau da sy'n ddigon llydan i'w mwynhau gan nifer mawr o deithwyr ar droed neu ar gefn beic. Os oes gobaith am rai canlyniadau da i'r pandemig hwn, un ohonynt yw y bydd mwy ohonom wedi dod i adnabod ein cymdogion a'n cymdogaethau'n well nag roeddem o'r blaen.

Ond mae'r pandemig hefyd wedi cyflymu'r heriau sy'n wynebu canol ein trefi a'r stryd fawr yn lleol. Yn fwy nag erioed o'r blaen, mae angen i ni weithredu'n greadigol ac edrych yn fanwl ar yr hyn y gellir ei wneud i achub a chryfhau'r mannau pwysig hyn. Un agwedd ar hyn fydd cynorthwyo busnesau lleol, hwyluso ymyriadau cymunedol, a darparu cysylltiadau priodol ar gyfer trafndiaeth a theithio llesol. Gwaetha'r modd, mae nifer mawr eisoes wedi profi'r effeithiau gwaethaf ym mlwyddyn COVID-19, felly yr union beth sydd ei angen yw ymagwedd newydd at fentro'n ofalus a meddwl yn greadigol. Mae'r risg fwyaf o'n hamgylch ym mhob man - y newid yn ein hinsawdd. Rydym wedi gwybod ers blynyddoedd nad yw 'busnes fel arfer' yn ddewis dichonol bellach. Wrth godi pob tŷ, wrth greu pob lle, wrth helpu pob stryd fawr, rhaid ei gwneud yn haws i ni fyw mewn ffordd fwy cynaliadwy ac ymdrechus i fyw'n ddi-garbon os ydym am adael Cymru'n lle gwell i genedlaethau'r dyfodol.

Julie James AS

Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

Rhagair

Mae parchu nodweddion unigryw a dylunio o ansawdd da wedi bod yn ymrwymiadau pwysig a chyson mewn cynllunio gofodol a chynllunio defnydd tir gan Lywodraeth Cymru ers blyneddau cyntaf datganoli. Y maen prawf oedd y gofyniad am Ddatblygu Cynaliadwy a ymgorfforwyd yn Neddf Llywodraeth Cymru ac mae'r ymrwymiad parhaus i'r gofyniad hwnnw wedi rhedeg drwy'r naill ddeddfiad a datblygiad polisi ar ôl y llall o ddechrau'r 2000au hyd heddiw.



Yn 2020 mae'n rhan gyson ac annatod o'n deddfwriaeth ar lesiant a'n polisi seiliedig ar leuedd ac yn elfen ganolog yn y weledigaeth ar gyfer y fframwaith datblygu cenedlaethol Cymru'r Dyfodol. Mae'r cyd-destun strategol hwn yn dangos cwrpas ein huchelgais a hefyd yn darparu fframwaith ar gyfer gweithredu 'ar lawr gwlad' drwy fuddsoddi i ddarparu ac adfywio cartrefi, strydoedd a mannau yn ein cymdogaethau, ein trefi, pentrefi a chymunedau.

Mae'r heriau o ran adfywio ledled Cymru yn gymaint os nad yn fwy na'r angen am gynnydd cyflym ac ystyrlon i sicrhau bod ein gwlad yn lanach, wedi'i chysylltu'n well ac yn defnyddio llai o garbon. Mae'r pandemig COVID-19 wedi amlygu pwysigrwydd y canolfannau yn ein trefi a chymdogaethau. Yn ystod y cyfnod clo, roeddent yn darparu mynediad lleol at nwyddau a gwasanaethau hanfodol ac mae hefyd yn glir bod pobl yn colli'r cyfleoedd am ryngweithio cymdeithasol a geir ynddynt. Mae ein sectorau manwerthu, twristiaeth a lletygarwch wedi'u taro'n galed gan effaith y pandemig, ac mae hynny wedi creu'r angen i chwilio am ffyrdd arloesol i hybu'r busnesau hyn ac arallgyfeirio yn y dyfodol. Rydym wedi gweld ar bob cam pa mor bwysig yw ansawdd ein cartrefi, mannau gwaith, cymdogaethau a threfi. Maent yn bwysig i'n lles meddyliol a chorfforol wrth i ni addasu i ffyrdd newydd o fyw a gweithio, ond maent hefyd yn hwyluso mynediad cyfartal at wasanaethau iechyd ac addysg a gwasanaethau cyhoeddus eraill. Yn ysgrif Matthew Jones, mae pwyslais ar yr angen am gydweithio rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat i roi prawf ar syniadau newydd a dod o hyd i atebion. Dyma pam y dyrannwyd £5.3 miliwn o'r rhaglen Trawsnewid Trefi i ariannu addasiadau yng nghanol trefi i gynorthwyo masnachwyr a gwella diogelwch y cyhoedd mewn ymateb i'r pandemig.

Mae COVID-19 wedi ysgogi newidiadau cyflym drwy arloesi ac addasu yn ein trefi a chymunedau wrth i fusnesau a'r sector cyhoeddus chwilio am ffyrdd newydd i ddarparu gwasanaethau a chadw eu naws fywiog. Ar lawer ystyr, cawsom ein rhyddhau o hualau hen ffasiwn a dyddiedig a chawsom gyfle i ailfeddwl ac ailasesu. Mae'r ysgrifau yn Lleoedd Byw 2 yn adlewyrchu hyn a hefyd yn ein cymell i beidio â gadael i'r cyfle hwn lithro o'n dwylo.

Fel y mae Jen Heal o'r Comisiwn Dylunio yn nodi yn ei chyflwyniad, nid rhyw wynfyd anghyrraedd sydd dan sylw yma. Mae'r cyfranwyr hyn yn ymarferwyr ac yn weithwyr proffesiynol, yn weithredwyr ym maes creu lleoedd ac adfywio, sy'n barod i roi o'u hamser ac o'r arbenigedd a gawsant drwy ymarfer ac ennill profiad. Yma, ac yn y cyfraniadau adeiladol gan fy Nhasglu Canol Trefi, mae galwad i fentro a gwneud y newidiadau sydd eu hangen i wireddu ein polisi; a thystiolaeth a phrofiad hefyd sy'n dangos bod modd gwneud hynny a'i fod yn cael ei gyflawni.

Mae cyfle nawr i gymryd camau cyflymach gan ddal gafael yn ein hymrwymiad tymor hir i ddiwylliant o ansawdd da. Ni ellir adfywio ein trefi, pentrefi a chanolfannau gwledig yn llwyddiannus heb feithrin y gallu i ddeall lleoedd fel y mae Priit Jürimäe ac Alt-Architecture yn argymhell yn y gyfrol hon. Bydd gofyn i ni ddysgu gan ein cymunedau gwledig ac elwa o'r wybodaeth, cadernid a dyfeisgarwch y maent wedi'u meithrin wrth addasu, goroesi a ffynnu yn wyneb nifer o heriau yn y gorffennol.

Ni allwn gael ein gwrthio'n ôl i fyd o faestrefi unfath sydd heb y trwch sydd ei angen i gynnal bywyd cymdogaeth. Rhaid i ni ystyried a deall y newid demograffig sy'n creu'r angen am ailfeddwl ynghylch agosrwydd, cynyddu'r dwysedd anheddu, a darparu mannau gwyrdd o ansawdd da gan fanteisio ar y cyfle sydd ar gael wrth newid i economi sero net. Yn yr un modd, ni allwn adael i ganol ein trefi ddihoeni yn y merddwr sydd wedi'i adael gan fanwerthu sydd wedi digwydd ar draul pob defnydd arall ac sydd bellach yn dirywio'n gyflym - rhaid i ni ailddyfeisio ac adfywio ein lleoedd er mwyn masnachu, er mwyn byw, er gwerth cymdeithasol, er mwyn cyfnewid syniadau ac er mwyn cydlyniant cymdeithasol. Rhaid i ni ailfeddwl am adfywio os ydym am sicrhau lleoedd byw.

Hannah Blythyn AS

Y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol

Cyflwyniad

Jen Heal
Cynghorydd Dylunio,
Comisiwn Dylunio Cymru

Mae pedair blynedd wedi mynd heibio ers i mi ysgrifennu'r cyflwyniad i'r **Lleoedd Byw** cyntaf. Roedd hwnnw'n dilyn cynhadledd Comisiwn Dylunio Cymru a gynhaliwyd yn Hydref 2016, lle ceisiwyd edrych ar y cysylltiadau rhwng y lleoedd a grëwn ac iechyd a lles pobl. Roedd y gynhadledd a'r cyhoeddiad a'i dilynodd yn fywiog ac yn llawn syniadau a heriau ynghylch sut y gallem greu lleoedd gwell i bobl fyw eu bywydau a ffynnu.



Man cychwyn y gynhadledd bryd hynny oedd y sylw i dai ac ansawdd y lleoedd a grëwn i fyw. Fodd bynnag, roeddwn yn awyddus i sicrhau na fyddem yn delio ag un mater neu un math o ddefnydd tir ar y tro gan fod ansawdd ein hamgylchedd byw yn ymwneud â'r lle cyfan – y cartref, yr ardd, y stryd, y gymdogaeth a'i phobl. Ers y gynhadledd fe gafwyd cynnydd. Bellach mae creu lleoedd wedi'i wneud yn rhan annatod o bolisi cynllunio drwy argraffiad 2018 o *Polisi Cynllunio Cymru*. Mae hyn yn ceisio sicrhau dull cyfannol o ymdrin â lleoedd yn hytrach na delio â mathau o ddefnydd tir ar wahân. Mae'n gosod dyletswydd ar bawb sy'n ymwneud â datblygu neu lunio lleoedd i fabwysiadu'r cysyniad o greu lleoedd a gwneir cysylltiad clir rhwng creu lleoedd a lles. Mae hyn oll yn gyson â nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a'r pwyslais ar gynaliadwyedd cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd a diwylliannol.

Mae creu lleoedd yn derm sy'n cael ei ddefnyddio'n aml bellach (yn rhy aml, byddai rhai'n dweud), ond mae'n derm da er hynny – mae'n cwmpasu popeth sy'n ymwneud â lle ac yn awgrymu ei bod yn broses barhaus.

Drwy gyhoeddi Siarter Creu Lleoedd Cymru yn ddiweddar, a'r Canllaw Creu Lleoedd sydd gyda hi, ar ôl eu datblygu gan Gomisiwn Dylunio Cymru a Llywodraeth Cymru gyda mewnbwn gan Bartneriaeth Creu Lleoedd Cymru, cadarnhawyd pwysigrwydd creu lleoedd a cheisiwyd cyfleu cyd-ddealltwriaeth o'r holl faterion sydd i'w hystyried wrth ddatblygu lleoedd da.

Fodd bynnag, mae rhagor i'w wneud ac mae lle i wella'r broses a'r canlyniad wrth ddatblygu ein hamgylchedd adeiledig. Yn ail gyfrol Lleoedd Byw rhoddir sylw i rai o'r heriau sy'n codi'n gyson a'r bylchau sy'n aros a fydd yn ein cymell i barhau i bwysu am leoedd gwell.

Y Cyd-destun Presennol

Ysgrifennwyd yr ysgrifau yn y cyhoeddiad hwn yn ystod cyfnod cyntaf y pandemig COVID-19 yng ngwanwyn a haf 2020. Bryd hynny, roedd pobl un ai'n byw drwy'r cyfnod clo neu newydd ei adael ac yn gweithio gartref yn bennaf: roedd hyn wedi amlygu nifer o wahanol faterion sy'n cael eu trafod mewn rhai o'r ysgrifau. Yn y cyfnod clo rhoddwyd sylw o'r newydd i ansawdd ein cartrefi a'n mannau amwynder a hefyd i'r ymdeimlad o berthyn i gymuned sydd â'r gallu neu sydd heb y gallu i gynnig cymorth i'r rheini sydd mewn angen. Wrth weithio gartref, roedd mwy o bwyslais ar y gymdogaeth fel lle i fyw, gweithio, addysgu gartref a threulio ein hamser hamdden.

Bydd y sylw bellach ar beth a wnawn nesaf – sut bydd ein trefi a phentrefi'n ymadfer, pa ddyfodol fydd i'r dirwedd breswyl a sut y gallwn fod yn fwy ymatebol byth i'r bobl a'r mannau lle bydd datblygiad penodol yn digwydd?

Mae'r ysgrifau hyn yn cynnig cyfoeth o syniadau, dadleuon a gweledigaethau ar gyfer dyfodol gwahanol. Maent yn herio'r arferion presennol er mwyn gwneud yn well dros bobl a lleoedd. Ceir pwyslais cyffredin ar gydnabod nodweddion unigryw'r lleoliad, boed hynny drwy'r dirwedd, yr adeiladau presennol neu'r gymuned sydd neu a fydd yn preswyl ynddo. Yn wir, deall lle yw thema rhan gyntaf y cyhoeddiad hwn.

Deall Lle

Mae'r ysgrifau yn yr adran hon yn tynnu sylw at y pwysigrwydd o ddeall lleoedd a phobl a sut i ymateb i hyn. Nid ydynt yn argymhell rhoi sylw symbolaidd neu arwynebol i hyn ond, yn hytrach, meithrin dealltwriaeth fanwl a dangos gwir ofal. Nodir y peryglon o ddileu'r gorffennol o ran diwylliant, treftadaeth, cymuned a hunaniaeth a rhoddir pwyslais ar y rôl sydd gan bobl leol fel arbenigwyr yn ogystal â'r angen i'w cynnwys mewn nifer o ffyrdd creadigol.

Mae **Jessica Richmond** yn rhoi sylw i'r pwynt olaf hwn yn ei hysgrif ar y Celfyddydau a Lle. Mae'n rhoi pwys penodol ar bobl ac ar yr angen i feithrin perthnasoedd er mwyn deall lle, yn cynnwys y cysylltiadau emosiynol ag ef. Mae'n galw am gynnwys artistiaid ac ymarferwyr creadigol fel rhan arferol o'r broses datblygu er mwyn cyfoethogi'r broses a sicrhau bod y gymuned wedi'i chynnwys o ddifrif. Yng Nghymru¹ ac mewn mannau eraill ledled Ewrop, mae wedi bod yn arfer cyffredin a soffistigedig ers llawer blwyddyn i artistiaid gael eu cynnwys yng nghyfnod cynnar y datblygiad ac mewn timau dylunio. Fodd bynnag, cafwyd dealltwriaeth o'r newydd bellach o werth ymchwil greadigol er mwyn cynnwys cymunedau yn y broses o lunio lle.

'Mae perygl i safleoedd datblygu mawr fod yn endidau disylwedd ac ynysig os ydynt yn cael eu seilio ar siwrneiau ceir yn unig.' **Aled Singleton**

Mae **Aled Singleton** yn disgrifio methodoleg cerdded sy'n ceisio deall mannau 'trwchus' a 'thenau', mewn perthynas â'r atgofion a'r cysylltiadau rhwng pobl a lleoedd. Mae'n ymchwilio i'r effaith a gafwyd drwy ddatblygu car-ganolog ar ein perthynas â lle gan ddefnyddio Caerllion yn astudiaeth achos.

Mae **Priit Jürimäe** yn dadlau o blaid cadw adeiladau presennol oherwydd eu gwerth treftadaeth, a hefyd fel mannau i fusnesau newydd dyfu ac oherwydd yr effaith amgylcheddol o ddymchwel ac ailddatblygu. Mae'n ymdrin â'r angen am fannau 'blêr' lle gellir lleoli busnesau newydd a busnesau creadigol, gan bwysleisio nad yw creu lleoedd yn golygu creu mannau cyhoeddus sydd fel newydd. Mae'n codi'r pwynt pwysig nad yw archwiliadau o gyflwr adeiladau, a ddefnyddir yn aml i gyfiawnhau dymchwel ac ailddatblygu adeiladau, yn dweud dim am eu gwerth cymunedol neu economaidd a all gael ei guddio'n aml gan eu cyflwr ffisegol.

Mae **Alt-Architecture** yn galw am ymateb beirniadol i amodau safle-benodol ac yn dadlau o blaid brogarwch beirniadol fel adwaith i bensaernïaeth ddi-wreiddiau nad yw'n perthyn i unman. Agwedd allweddol ar y dull hwn yw treulio amser mewn lle er mwyn ei ddeall yn bersonol. Mae angen wedyn i'r ymateb i ddealltwriaeth ddofn o'r fath fod yn ddehongliad beirniadol yn hytrach na dynwared arwynebol. Maent yn cwestiynu sut y gall rhanbarth elwa o ddull gweithredu safonol lle mae gan bob man ei hunaniaeth ei hun sydd angen ei meithrin. Mae dull gweithredu gwahanol yn galw am ffyrdd gwahanol o weithio sydd yn aml yn perthyn i fwy nag un ddisgyblaeth.

Llunio Lleoedd

Yn ail ran y cyhoeddiad, edrychir ar y ffordd y gallem lunio lleoedd yn y dyfodol. Rwyf yn croesawu'r sylw a roddir yn y rhifyn hwn o Lleoedd Byw i drefi, maestrefi a phentrefi sydd mor nodweddiadol o Gymru y tu allan i'r nifer bach o ddinasoedd mawr. Mae'r lleoedd hyn yn cynnig nifer o heriau o ran y gallu i ddarparu cymunedau a chyfleusterau sy'n fywiog, yn egniol ac yn gymysg ond maent hefyd yn cynnig gwahanol gyfleoedd y gellir elwa arnynt, yn cynnwys y rheini sy'n codi o'r ail-leoleiddio rydym wedi'i brofi ar y cyd o ganlyniad i'r cyfnod clo a'r angen i barhau i weithio gartref os yw hynny'n bosibl.

'Dylai mannau cymunol fod yn garreg sylfaen, nid yn sbarion dros ben.' Bethan Scorey

Mae'r **Dr Matthew Jones** yn rhoi sylw i'r ffordd y mae trefi'n gallu addasu ar ôl y pandemig ac mae'n ein herio i gyfrannu drwy ddychmygu dyfodol gwahanol. Er cydnabod mai pobl leol sy'n adnabod eu lle orau, mae'n rhoi pwys ar y defnydd o sgiliau gan weithwyr creadigol proffesiynol i ddatrys problemau a dod o hyd i atebion i'r heriau presennol. Yn syml, mae angen i ganolau trefi droi eu prif sylw oddi wrth fanwerthu a chynnwys llawer math o ddefnydd ar gyfer byw, gweithio, masnachu a chymdeithasu. Mae angen meddwl am syniadau newydd, rhoi prawf arnynt a mentro ac, er bod angen cael y syniadau hyn gan bobl leol yn gyntaf, mae'n tynnu sylw at yr angen am gymorth ac arweiniad er mwyn rhoi syniadau ar waith.

'Gall ardaloedd gwledig fod yn labordai ar gyfer arloesi ac yn fannau ar gyfer radicaliaeth gymedrol.' Sarah Featherstone

Mae **Sarah Featherstone**, ar ran Velocity, yn cyflwyno gweledigaeth seiliedig ar le ar gyfer cymunedau gwledig a fyddai'n arwain at fwy o gysylltedd cymdeithasol a ffisegol drwy deithio llesol a datblygu cryno er mwyn ymateb i ynysigrwydd ac i'r argyfwng hinsawdd. Mae'r sefyllfa o ran COVID-19 wedi tynnu sylw o'r newydd at y syniad o ddarparu lleoedd i fyw a gweithio a darparu mynediad at gyfleusterau mewn ffordd sy'n lleihau'r angen i deithio. Galwad yw hon am ailddyfeisio datblygu gwledig ac ailfeddwl am agweddau at ddatblygu gwledig er mwyn cynnal lleoedd at y dyfodol. Mewn gwlad sy'n wledig gan mwyaf o ran ei thiriogaeth ac eto'n drefol ac yn ôl-ddiwydiannol o ran llawer o'i diwylliant a'i phrofiad byw, mae'r tensiynau cydfodol hyn yn cynnig cyd-destun i symbyliad creadigol newydd i ailfeddwl am Gymru.

Mae **Bethan Scorey** yn tynnu sylw at bwysigrwydd y rhyngweithio rhwng cymdogion a phrofiad cyffredin wrth feithrin ymdeimlad o berthyn i le. Mae'n herio'r arfer unffurf o drefnu tai a gerddi o amgylch ffyrdd yn nhir y cyhoedd sydd heb fawr o werth i breswylwyr. Mae'n nodi mai yn y mannau cyffredin neu gymunol y bydd y cyfnewid a'r gyd-ddibyniaeth yn digwydd sy'n cyfoethogi bywyd lle. Efallai fod y pandemig COVID-19 wedi rhoi hawl neu hyd yn oed y symbyliad i feddwl yn wahanol am ein mannau a'n cymunedau. Er bod rhannu'n galw am fwy o gyfathrebu a negodi, fe allai hyn fod yn llesol i ni am ei fod yn cryfhau cysylltiadau – newid yn y duedd unigolyddol bresennol.

Mae **Hoare Lea** yn tynnu ar eu harbenigedd i ailfeddwl am y maestrefi a'r ffyrdd y gallent ddatblygu dros yr 20 mlynedd nesaf. Gan fod disgwyl y bydd newid ym mhroffil demograffig y maestrefi yn y dyfodol, maent yn nodi 'y bydd y genhedlaeth newydd o faestrefwyr yn gweld angen ac eisiau am dirwedd faestrefol wahanol.' Gelwir am gefnu ar ddwyseidd anheddu isel, dibyniaeth fawr ar geir a'r lleiaf posibl o amwynderau – nodweddion y maestrefi presennol. Maent yn trafod y tyndra rhwng yr obsesiwn â 'thwf' cynyddol sy'n peri i'r diwydiant adeiladu ganolbwyntio ar adeiladu o'r newydd a'r sylweddoliad bod nifer mawr o gartrefi'r dyfodol wedi'u codi eisoes. Mae'r newidiadau hyn yn y tueddiadau ymysg maestrefwyr, ynghyd â'r rheidrwydd i ymateb i'r argyfwng hinsawdd a'r gofyn am ddatblygu cynaliadwy, yn creu'r angen am ddwyseidd anheddu uwch, agosrwydd a llonyddwch, ac am fannau gwyrdd o ansawdd da. Yng nghanol yr argyfwng hinsawdd, mae Hoare Lea yn ystyried ffyrdd i droi lleoedd yn fannau carbon sero net ac yn holi pwy a ddylai gydgyssylltu'r holl ymyriadau hyn – tasglu maestrefol?

'Wrth i'r maestrefi eu hailddyfeisio eu hunain, mae ganddynt hawl i'w diffinio eu hunain yn ôl ffyniant a lles y bobl sy'n preswyllo ynddynt, nid yn ôl maint y gerddi.'

Hoare Lea


Mae'r astudiaeth achos o 150 o gartrefi arfaethedig yn ardal Gwynfaen, Abertawe yn cynnig un enghraifft bosibl o'r ffordd i ddelio â nifer o'r materion a godwyd. Mae'n dangos ei bod yn bwysig peidio â delio ag un mater ar ei ben ei hun gan fod angen meddwl am yr holl agweddau ar y broses o greu lle cynaliadwy gyda'i gilydd. Mae'r dull o ddatblygu'r cynigion drwy weithdai amlddisgyblaethol a chydweithio yn dangos bod y broses yr un mor bwysig â'r dylunio. Er hynny, mae'r astudiaeth achos hefyd yn tynnu sylw at yr heriau sy'n codi o ran amser a chostau wrth newid y ffordd o ddylunio a darparu cartrefi. Yn yr achos hwn, hwyluswyd y broses gan Raglen Tai Arloesol Llywodraeth Cymru, ond a oes angen mwy o gefnogaeth gan y cyhoedd nes caiff y broses ei phrif ffyrddio ac a oes angen i ni ailystyried disgwyliadau a'r defnydd o gyfrifiadau o gost a gwerth fel ffordd i fesur yr angen am newidiadau?

'Mae angen i ddatblygwyr ailgodi'n well, nid adeiladu ac adeiladu'n unig.' Robert Chapman

Yn olaf, mae **Robert Chapman** yn gofyn i ddatblygwyr wneud yn well – mae ar bobl eisiau ac angen gweld gwelliant er mwyn eu hiechyd a'u lles. Mae'n nodi bod diffyg ymddiriedaeth yn y diwydiant datblygu a bod angen cynnwys gwerth cymdeithasol yn y ffordd o ddylunio a rheoli lleoedd. Yn gysylltiedig â'r angen am well cynigion gan ddatblygwyr mae'r angen am ddarparu gwell adnoddau ar gyfer cynllunio. Nodwyd hyn yn y cyhoeddiad Lleoedd Byw cyntaf ac mae her yn codi o hyd wrth geisio sicrhau bod y gwasanaeth cynllunio yn un rhagweithiol, rheng flaen fel y mae angen iddo fod.

Wrth ystyried yr ysgrifau gyda'i gilydd, mae nifer o themâu cyffredin yn codi yn y rhifyn hwn o Lleoedd Byw, yn enwedig:

- Pwysigrwydd hunaniaeth a nodweddion unigryw – nid oes un ateb sy'n addas i bob lle.
- Yr her barhaus wrth gefnu ar ddibyniaeth ar geir – bydd yn anodd cyflawni llawer o'r hyn a gynigir os oes lefelau uchel o berchnogaeth ar geir a gallai ein lleoedd fod yn gyfoethocach o lawer os oedd y lefelau'n is a bod dewis go iawn o ran ffyrdd i symud o gwmpas.
- Yr angen am amser yn ystod y broses dylunio a datblygu i ddeall lle a'i phobl ac ymateb yn feirniadol a chreadigol.
- Y pwysigrwydd o gynnwys a chefnogi pobl leol, boed hynny drwy Gynlluniau Bro neu ddulliau eraill.
- Yr angen i ddarparu adnoddau gwell ar gyfer cynllunio er mwyn cwrdd â rhai o'r heriau hyn a darparu'r arweiniad sydd ei angen.
- Y lle i feddwl creadigol wrth ymgysylltu a dehongli, profi, ymdrechu, a datrys problemau.



Casgliad

Nod y cyhoeddiad hwn yw parhau i'n herio bob un i ddal i chwilio am syniadau newydd, rhoi prawf arnynt, dysgu a gwneud yn well. Nid 'gweledigaeth' o wynfyd sydd yn Lleoedd Byw – nid yw'n ymwneud â chreu lleoedd dilychwin sydd fel newydd. Mae'n ymwneud â chynnwys yr holl gymhlethdod, amrywiaeth a blerwch sydd mewn bywyd ond mewn ffordd sy'n hybu ffyrdd iach o fyw ac yn galluogi pobl i wireddu eu potensial.

Oherwydd y cymhlethdod hwn, nid yw creu Lleoedd Byw yn gallu bod yn gyfrifoldeb i un sector neu broffesiwn yn unig. Nid yw'n waith cyhoeddus nac yn waith preifat; nid yw'n waith i gynllunwyr neu benseiri'n unig; ac mae'n amlwg, hyd yma, mai prin yw'r datblygwyr a wnaiff hyd yn oed roi cynnig arno. Mae'n gydgyfrifoldeb sy'n galw am gydweithio go iawn, am ymgysylltu go iawn, a chreadigedd ac ymdrech go iawn i ddatrys problemau. Rwyf yn gweld lleoedd byw yn gymunedau sydd wedi'u grymuso, gyda chymorth y sector cyhoeddus, sydd wedi'u hwyluso drwy greadigedd dylunwyr a'u darparu gan ddatblygwyr sy'n ymwybodol o anghenion cymdeithas.

Hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu i'r cyhoeddiad hwn am eu hamser, eu syniadau a'u hysbrydoliaeth. Gobeithio y bydd y trafod a'r dadlau am ffyrdd i gyflawni rhai o'r pethau hyn yn parhau i'r dyfodol.

Jen Heal

Cynghorydd Dylunio, Comisiwn Dylunio Cymru.

Nodiadau:

- 1 Mae'r sefydliadau, strategaethau ac arferion yn cynnwys CBAT yr Asiantaeth Celfyddydau ac Adfywio; Cywaith Cymru; Studio Response, Addo, Ymddiriedolaeth Gelfyddydau Bae Caerdydd a Chyngor Celfyddydau Cymru, Celfyddyd, Pobl a Lleoedd.

Un.

Rhan 1 Deall Lle

Y Celfyddydau a Lle: Rôl ymarfer seiliedig ar y
celfyddydau wrth feithrin lles ac adfywio mewn
cymunedau yn y DU

Jess Richmond

Dysgu cerdded (eto) ac ymwneud â lleoedd

Aled Singleton

Harneisio adeiladau presennol wrth greu lleoedd

Priit Jürimäe

Darllen ac ailysgrifennu lleoedd: ymateb i dirwedd

Rhian Thomas + Amanda Spence



Y Celfyddydau a Lle:

Rôl ymarfer seiliedig ar y celfyddydau wrth feithrin lles ac adfywio mewn cymunedau yn y DU.

gan Jess Richmond, dylunydd trefol,
cynllunydd, ac ymarferwr creadigol

Portmeirion, Penrhyndeudraeth, Gwynedd





Another Place, Anthony Gormley.
Traeth Crosby, Glannau Merswy, Lloegr

Ymwneud â lleoedd

'Mae gan y rhan fwyaf o bobl reddf i wybod bod lle'n un arbennig wrth ei weld, ond yn aml yn ei chael yn anodd dweud beth sy'n ei wneud yn neilltuo!'¹

Mae creu lleoedd yn golygu creu lleoedd gwych i fyw, gweithio, ymweld a threulio amser. Y gwerthoedd a nodweddion a geisiwn yw'r hyn sy'n gwneud lleoedd yn ddeniadol a llwyddiannus ac yn ein cymell i'w profi a threulio amser ynddynt. Drwy'r gwerthoedd y byddwn yn eu priodoli i le, a'n profiad ni ein hunain o le, y byddwn yn creu ystyr ac atgofion.

Bydd ein profiad o le yn amrywio'n fawr yn ôl pwy ydym a ble a sut rydym yn byw: boed mewn pentref, tref neu ddinas; mewn ardal drefol neu faestrefol; fel preswylwr neu fel gweithiwr; yn hen neu'n ifanc; ac, yn fwyaf sylfaenol, a ydym yn byw mewn lle cefnog neu le tlawd. Ar yr un pryd, bydd y ffordd rydym yn ymwneud bob dydd â'r mannau lle rydym yn byw, yn gweithio ac yn chwarae yn dylanwadu ar ein bywydau, ar y cyfleoedd sydd ar gael i ni, ar ein hapusrwydd personol a chymunol, ein hunaniaeth, a'n hymdeimlad o berthyn. Mae'r profiad hwn o le yn hanfodol i'n hiechyd corfforol a meddyliol a'n hymdeimlad o les.² Felly sut byddwn yn cael gafael ar y wybodaeth hon wrth geisio deall lle?

Anaml y gwelir ymlyniadau emosiynol wrth le yng nghynlluniau dinasoedd neu mewn strategaethau datblygu ac mae hyn yn dangos bod angen ymwneud â lleoedd yn well er mwyn gallu eu deall o ddifrif. Mae hyn yn golygu gweithio ochr yn ochr â phobl a'u cymunedau i wrando ar eu storïau, eu hatgofion, a'u profiad o le er mwyn cyfrannu i'r broses dylunio. Ac, wrth wneud hynny, helpu i lunio lleoedd gwych.



Gŵyl y Gelli



Gweithdy rhyngweithiol



Ymwneud â lleoedd

Ymgysylltu â phobl

'Mae pobl yr un mor bwysig â lleoedd wrth adfywio, yn enwedig lle mae angen trawsnewid cymdogaethau'n ffisegol'.³ Mae gweithio gyda chymunedau i helpu i'w hadfywio a rhan y celfyddydau ac ymarferwyr creadigol yn y broses ymgysylltu hon yn elfennau pwysig iawn. Y nod yw meithrin perthnasoedd i ddechrau a defnyddio gwahanol ddulliau i ymgysylltu â phobl. Mae ymchwil dros y 10 mlynedd diwethaf wedi dangos bod y celfyddydau ac ymarferwyr creadigol yn gallu dod â 'chwilfrydedd, pleser ac ymatebolrwydd i fentrau sydd weithiau'n gallu bygwth llethu'r union gymunedau y maent yn ceisio eu cyrraedd'.⁴ Fodd bynnag, mae nifer o'r enghreifftiau hyn yn mynd yn bellach na'r gofyniad statudol presennol am gynnwys y cyhoedd a rhanddeiliaid. Felly pam mae rhywbeth sydd mor bwysig yn aml yn cael ei esgeuloso?

'Mae'r cwestiwn o "ba bryd", "sut" ac "i ba raddau" y dylid ymgysylltu yn un tyngedfennol i brosiectau adfywio heddiw'.⁵ Mae 'blinder ymgynghori', neu ymgynghori gormodol yn gallu lleihau adborth a'r ymwneud gan grwpiau cymunedol yn y dyfodol wrth lunio eu hamgylchedd. Pan fydd hyn yn digwydd, mae'n creu'r perygl o beidio â diwallu anghenion penodol y gymuned drwy'r datblygiad ac o ddiffyg perchnogaeth gan y gymuned. Y nod felly yw sicrhau'r cydbwysedd priodol a hyrwyddo ymgysylltu ystyrlon â chynrychiolwyr y gymuned gyfan fel bod modd sicrhau'r buddion cyffredinol o adfywio.

Yn yr adroddiad World Cities gan UN-Habitat yn 2016, galwyd am fwy o gyfranogi gan ddinasyddion wrth ddatblygu dinasoedd cynaliadwy, cynhwysfawr, diogel a

chadarn. Yn y DU, ceisiwyd cyflawni'r uchelgais hwn o dan Ddeddf Lleoliaeth 2011 yn Lloegr ac o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yng Nghymru. Mae'r Ddeddf Lleoliaeth yn rhoi pwys ar gynyddu ymreolaeth leol a pherchnogaeth gymunedol, ynghyd â lleihau cyfrifoldeb canolog dros gynllunio a datblygu trefol, ac ar allu'r gymuned i reoli ei hamgylchedd adeiledig drwy ddatblygu Cynlluniau Bro. Mae'r ddwy Ddeddf yn nodi bod ymgysylltu â phobl a'u gallu i feithrin cadernid yn wyneb dyfodol ansicr yn elfennau hanfodol.

Bydd dylunwyr a chynllunwyr yn dyheu'n aml am ymgysylltu mwy ystyrlon mewn prosiectau; am gael yr amser, yr adnoddau a'r gyllideb sydd eu hangen i wir ddeall y lle a'i bobl. Nid yw hyn yn ymwneud â nifer y taflenni adborth sy'n cael eu llenwi, neu'r cyfleoedd i weld deunyddiau arddangos neu arddangosfeydd rhithwir. Mae hyn yn golygu ymgysylltu'n greadigol â phobl sy'n byw, yn gweithio ac yn treulio amser mewn ardal benodol (yn ogystal â grwpiau defnyddwyr y dyfodol) o ddechrau'r prosiect er mwyn gwrandao, gweld a deall y lle, a'i brofi drwy eu synhwyrau.



Ymgysylltu â rhanddeiliaid



Llwybrau cerdded trefol a mapiau meddwl, Ystafell Drefol Folkestone



Gosodwaith Love at First Sight, Aberdeen

Ysgogi meddyliau creadigol

Mae rôl y celfyddydau wrth greu lleoedd wedi cael ei hyrwyddo ar lefel genedlaethol gan The Manifesto for Public Arts er 2015. Ei ddiffiniad o gelfyddydau cyhoeddus yw 'unrhyw weithgarwch diwylliannol creadigol sy'n digwydd mewn cyd-destun cyhoeddus – celfyddyd weledol, perfformiad, gorymdaith, cerddoriaeth, carnifal, celfyddyd ddigidol, y gair llafar, gosodwaith dros dro, tân gwyllt, a llawer peth arall – yn aml yn cynnwys cyfranogi gan bobl leol ac yn ymateb bob amser i naws lle'.⁶

Un o ddibenion y mentrau 'Celfyddydau a Lle' yw herio'r canfyddiad cyffredinol bod y celfyddydau'n 'addurn ychwanegol' a thynnu sylw at eu lle wrth ailddyfeisio ac adfywio lleoedd.⁷ Mae Ixia, y felin drafod ar gelfyddydau cyhoeddus, yn awgrymu 'penodi artistiaid wrth sefydlu prosiectau adfywio'⁸ yn ei thrafodaeth am arferion da wrth gomisiynu artistiaid. Hyd yn ddiweddar, mae artistiaid ac ymarferwyr creadigol wedi'u cynnwys ar gam hwyrach o lawer yn y broses datblygu, fel bod llai o gyfle iddynt ychwanegu gwerth drwy fod yn hwyluswyr, yn ganolwyr neu'n ymgynghorwyr creadigol.

Gellir dadlau ynghylch gwerth ymarfer seiliedig ar y celfyddydau wrth greu lleoedd ac adfywio, a'r canfyddiadau am y ffordd i fesur ei effaith. Yr anhawster wrth gymharu yw 'bod llawer o'r buddion a gysylltwn â'r celfyddydau, fel creadigedd cynyddol neu deimladau llesol, yn "anniriaethol" ac felly'n anodd eu mesur'.⁹ Drwy ymchwilio



Uchaf ar y dde: The Patternistas, ffenestr siop Penylan Pantry, Caerdydd

ac arddangos strategaethau creadigol ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned a'r ffordd y mae'r rhain wedi trawsnewid yr amgylchedd adeiledig ac wedi cryfhau cymunedau yr un pryd, gallwn weld y gwerth sydd mewn creadigedd fel modd i ymgysylltu, a gall hyn ein helpu i ymgysylltu'n well. Drwy wneud hyn, mae ymarferwyr creadigol yn gallu:

1. Ymgysylltu, ysgogi, chwalu rhwystrau a chychwyn trafodaeth drwy ddefnyddio dulliau creadigol i wella maint ac ansawdd yr ymgysylltu lleol.
2. Cyfleu gwybodaeth a chyfathrebu drwy ddefnyddio eu sgiliau i'w helpu i gyflwyno ac egluro drwy nifer o wahanol ddulliau.
3. Adfywio persbectifau a chreu persbectifau newydd drwy'r gallu i feddwl yn wahanol a chynnig persbectif arall.
4. Bywiogi a chyfoethogi drwy ddulliau ymgynghori creadigol sy'n cymell ymatebion am ansawdd.
5. Dylunio a chyfleu'n weledol drwy ddefnyddio sgiliau i helpu i gynhyrchu dogfennau gwell a mwy proffesiynol eu diwyg.
6. Rhoi prawf ar syniadau drwy greu digwyddiadau dros dro, comisiynu celf gweledol neu helpu i ddatblygu dyluniadau.
7. Cofnodi a gwerthuso drwy'r gallu i gofnodi, dogfennu a dehongli canlyniadau mewn ffordd ddiddorol.¹⁰



Menter gymdeithasol, Gweithdai Granby

Hyrwyddo celfyddydau a lles

Drwy'r enghreifftiau canlynol, edrychwn ar y defnydd o ymarfer seiliedig ar y celfyddydau a'i ran mewn ceisio cynnwys cymunedau wrth greu lleoedd. Mae'r astudiaethau achos yn amrywio o ran eu maint, ac mae pob un yn dangos ffyrdd unigryw a ddefnyddiwyd gan ymarferwyr creadigol i ddylanwadu ar brosiectau adfywio ac ymateb iddynt. Maent yn amlygu'r rhan sydd i gelfyddyd ac ymarfer seiliedig ar y celfyddydau mewn hyrwyddo lles ac adfywio ledled y DU. Mae'r rôl sydd gan ymarfer seiliedig ar y celfyddydau yn dangos sut y gellir defnyddio prosiectau celfyddydol cyfranogol a chymdeithasol gynhwysol i hybu adfywio ffisegol a chymdeithasol, yn enwedig yn nhermau'r pum ffordd at les a nodwyd gan Sefydliad Iechyd y Byd.¹¹ Maent yn pwysleisio'r rhan y gall celfyddyd ei chwarae fel modd i ymgysylltu, ysgogi a chychwyn trafodaeth, bywiogi a chyfoethogi ymatebion ansoddol drwy weithdai creadigol, ac ehangu trafodaeth a dehongli gwybodaeth. Wrth ddefnyddio ymarfer seiliedig ar y celfyddydau i greu dulliau creadigol o gyfathrebu ac ymgysylltu, bydd graddau ac ansawdd yr ymgynghori lleol yn gwella, a hynny'n dangos pwysigrwydd y persbectif cyfranogol a'r allbynnau cadarnhaol a geir ohono.



Prosiect ymgysylltu EveryOne EveryDay



Field of Hearts, Queens Square Bryste

‘Maen nhw’n gwneud i bobl deimlo’n gartrefol ac yn hapus a bod ganddyn nhw gysylltiad â chymdogion o bob cefndir; yn gwella lefelau iechyd a lles; yn cynyddu dysgu ac yn agor llwybrau newydd at waith a hunangyflogaeth ... yn ogystal â helpu i wneud cymdogaethau’n fwy eco-gyfeillgar drwy greu llawer o gyfleoedd i dyfu, rhannu, trwsio ac ailgylchu.’

Astudiaethau achos

Dinas Gyfranogol

Elusen a sefydlwyd i ddod â budd i'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yn Barking a Dagenham drwy raglen bum mlynedd uchelgeisiol. Lanswyd y prosiectau yn 2017 ac maent wedi'u seilio ar y prosiectau ymarferol dyfeisgar a grëwyd gan bobl yn y cymdogaethau dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'n canolbwyntio ar brosiectau ymarferol sy'n gwella bywyd pob dydd i bawb. Mae Every One Every Day yn gweithio gyda phreswylwyr a sefydliadau lleol i greu rhwydwaith o 250 o brosiectau ledled yr ardal. Mae'r prosiectau'n cynnwys rhai ar gyfer rhannu gwybodaeth, lleoedd, ac adnoddau, fel y gall teuluoedd weithio a chwarae gyda'i gilydd; ar gyfer coginio i niferoedd mawr, tyfu bwyd, plannu coed; ar gyfer masnachu, gwneud pethau a'u trwsio; ar gyfer tyfu busnesau cymunedol. Bwriad y prosiectau yw galluogi pobl i gydweithio'n gyfartal. Maent hefyd yn gymdeithasol ac yn bleserus, gan helpu i greu llawer o fuddion i'r bobl sy'n cymryd rhan ac i elwa o'r creadigedd a'r egni sydd eisoes yn bod yn yr ardal.

‘Maen nhw’n gwneud i bobl deimlo’n gartrefol ac yn hapus a bod ganddyn nhw gysylltiad â chymdogion o bob cefndir; yn gwella lefelau iechyd a lles; yn cynyddu dysgu ac yn agor llwybrau newydd at waith a hunangyflogaeth ... yn ogystal â helpu i wneud cymdogaethau’n fwy eco-gyfeillgar drwy greu llawer o gyfleoedd i dyfu, rhannu, trwsio ac ailgylchu.’¹²

Ystafell Drefol Folkestone

Mae'r prosiect wedi'i leoli yn yr hen ganolfan wybodaeth i ymwelwyr yn Folkestone ac yn 'cynnig lle ar gyfer trafod, dadlau, ymchwilio, a chyflwyniadau i breswylwyr ac ymwelwyr sydd am gyfrannu at ddyfodol Folkestone'.¹³ Cynhaliwyd 'Dadansoddiad Trefol' o'r dref yn 2017 gan greu naratif ar gyfer lleoedd a newid ym mhob rhan o'r dref. Y nod oedd cynnig ffordd i ddeall pam mae'r dref yn ymddangos fel y mae i breswylwyr ac ymwelwyr â Folkestone, ac offer i ystyried ffyrdd i newid y dref.

Crëwyd rhwydwaith o ystafelloedd trefol ledled y wlad yn dilyn Adolygiad Farrell.¹⁴ 'Pwrpas Ystafell Drefol yw meithrin cysylltiadau ystyrion rhwng pobl a lleoedd, drwy ddefnyddio dulliau ymgysylltu creadigol er mwyn hybu cyfranogiad yn nyfodol ein hadeiladau, strydoedd a chymdogaethau'.¹⁵ Roedd Ystafell Drefol Croydon wedi cyrraedd y rhestr fer ar gyfer Gwobrau Cynllunio RTPi 2020 am arloesi math newydd o ymgysylltu dinesig tryloyw. Dangosodd fod ymgysylltu dan arweiniad cynghorau yn gallu bod yn wirioneddol arloesol ac yn ystyrion i'r cyhoedd y mae'n eu gwasanaethu.¹⁶ Enghraifft lwyddiannus arall yw Blackburn is Open lle'r oedd 11 mis o drafodaethau a gwaith caled wedi arwain at ddatblygu cynllun 12 pwynt i barhau i adfywio canol y dref.¹⁷

In-between, Addo

Prosiect ymchwil a oedd yn cael ei redeg gan Brifysgol Newcastle gyda'r bwriad o feithrin cysylltiadau rhwng yr adran Celfyddydau Cain a'r sector diwylliannol ehangach drwy ddigwyddiadau, prosiectau a thrafod. Nodau penodol y prosiect oedd 'meithrin dealltwriaeth newydd drwy ddadansoddiad beirniadol o'r rhan y mae celfyddydau gweledol wedi'i chwarae, ac y gallent ei chwarae, wrth adfywio trefi marchnad er mwyn dylanwadu ar bolisi a chyfrannu at yr arferion gorau'.¹⁸ Roedd y rhwydwaith creadigol hwn yn cynnwys corff rhyngddisgyblaethol o ymchwilwyr o sawl gwlad a aeth ati'n feirniadol i ystyried potensial y rhyngweithio rhwng celfyddydau, polisi a seilwaith diwylliannol ar gyfer adfywio tair tref farchnad: Dumfries, Hexham a Phont-y-pŵl. Roedd yr ymchwil yn canolbwyntio ar y dichonoldeb o hyrwyddo arferion amgen seiliedig ar y celfyddydau ym mhob lleoliad er mwyn galluogi trefi marchnad i gryfhau eu hunaniaeth a'u nodweddion unigryw ar gyfer dyfodol cynaliadwy. Roedd yr astudiaeth yn ymdrin â'r themâu 'Pobl, Lle a Syniad' a thrwy gyfranogi mewn gweithdai ac ymgysylltu gan artistiaid, daeth i gasgliad ynghylch ffyrdd y dylai celfyddydau a diwylliant gyfrannu at adfywio pob un o'r trefi ac at eu rôl yn y dyfodol.¹⁹

Granby Four Streets, Assemble

Roedd y prosiect adfywio trefol hwn yn Lerpwl wedi ymgysylltu â'r gymuned gan ganolbwyntio ar gelfyddyd a dylunio er mwyn delio â thir diffaith. Cafodd y prosiect ei ganmol am ei ddull o adfywio o'r bôn i'r brig ac am ei ymgysylltu creadigol. Yn ogystal ag ennill Gwobr Turner yn 2015, cafodd ei wobrwyo gan yr Academi Drefolaeth yn 2016.²⁰ Dros y degawd diwethaf, mae preswylwyr lleol wedi cymryd rhan mewn gwaith i lanhau a phlannu yn eu strydoedd, peintio tai gwag a threfnu marchnad fisol, ar ôl blynyddoedd o ymladd yn erbyn cynlluniau dymchwel y cyngor. Roedd yr ymarferwyr creadigol, Assemble wedi gweithio gydag Ymddiriedolaeth Tir Cymunedol Granby Four Streets i adnewyddu tai a mannau cyhoeddus, ac wedi sefydlu menter leol i wneud dodrefn.

'Rwyf yn gobeithio y bydd hyn yn cymell lleoedd eraill i achub ar y cyfle ar gyfer datblygu dan arweiniad y gymuned'.²¹

Love Easton

Sefydlwyd y prosiect gan Dasglu Dylunio Trefol Cyngor Dinas Bryste mewn rhan o'r ddinas sy'n ddifreintiedig ond yn fywiog ac amrywiol iawn. Y nod oedd canfod ffyrdd arloesol i gynnwys preswylwyr mewn penderfyniadau lleol ar geisiadau cynllunio ym mhob rhan o'u hardal. Cydweithiodd y prosiect â myfyrwyr gradd meistr mewn Pensaernïaeth o Brifysgol Sheffield i ddatblygu dogfen strategol a oedd yn crynhoi barn y preswylwyr, y byddai datblygwyr yn gorfod cydymffurfio â hi. Rhai o'r dulliau ymgynghori oedd sefydlu caffi cymunedol dros dro a chynnal digwyddiadau bwyd i hybu trafodaeth, a gweithdai dylunio lle'r oedd preswylwyr yn cael eu hannog i gyflwyno eu syniadau er mwyn i benseiri a dylunwyr eu cyfleu. Drwy ddulliau ymgysylltu cadarnhaol, mae'r ardal wedi'i thrawsnewid yn rhan fywiog a deniadol o'r ddinas.



O'r top:

Canolfan dros dro, Blackburn is Open
Ymgysylltu â'r gymuned, Ystafell Drefol Croydon,
Prosiect Tŷ, Granby 4 Streets

'Y peth hanfodol yw dewis y pwnc iawn, am mai'r pwnc sy'n creu'r berthynas... Rhaid i'r pwnc fod yn ddiddorol a chael ei gyflwyno mewn ffordd ddiddorol'.



The town is the venue, Huntly

The town is the venue, Deveron Arts

'Y peth hanfodol yw dewis y pwnc iawn, am mai'r pwnc sy'n creu'r berthynas ... Rhaid i'r pwnc fod yn ddiddorol a chael ei gyflwyno mewn ffordd ddiddorol'.²²

Mae'r prosiect wedi'i leoli yn nhref farchnad wledig Huntly yn yr Alban ac mae'n ceisio cysylltu artistiaid, cymunedau a lle drwy waith creadigol, beirniadol. A dyfnnu o'r wefan, 'rydym wedi ymrwymo i weithio dros les cymdeithasol ein tref ac i gyfanheddu, chwilio, mapio a bywiogi'r lle drwy brosiectau wedi'u hyrwyddo gan artistiaid'.²³ Er 1995 mae prosiect 'the town' wedi ymgysylltu â chymunedau lleol a'u clybiau, corau, siopau, ysgolion, eglwysi, bariau a disgos. Mae'r prosiect wedi'i ysbrydoli gan weledigaeth Patrick Geddes, a welodd fod cymdeithas yn system gydgyssylltiedig fioamrywiol. Drwy ymateb i'r nifer mawr o ddiddordebau ac anghenion sydd gan yr holl grwpiau oedran, is-ddiwylliannau a charfanau demograffig yn eu cymuned, mae grŵp 'the town' yn gwrandao ac yn ymgysylltu â lle.

Out of Place, Caerdydd

Mewn cyfres o weithdai ar themâu cymunedol dros gyfnod o ddwy flynedd, roedd cyfleoedd i edrych ar syniadau, ysgogi trafodaeth a chasglu atgofion am yr ardal leol gan gysylltu hynny â digwyddiadau lleol, mannau cyhoeddus a gwyliau yn y Rhath, Caerdydd. Defnyddiwyd arferion seiliedig ar y celfyddydau i ymgysylltu â'r gynulleidfa, dathlu syniadau a thrafod teimladau sy'n ymwneud â pherthyn, cysylltiadau, ac ymlyniadau â lleoedd. Cynhaliwyd arddangosfa awyr agored dair wythnos o hyd i ymgysylltu a hybu cyfranogiad gan holl ddefnyddwyr Parc y Rhath. Roedd y prosiect wedi gweithredu fel archif o atgofion am y parc, gan bortreadu'r atgofion a dathlu cysylltiadau pobl â'r lle. Roedd y gosodwaith wedi creu profiad o le drwy arddangos eitemau mewn gwahanol ffyrdd er mwyn hyrwyddo rhyngweithio a chyfranogi a hybu ymwybyddiaeth o newidiadau arfaethedig yn yr amgylchedd lleol. Drwy ymgysylltu creadigol, roedd modd hyrwyddo cyfranogi gweithgar a hybu ymwybyddiaeth o ffyrdd i ddeall lle a rhan y celfyddydau mewn meithrin lles cymunedol.



Naratifau allweddol eraill sy'n gysylltiedig â'r defnydd o ymarfer seiliedig ar y celfyddydau yw eu rôl mewn ffurfio, cyflwyno a chyfleu syniadau. Roedd hyn yn amlwg iawn yn arddangosfa awyr agored Out of Place²⁴ a oedd yn gwneud gwrthrychau ffisegol ar gyfer arddangos, rhyngweithio ac arsylwi a deffro atgofion o'r parc. Roedd yn cymell pobl i aros a sylwi ar eu hamgylchedd, ac ystyried y newidiadau arfaethedig. Mae creadigedd yn ysgogi ffyrdd amrywiol i ymgysylltu â'r gymuned. Enghreifftiau pellach o hyn yw effaith weledol Tented City ym Mryste²⁵ sy'n cael ei weld yn ffordd i ddynodi newid mewn lle, a Gweithdai Granby²⁶ a'r gwaith i greu marchnad stryd lwyddiannus a menter gymdeithasol i helpu'r gymuned leol. Mae'r astudiaethau achos yn dangos sut y gellir defnyddio celfyddyd i hwyluso ac ymgysylltu er mwyn cychwyn trafodaeth, hybu ymwybyddiaeth ac ymwneud yn egniol â chymunedau. Fel un o randdeiliaid allweddol y dref, roedd Deveron Arts wedi mynd ati i ailfrandio'r dref a hynny, yn rhannol, fel menter gelfyddydol i ganfod 'beth sy'n bwysig mewn hunaniaeth leol, a gwneud Huntly yn dref fwy deniadol i ymwelwyr a buddsoddwyr, er mwyn hybu'r economi leol'.²⁷ Er mwyn cael y budd mwyaf o'r ymwneud â lle, rhaid rhoi lle blaenllaw i greadigedd, gwaith caled ac ansawdd da yn yr holl weithgareddau a dylid cynnwys ymarferwyr creadigol yn gynnar yn y broses datblygu.

Dyma restr wirio o gwestiynau allweddol i'w hystyried wrth ddatblygu prosiect:

A yw'r dull o ymgysylltu ...

- Yn cynnwys ymarferwyr creadigol, gwneuthurwyr neu grefftwyr?
- Yn helpu i wella proffil yr ardal a'r canfyddiad ohoni?
- Yn ysbrydoli ac yn arloesi?
- Yn gwella sgiliau a datblygu?
- Yn diwallu anghenion lleol?
- Yn creu cysylltiadau â chymunedau lleol?
- Yn hwyluso cydweithio a gwaith rhwng partneriaid?
- Yn hyrwyddo cynwysoldeb?

O'r top:

Gweithdy cymunedol, Out of Place
Arddangosfa awyr agored, gŵyl Made in Roath
Gosodwaith Out of Place
Tented City, Bryste

Casgliad

Fel y gwelwn mewn cymunedau o lawer math, mae ymgysylltu'n ymwneud â meithrin ymddiriedaeth a pherthynas er mwyn cael dealltwriaeth o le, a gall y ddwy elfen alw am fuddsoddi llawer o amser ac arian. Nid yw'r naill na'r llall yn gallu digwydd yn gyflym ac yn aml bydd yn anodd mesur yr holl effeithiau'n uniongyrchol. Er hynny, mae'r trosolwg hwn wedi dangos bod mabwysiadu dull creadigol yn gallu dod â nifer o fanteision a chreu cyfleoedd i ddylanwadu a chryfhau lleoedd, meithrin lles ac adfywio cymunedau. Mae'n bwysig bod briff y prosiect yn cynnwys dulliau creadigol a chamau i ffurfio cynllun ymgysylltu drwy'r celfyddydau er mwyn sicrhau eu bod yn rhan annatod o'r strategaeth ymgysylltu i gyfrannu'n effeithiol mewn amgylcheddau sy'n newid.

Mae nifer o ddogfennau polisi presennol yn awgrymu bod angen mynd yn bellach na'r gofyniad statudol am ymgynghori wrth ymgysylltu â'r gymuned, ac mae hyn yn dangos bod cyfle i ystyried a ellir priodoli cost i ymgysylltu creadigol a pha fentrau a grantiau a allai fod ar gael i sicrhau lle mwy amlwg i ymarfer seiliedig ar y celfyddydau wrth ddeall a llunio lleoedd. Dylem ganmol rôl gadarnhaol yr ymarferwyr creadigol wrth hybu lles ac adfywio cymunedol, fel 'cymrodeddwyr y gwirionedd',²⁸ crefftwyr neu ymgysylltwyr dynamig sy'n cymell pobl i ddod at ei gilydd er mwyn 'cynnig myfyrdod beirniadol cyson'.²⁹ Mae angen cynnwys artistiaid ac ymarferwyr creadigol ym mhob proses datblygu a chofio bod nifer mawr o ddatblygiadau ar eu colled o fod 'heb feddylwyr ochrol creadigol' i helpu i 'newid ffordd o feddwl y datblygwyr',³⁰ cynllunwyr, llunwyr polisi ac arweinwyr lleol, ac offer i ddeall lle o ddifrif a'i lunio.

Am yr awdur

Mae Jess yn ddylunydd trefol, cynllunydd tref siartredig ac ymarferwr creadigol sydd wedi'i lleoli yng Nghaerdydd ac sydd â phrofiad helaeth o weithio ledled y DU. Mae ei hymarfer proffesiynol yn cynnwys uwchgynllunio, adfywio, canllawiau dylunio ac ymgysylltu creadigol ym mhob agwedd ar greu lleoedd. Mae Jess yn cydweithio â phartneriaid, datblygwyr, awdurdodau lleol a grwpiau cymunedol i ddarparu cyngor ar lefel y ddinas, canol trefi a chymdogaethau.

Drwy ei hymchwil, mae wedi edrych ar rôl celfyddyd o ran meithrin lles ac adfywio cymunedau ac mae'n cymhwysio hyn yn ei gwaith. Mae Jess yn cefnogi nifer o sefydliadau cymunedol lleol drwy waith gwirfoddol parhaol ac mae wrth ei bodd yn ymchwilio i strydoedd a lleoedd newydd a chyfarwydd drwy ystyried y berthynas rhwng mathau o ddefnydd, pobl, mannau cyhoeddus, celfyddyd a phensaernïaeth.

Lluniau:

- 1 Pentref Portmeirion ©Jess Richmond
- 2 Another Place, Anthony Gormley ©Jess Richmond
- 3 Gŵyl y Gelli ©Jess Richmond
- 4 Gosodwaith Love at First Sight, Aberdeen ©Morag Myerscough
- 4a Patternista, ffenestr siop Penylan Pantry ©Jess Richmond
- 5 Gweithdy rhyngweithiol ©Generation Place
- 6 Ymwneud â lle ©Generation Place
- 7 Ymgysylltu â rhanddeiliaid ©Ystafell Drefol Folkestone
- 8 Llwybrau'r dref a mapiau meddwl © Ystafell Drefol Folkestone
- 9 Menter gymdeithasol, Gweithdai Granby ©Assemble
- 10 Prosiect ymgysylltu EveryOne EveryDay ©Participatory City
- 11 Field of Hearts, Queens Square, Bryste ©Gettyimages
- 12 Adborth rhanddeiliaid ©Blackburn is Open
- 13 Ymgysylltu â'r gymuned, Ystafell Drefol Croydon ©Ruth Ward, NLA
- 14 Prosiect tŷ, Granby 4 Streets CLT ©Assemble
- 15 The town is the venue ©Deveron Arts
- 16a Gweithdy cymunedol, Out of Place, Caerdydd ©Jess Richmond
- 16b Arddangosfa awyr agored, Out of Place, gŵyl Made in Roath ©Jess Richmond
- 16c Gosodwaith Out of Place ©Jess Richmond
- 17 Tented City, Bryste ©Davis & Jones

Nodiadau:

- 1 CABC, (2008) Artists & Place: engaging creative minds in regeneration, ar gael yn: https://www.designcouncil.org.uk/sites/default/files/asset/document/artists-and-places_.pdf
- 2 Landry, C (2006) The Art of City-Making, Taylor & Francis, London
- 3 Place Alliance, (2014) The Place Alliance, ar gael yn: www.farrellreview.co.uk/champions
- 4 Arts Council England, (2007). Arts and regeneration: creating vibrant communities. Arts Council England, South East. Ar gael yn: <http://www.creativitycultureeducation.org/arts-and-regeneration-creating-vibrant-communities>
- 5 CABC, (2008) Artists & Place: engaging creative minds in regeneration, ar gael yn: https://www.designcouncil.org.uk/sites/default/files/asset/document/artists-and-places_.pdf
- 6 Bishop, C – Participation. [ar-lein]. Ar gael yn clairebishopresearch.blogspot.co.uk
- 7 Reference Beam (2015/6) The Manifesto for Public Arts, ar gael yn: <http://www.beam.uk.net/> <http://placealliance.org.uk/wp-content/uploads/2016/02/160607-The-Arts-Place-Manifesto.pdf>
- 8 Place Alliance (2017), ar gael yn: <http://placealliance.org.uk/working-groups/arts-place/>
- 9 Ixia (2017), ar gael yn: <http://ixia-info.com/>
- 10 Guetzkow, J., (2002) How the Arts Impact Communities: An introduction to the literature on arts impact studies. [ar-lein]. Princeton, USA: Center for Arts and Cultural Policy Studies. (Working Paper Series 20).
- 11 Dorset Design and Heritage Forum, (2012) Creativity in community-led planning in Dorset, DDHF
- 12 WHO Five ways of well-being
- 13 Participatory City (2020): Ar gael yn: <http://www.participatorycity.org/about>
- 14 Folkestone Urban Room (2020): Ar gael yn: <https://urbanroomfolkestone.net/>
- 15 Farrell, T (2014), Farrell Review, ar gael yn: <http://www.farrellreview.co.uk/explore/design-quality/2B1>.
- 16 Folkestone Urban Room (2020): Ar gael yn: <https://urbanroomfolkestone.net/urf-resources/>
- 17 Planning Awards (2020), ar gael yn: <https://www.planningawards.com/finalists/croydon-urban-room/>
- 18 Blackburn in Open, ar gael yn: <https://sourcecreative.co.uk/work/blackburn-is-open/>
- 19 Butler, D (2010) In-between: cultural regeneration in Market Towns Arts & Humanities Research Council research network project
- 20 <http://www.addocreative.com/portfolio/inbetween/>
- 21 The Great Street Award by the Academy of Urbanism (AoU).
- 22 The Academy of Urbanism, (2015) ar gael yn: <https://www.academyofurbanism.org.uk/>
- 23 <https://www.deveron-projects.com/the-town-is-the-venue/huntly/>
- 24 Huntly, the town is the venue, ar gael yn: <https://www.deveron-projects.com/the-town-is-the-venue/huntly/>
- 25 Jess Richmond, Made in Roath festival 2017, ar gael yn: <https://madeinroath.com/festival-home-page/>
- 26 Davis and Jones <http://davisandjones.co.uk/work.php>, rhan o ddatblygiad Junction 3
- 27 <https://granbyworkshop.co.uk/collections/all>
- 28 <http://www.huntly.net>
- 29 O'Carroll 2009, wedi'i grybwyll yn Broderick, S (2011) Arts practices in unreasonable doubt? Reflections on understandings of arts practices in healthcare contexts. Arts & Health 3 (2), tt 95-109
- 30 Clift, Camic & Daykin, (2010), wedi'i grybwyll yn Broderick, (2011)
- 31 Minton, wedi'i grybwyll yn CABC, (2008) Artists & Place: engaging creative minds in regeneration, ar gael yn: https://www.designcouncil.org.uk/sites/default/files/asset/document/artists-and-places_.pdf

Dysgu cerdded (eto) ac ymwneud â lleoedd

Gan Aled Singleton,
Prifysgol Abertawe

Mae'r ysgrif hon yn trafod ac yn disgrifio methodoleg cerdded y gall penseiri, cynllunwyr, dylunwyr a'r cyhoedd ei defnyddio i ailymchwilio i fannau maestrefol yn bennaf a adeiladwyd yn y cyfnod wedi'r rhyfel.

Cyflwynir Caerllion fel astudiaeth achos a dynnwyd o'm gwaith maes ar gyfer gradd PhD yn 2019 i'r Ganolfan Heneiddio Arloesol ym Mhrifysgol Abertawe. Pwrpas yr ymchwil oedd cael gwell dealltwriaeth o'r berthynas rhwng poblogaeth sy'n heneiddio a bywyd cymdogaethau. Mae'r astudiaeth achos yn ategu ymchwil a gyflawnwyd am y ffordd y mae cerdded yn helpu'r unigolyn i ymgysylltu â'i berthnasoddyd dyfnach â mannau yn ei fywyd pob dydd fel y tŷ a'r stryd. Yn benodol, rwyf yn mynd yn bellach na damcaniaethau presennol drwy ddisgrifio dull manwl o fapio lle drwy gyf-weld unigolion wrth gerdded a chynnal dwy daith gerdded gyhoeddus. Yn gyntaf, rydym yn holi pam y mae persbectif y cerddwr wedi'i esgeuluso o bosibl.

Pam mae cerdded pob dydd wedi cael ei esgeuluso

Mae'r rhesymau dros beidio â threulio amser yn cerdded ein strydoedd a chymdogaethau lleol i'w gweld o'n cwmpas ymhob man: stadau tai maestrefol lle mae dwysedd anheddu isel ac amgylchedd adeiledig sy'n rhoi ceir yn gyntaf. Mae'r newid hwn yn y ffurf drefol wedi digwydd o fewn cof pobl sy'n fyw heddiw: er enghraifft, dim ond er 1970 y mae mwy na hanner aelwydydd y DU yn berchen ar gar. Yn bwysicach na hynny, mae gweadedd Prydain drefol wedi newid: codwyd tua 6.7 miliwn o dai newydd ym Mhrydain rhwng canol y 1950au a chanol y 1970au, y mwyafrif ohonynt mewn trefi newydd, ar gyrion trefi bach, ac mewn maestrefi newydd o amgylch dinasoedd presennol.

Er bod nifer mawr o'r tai newydd wedi cartrefu teuluoedd a ffurfiwyd o ganlyniad i'r cynnydd ym mhoblogaeth y *baby boomers* wedi'r rhyfel, roedd nifer sylweddol wedi cymryd lle tai rhes hŷn mewn trefi diwydiannol ac yng nghanol dinasoedd: cliriwyd bron 1.1 miliwn o anheddau yng Nghymru a Lloegr rhwng 1954 a 1974. Roedd yr amgylcheddau newydd hyn wedi effaith fawr iawn ar oedolion ifanc yn y 1960au, 1970au a 1980au, lle byddai'r car yn cael ei ddefnyddio ar gyfer siopa, gweithgareddau hamdden a chymudo'n bell i'r gwaith. Mae'n bosibl hefyd eu bod wedi seilio eu bywyd pob dydd yn ddarwybod ar y defnydd o gerbydau modur.

Roedd y dirywiad yng nghanol dinasoedd wedi arafu'n sylweddol erbyn y 1980au ac – yn ddigon diddorol – roedd y cynnydd yn y defnydd o geir wedi dechrau arafu o ganol y 1990au. Yn wir, mae dinasoedd mawr ym Mhrydain yn llawer mwy tebygol o fod â phoblogaeth o bobl iau; mae Paul Watt¹ wedi ysgrifennu am y *boneddigeiddio* sy'n disodli preswylwyr hŷn o'r dinasoedd mwyaf. Felly pa wahaniaeth yw hi bod pobl yn symud o le i le, yn torri ac yn ffurfio cysylltiadau â lleoedd? Mewn adolygiad o ymchwil i ymlyniad â lleoedd gan Hidalgo a Hernandez,² cafwyd bod cysylltiadau seicolegol gydol oes â mannau daearyddol yn cael eu ffurfio yn ystod y glasoedd ac oedolaeth gynnar.

Synhwyro gofod

Gan roi'r agweddau cymdeithasol o'r neilltu, mae nifer o ddaearyddwyr wedi nodi bod rhai safleoedd yn magu nodweddion ac awyrgylchoedd dros amser. Mae Edward Casey wedi nodi bod gofod yn *teywchu* po fwyaf o 'wneud' a 'gweithio' sy'n digwydd ynddo; a hefyd fod gofod yn *teneuo* os bydd llai o weithgarwch ynddo. Mae cerdded

yn caniatáu i ni brofi'r hyn y mae Casey yn ei alw'n ofod tew a *thenau* – cysyniadau sydd wedi'u defnyddio drwy'r ysgrif hon. Er enghraifft, yn 2010 roedd pobl hŷn wedi dilyn llwybrau cerdded *Rescue Geography* drwy gymdogaethau yng nghanol dinas Birmingham lle mai'r unig beth a oedd yn weddill ar ôl hanner can mlynedd oedd trefn y strydoedd.³

Wrth fynd drwy'r gofodau hyn, ysgogwyd ymatebion emosïynol i fannau cymunol a oedd wedi'u dymchwel ers talwm, fel tafarndai, siopau a ffatrioedd. Felly roedd y gofod yn y mannau hyn yn dew o hyd i'r nifer bach o gynbreswylwyr hŷn, ond yn denau i bron pawb arall. Mewn achos arall, cafwyd bod pobl ifanc yn synhwyro tewdra mewn gofod lle maent yn sglefrfyddio ac yn treulio amser. Y gwerth sydd mewn cyd-gerdded â phobl yw ei fod yn caniatáu iddynt ddatgelu profiad goddrychol.

Yn sgil newidiadau ym maes cynllunio a'r economi wedi'r rhyfel, mae strydoedd preswyl ym Mhrydain wedi'u gwahanu gan mwyaf oddi wrth siopau, ffatrioedd a safleoedd cyflogaeth. Yng Nghymru, mae tua 64% o'r anheddau'n rhai a godwyd ar ôl 1945.⁴ Yn yr astudiaeth achos yng Nghaerllion, mae rhaniad diddorol rhwng y cyfnodau cyn ac ar ôl y rhyfel: mae bron pedwar o bob pump o'r tai ar stadau a godwyd o'r 1950au ymlaen. Ar gyfer yr astudiaeth achos yng Nghaerllion, roeddwn wedi datblygu methodoleg cerdded i ymchwilio i fathau o ofod a oedd yn ymddangos yn anniddorol a chanfod y nodweddion tew.

Y gwerth sydd mewn cyd-gerdded â phobl yw ei fod yn caniatáu iddynt ddatgelu profiad goddrychol.

Potensial ar gyfer cyf-weld wrth gerdded

Mae technegau gwyddonol yn ogystal â rhai is-dechnolegol ar gyfer ymchwilio wrth gerdded. Mewn arbrefion sy'n cael eu harwain gan ymchwilyr, gellir gwisgo synwryddion electroenceffalograffeg (EEG) i ddadansoddi gweithgarwch yr ymennydd. Mewn astudiaeth EEG fawr yng Nghaeredin lle'r oedd 95 yn cymryd rhan,⁵ cafwyd casgliadau diddorol am y ffordd y mae gofod gwyrdd trefol a gofod trefol tawel yn achosi llai o 'gynnwrf, rhwystredigaeth, ac ymgysylltu' na gofod trefol prysur. Er eu bod yn addawol, mae arbrefion o'r fath yn ddibynnol iawn ar adnoddau a – hyd yn hyn – prin yw'r goleuni y maent wedi'i daflu ar y rhesymau y mae'r amgylchedd yn ysgogi gweithgarwch ymenyddol o'r fath.

Yn y pen is-dechnolegol, mae'r senario rhwng y cyfwelydd a'r cyfwelai lle mae'r cyfwelai'n penderfynu ar lwybrau drwy strydoedd a chymdogaethau sy'n bwysig yn ei hanes a'i fywyd pob dydd. Bydd y cyfwelydd yn gofyn cwestiynau wrth gerdded ac yn recordio'r sgwrs ar ddyfais glywedol. Mae'r rhan fwyaf o ffonau clyfar yn rhyfeddol o dda am recordio sain; mae ffilmiau byr yn gallu helpu i gofnodi nodweddion manwl; a gellir mapio'r llwybrau cerdded yn rhwydd drwy ddefnyddio GPS. Mae'r naratif yn cael ei gyfleu drwy storïau sy'n ymwneud â nodweddion fel strydoedd, parciau a thai. Mae dull o'r fath yn hwylus i bensaer, cynllunydd neu ddylunydd a all deimlo'n anghysurus wrth ofyn am ormod o fanylion personol. Yn sgil taith gerdded awr o hyd, cafwyd disgrifiadau diddorol o bynciau na fyddwn erioed wedi meddwl holi amdanynt – byddaf yn dweud rhagor am hyn. Er hynny, anfantais y cyfweliad wrth gerdded yw bod manylion bywyd y cyfwelai, boed fel rhywun yn ei arddegau yn y 1960au neu yn y cyfnod presennol, yn gallu bod yn ddiystyr i'r cyfwelydd.

Ffigur 1 – Taith gerdded, Tachwedd 2019



Un ffordd i ganfod ystyr yn y storïau hyn yw mynd ar deithiau cerdded cyhoeddus i ategu'r cyfweiliadau wrth gerdded (Ffigur 1). Ar gyfer fy mhrosiect, cynhaliwyd dwy daith gerdded gyhoeddus ar hyd llwybr a bennwyd o flaen llaw. O safbwynt ymarferol, roedd y llwybr penodedig yn rhoi sicrwydd i bobl ac yn caniatáu iddynt gael mynediad i gyfleusterau fel toiledau a thrafnidiaeth gyhoeddus. Yn ogystal â hyn, gallai'r daith gerdded fod yn greadigol a diddorol iawn – yn enwedig o gynnwys arferion dyfeisgar o faes seicoddaearyddiaeth. I'r perwyl hwnnw, roeddwn wedi cydweithio ag artist perfformio i greu ymyriadau dramatig *safe-benodol* a oedd yn ymdrin â storïau mewn ffyrdd pryfoclyd a chwareus.

Seicoddaearyddiaeth

Mae ymarfer seicoddaearyddol yn chwilio am y cysylltiadau seicolegol dyfnach â daearyddiaeth. Er enghraifft, roedd *Situationists* arloesol y 1950au a'r 1960au – a oedd yn cynnwys artistiaid a phenseiri – wedi datblygu dull cerdded seiliedig ar deithiau grŵp a gemau chwareus⁶ i ymchwilio i 'ddeddfau manwl ac effeithiau penodol' yr amgylchedd daearyddol. Mae'n werth nodi mai eu nod gwleidyddol oedd trysori gofod trefol tew ac atal maestrefoli cynyddol. Er bod hanes yn dangos bod cenhadaeth wleidyddol y *Situationists* wedi methu, mae eu hawydd am brofi gofod drwy'r corff a'r seice dyfnach wedi taro tant gyda nifer mawr o bobl. Byddwn yn ystyried yn awr sut mae dehongliadau mwy diweddar o seicoddaearyddiaeth yn berthnasol i heriau trefol yr oes hon.

Ers y 1990au, awduron ac academywyr, yn hytrach na dylunwyr proffesiynol, sydd wedi cymryd at seicoddaearyddiaeth. Er enghraifft, roedd Iain Sinclair wedi cerdded yr M25 o amgylch Llundain ac wedi dilyn barddoniaeth John Clare; mae llyfrau Sinclair yn dangos sut mae cerddwyr yn synhwyro'r manylion lleol. Hefyd, mae llwybrau cerdded seiliedig ar draffyrdd yn cymhwyso egwyddor y *Situationists* o ddilyn rhywbeth sydd y tu allan i ni'n hunain; i wynebu ein rhagfarn ddarwybod a pheidio â chwilio am yr hyn rydym am ei weld.

Mae'r academydd Tina Richardson yn dadlau bod y dulliau tryloyw hyn yn bwysig wrth i ni geisio deall y naratif mewn lle penodol. Mae'r awdur Americanaidd Rebecca Solnit yn cynnig rhagor o gyngor: bod cydweithio ag artistiaid yn

Ffigur 2: Marega yn chwarae â storïau am ofod, Gorffennaf 2019



'Seicoddaearyddiaeth yw'r astudiaeth o ddeddfau manwl ac effeithiau penodol yr amgylchedd daearyddol, boed hwnnw wedi'i drefnu'n ymwybodol neu beidio, ar emosiynau ac ymddygiad unigolion.'

gallu ein helpu i golli ein hunain ymwybodol, ond i beidio â mynd ar goll.⁷ Felly roeddwn wedi dilyn cyngor Solnit ac wedi cydweithio â'r artist perfformio Marega Palser. Roedd Marega wedi dehongli deunydd o'm cyfweiliadau wrth gerdded i droi'r disgrifiadau'n rhai chwareus a phryfoclyd a hefyd yn rhai gwleidyddol (Ffigur 2).

Roedd fy ymchwil PhD wedi'i hysbrydoli hefyd gan raglen £3 miliwn Cyngor Celfyddydau Cymru *Syniadau: Pobl: Lleoedd* (2015- 2019) lle'r oedd artistiaid wedi cydweithio â dylunwyr proffesiynol ac wedi cynnig nifer mawr o ddulliau newydd a dyfeisgar o ymdrin â gwaith adfywio a gwaith seiliedig ar leoedd.⁸


Astudiaeth Achos Caerllion

Mae Caerllion yn anheddiad ag ychydig llai nag 8,000 o bobl sydd wedi'i godi o amgylch canol pentref sy'n cynnwys adeiladau Normanaidd, Canoloesol, Sioraidd a Fictoraidd ac olion archeolegol gweladwy'r gaer Rufeinig. Tan 2017, roedd campws mawr gan Brifysgol De Cymru yng Nghaerllion. Caerllion sydd â'r gyfran fwyaf o bobl dros 65 oed yn ardal Cyngor Dinas Casnewydd.

O safbwynt personol, roeddwn wedi byw yma yn ystod fy mhentyndod a'm glasoed. Roedd fy rhieni wedi prynu cartref y teulu ym 1977 ac roedd fy nhad wedi byw yno hyd ei farw yn 2018. Yn ddiweddarach y flwyddyn honno, roedd ffrind i'r teulu wedi egluro y byddai'r nifer mawr o bobl hyn sydd yng Nghaerllion yn golygu ei fod yn lle da ar gyfer astudiaeth achos yn fy ymchwil PhD ar heneiddio a chymdogaethau. Gan ddilyn cyngor y *Situationists*, byddai angen i mi edrych yn bellach na'r hyn roeddwn yn ei wybod eisoes. Felly yn y cyfweiliadau a gynhaliais, roeddwn wedi canolbwyntio ar y cyfnod cyn i mi gael fy ngeni ym 1978.

Cynhaliais gyfweiliadau wrth gerdded a dwy daith gerdded gyhoeddus, ac mae canlyniadau'r rhain wedi'u disgrifio isod. Mae'r disgrifiadau wedi'u seilio ar un llwybr cerdded â chwe cham (Ffigur 3). Un pwynt allweddol yw bod gofod yn cysylltu pobl â nifer o wahanol amseroedd – fel yr enghraifft am *Rescue Geography* yn Birmingham. Er ein bod yn symud yn ôl ac ymlaen mewn amser, mae'r daith gerdded yn datblygu'r stori sylfaenol ynghylch sut roedd maestrefi Caerllion wedi'u llunio yn y cyfnod wedi'r rhyfel.

Wrth bennu llwybr y ddwy daith gerdded gyhoeddus yng Nghaerllion, roeddwn wedi dilyn cliwiau yn nhestun nofel Arthur Machen *The Hill of Dreams*. Ganed Machen yng Nghaerllion ym 1863 ac roedd y bryn yn y nofel uchod wedi'i seilio i raddau helaeth ar yr ardal leol.



Ffigur 3: Y llwybr cerdded yn goch a'r camau wedi'u rhifo © Hawlfraint y Goron a hawliau'r gronfa ddata yn eiddo i'r Arolwg Ordnans 2020 (100025252)

Camau un i bedwar: Dilyn testun Arthur Machen

Roedd Camau Un i Bedwar yn mynd rhwng man geni Arthur Machen yn Caerleon High a'r gaer ar Lodge Hill. Mae'r Stryd Fawr yn cynnwys adeiladau Fictoraidd a Sioraidd a rhai o'r Canol Oesoedd. Mae rhai adeiladau wedi'u defnyddio i'r un diben ers o leiaf hanner can mlynedd: swyddfa bost â'i blwch postio coch, dwy dafarn, a gwesty'r Priory. Fodd bynnag, cawsom wybod gan y cyfweilion fod y banc, a siopau bwyd a nwyddau metel wedi mynd, a bod caffis, siopau trin gwallt, bwytai a siop anrhegion wedi dod yn eu lle. Un newid mawr oedd cau siop fetio William Hill yn 2019. Roedd y perchnogion yn cynnig newid y defnydd ohono i wneud bar yn gweini jin a *prosecco*.

Ar gyfer Cam Dau, roeddem wedi ymuno â grŵp o 30 o bobl a ddaeth i ddigwyddiad yng Ngŵyl Lenyddiaeth Caerllion a gynhaliwyd gennyf i a Marega ar fore Sul heulog ym mis Gorffennaf 2019. Wrth i ni ddechrau cerdded, roedd Marega yn dehongli storïau a rannwyd mewn cyfweiliadau blaenorol drwy ddawns a gweithgareddau chwareus eraill. Er enghraifft, ailgreodd yr olygfa o fenyw ifanc ar ddiwedd y 1960au yn dod oddi ar fws a rhedeg rhwng polion lampau nwy ar noson dywyll o aeaf. Roedd y fenyw ifanc wedi symud i stad dai newydd yn ddiweddar ac nid oedd y llwybr bysiau'n cyrraedd mor bell â hynny. Roedd symudiadau Marega yn cyfleu awyrgylch nerfus y lle newydd ei adeiladu (y gellid dweud ei fod yn *denau*) lle nad oedd pobl yn adnabod ei gilydd yn dda eto a lle nad oes gwyliadwriaeth naturiol.

Ar Gam Tri, roedd y grŵp wedi dechrau dringo'r bryn o'r stad dai. Roedd Marega wedi gwahodd pobl i wneud

creirfa ar gyfer safle bysiau a oedd wedi cael ei symud yn ddiweddar. Roedd yr elfen hon yn un amlwg wleidyddol: mae'r ffordd yn serth iawn ac mae'r rhan fwyaf o breswylwyr yn llwyr ddibynnol ar eu ceir bellach. Wedyn roeddem wedi dilyn yr unig lwybr anffurfiol sy'n cysylltu â stad o dai sy'n rhai preifat yn bennaf. Dywedodd un cyfwelai fod y rheini a brynodd eiddo rhydd-ddaliadol bryd hynny hanner canrif yn ôl yn 'aberthu nawr ar gyfer wedyn'. Ystyr hynny oedd bod cefnu ar y prif ddiwylliant o rentu tŷ cyngor yn golygu mynd ar lai o wyliau a nosweithiau allan. Nid oedd perchen-feddiannaeth ar gael i'r mwyafrif ym Mhrydain tan ddechrau'r 1970au.

Ar Gam Pedwar, roeddem wedi cyrraedd caer Lodge Hill ac wedi meddwl beth tybed a oedd wedi ysbrydoli Machen i ysgrifennu *The Hill of Dreams*. Wrth ddarllen rhai o linellau'r testun yn uchel, roeddem yn synhwyro bod prif gymeriad y nofel ag un droed yn Llundain y 1890au (lle sy'n ehangu ac yn llawn tramiau ac injans stêm) a throed arall lle mae'n ail-fyw ei laslencyndod wrth grwydro'r wlad ger Caerllion. Nid yw nofel Machen yn waith gwyddonol o unrhyw fath, ond mae'n ein helpu i ddeall sut mae gofod pob dydd yn ein cysylltu â phrofiad o'r gorffennol. Oherwydd hynny, gofynnaf gwestiwn sydd y tu allan i gwmpas yr ysgrif hon o bosibl: a yw'r cenedlaethau hyn a dyfodd i fyny mewn strydoedd o dai teras yn edrych ar ofod mewn ffordd wahanol iawn i genedlaethau'r mileniwm newydd sy'n dibynnu ar lywio â lloeren?

Roedd y rhan ymchwiliadol o daith mis Gorffennaf wedi dod i ben ger y ganolfan siopa a godwyd gan y cyngor yn y 1960au ar Lodge Hill. Roedd pobl wedi ymateb yn greadigol i berfformiad Marega, gan gynnig manylion am fywyd yn y stadau tai a gafodd sylw yn y cylch nesaf o gyfweiliadau.



Ffigur 4: Portreadu adeiladu yn y 1960au, Tachwedd 2019

Camau Pump a Chwech: Hanes Caerllion wedi'r Rhyfel

Ar Gam Pump, dychwelwyd i Lodge Hill; daeth Marega a minnau at ein gilydd eto ar gyfer ail ddigwyddiad gyda deunydd newydd i'w rannu. Roedd y bore Sadwrn hwnnw ym mis Tachwedd 2019 yn un glawog, felly roeddem wedi treulio awr y tu mewn i'r hen swyddfa bost, sydd bellach yn Ganolfan Gymunedol yn cael ei rhedeg gan y fenter gymdeithasol Village Services yng Nghaerllion. Noddwyd yr ail gyfarfod hwn gan Wyl Gwyddorau Cymdeithasol y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC) drwy ddarparu adnoddau i gyflogi gwneuthurwr ffilmiau.

Roedd Marega wedi paratoi perfformiad byr ond syml a aeth â phobl yn ôl i'r dyddiau pan oedd cerbydau adeiladu'n gwibio drwy'r strydoedd lleol i helpu i godi'r gwaith dur newydd anferth ar gyrion Casnewydd (Ffigur 4). Roedd hyn wedi dod â llawer yn rhagor o storïau i gof preswylwyr a chyn-breswylwyr Caerllion. Cawsom wybod bod nifer mawr o deuluoedd wedi dod i Gaerllion yn y 1960au o rannau eraill o dde Cymru, fel Glynebwy a Beaufort. Roedd un gŵr a gyrhaeddodd ar ddechrau'r 1960au wedi dweud bod cymunedau wedi 'chwalu' wrth i bobl symud i lawr o'r cymoedd. Roedd pobl wedi dechrau ffurfio arferion newydd, fel gyrru ceir a mynd i siopa i'r archfarchnad, am mai prin oedd y cyfleusterau cymunedol ar stadau tai fel Lodge Hill.

Ar Gam Chwech, roeddem wedi gadael y Ganolfan Gymunedol a cherdded 1.3km i ganol Caerllion. Fe'n harweiniwyd am ychydig gan Chris Thomas, o Gymdeithas Ddinesig Caerllion. Trafododd dai cymdeithasol a sut roedd tenantiaid tai cyngor wedi cael yr *hawl i brynu* eu tai o ddiwedd y 1970au. Cafwyd storïau diddorol am drwsio gwendidau yn adeiladwaith y tai *Cornish* â fframiau concrid o ddiwedd y 1950au. Roedd un preswlydd gydol

oes wedi egluro bod siâp y gatiau ffyrnt yn dangos pa bryd roedd rhai tai wedi'u gwerthu gan y cyngor. Wedyn roeddem wedi troi cornel a dilyn llwybr byr heibio i wrych a thai eraill a oedd wedi bod yn dai cymdeithasol.

Gofynnodd Chris i'r grŵp sefyll am ychydig i drafod y ddadl gynllunio a oedd yn digwydd ar y pryd ynghylch hen safle Campws Caerllion. Roedd y cais cynllunio a gyflwynwyd ar gyfer mwy na 300 o dai wedi cael ei wrthod am resymau a oedd yn ymwneud, ymysg pethau eraill, â llygredd aer a diffyg cyfleusterau teithio llesol. Mae'r ddau fater hyn yn ymwneud yn benodol â lleoedd byw sy'n rhoi blaenoriaeth i geir.

Tua diwedd y daith gerdded, daethom at res o siopau a godwyd â brics ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Cawsom ein tywys gan Nigel, a oedd wedi byw yn y cyffiniau yn ystod ei ardegau yn y 1970au. Adroddodd hanesion am brynu melysion a mynd ar neges dros ei fam, gan gyfeirio at yr hen siop fwyd, siop felysion, caffi gyrrwyr lorïau a siop cigydd. Drwy storïau Nigel, roeddem wedi dysgu sut roedd arferion newydd yn y 1970au wedi *teneuo'r* dewis o siopau lleol a chryfhau'r archfarchnad: roedd dyfodiad y rhewgell wedi arwain at lai o siwrneiau i'r siopau cyfagos ac roedd becws y pentref wedi rhoi'r gorau i ddanfôn i garreg y drws.

Daeth y daith dywysedig i ben ar Gomin Caerllion. Roedd ymwelwyr ar y diwrnod hwnnw wedi rhannu safbwyntiau diddorol. Dywedodd un gŵr fod yr ymweliad â'r stadau tai wedi mynd ag ef yn ôl i'w ieuenctid mewn lle tebyg ger Birmingham yn ystod y 1970au. Nododd fod 'y plant i gyd yn cael eu taflu at ei gilydd', gan *dewychu'r* lle hwnnw o bosibl. Dywedodd un arall ei bod wedi gwneud ffrindiau am y bore wrth i'r grŵp gerdded o gwmpas a dysgu am y lle.

Casgliad: Mae cerdded yn datgelu'r manylion a'r darlun mawr

Mae'r pandemig COVID-19 presennol wedi gorfodi newid o ran gweithio mewn swyddfeydd ac mewn llawer maes arall; mae'n bosibl y bydd pawb yn treulio mwy o amser o lawer yn byw ac yn siopa yn eu cymdogaethau lleol. Yn y dyfodol, gellir rhoi mwy o sylw i bersbectif y cerddwr mewn dylunio trefol, yn hytrach na'i ystyried wrth gynllunio ar gyfer iechyd neu newid i ddulliau teithio llesol yn unig. Wrth arafu ein profiad, gallwn ddeall sut mae gofod cymunol yn cael ei lunio a lle mae llwybrau anffurfiol ar gael neu beidio. Byddwn hefyd yn gweld y perygl i safleoedd datblygu mawr – fel hen Gampws Caerllion – fod yn endidau disylwedd ac ynysig os byddant yn cael eu seilio ar siwrneiau ceir yn unig.

Credaf y bydd methodoleg cerdded graff yn gallu helpu i gwmpasu a sefydlu gofod cymdeithasol newydd mewn cymdogaethau. Defnyddir technoleg ffônau clyfar ar gyfer cyf-weld wrth gerdded ac mae'r cwestiynau cyf-weld yn gysylltiedig â sylfaen wybodaeth dylunwyr, cynllunwyr a phenseiri. Drwy gymhwyso cysyniadau seicoddaearyddol, mae'r teithiau cerdded cyhoeddus yn canfod ystyr yn y cyfweiliadau wrth gerdded ag unigolion. Bydd stori ym mhob lle sy'n gallu bod yn sail i daith gerdded gyhoeddus.

Roedd y cydweithio â'r artist Marega Palser wedi herio syniadau am y ffordd y mae digwyddiadau cyhoeddus yn datgelu perthnasoedd â'r amgylchedd trefol. Ar lefel y gymuned, roedd y cydweithio â Village Services a Gŵyl Lenyddiaeth Caerllion wedi arwain at gynnwys nifer mawr o bobl leol a'u disgrifiadau gwerthfawr. Drwy gymryd rhan yn rhaglen Gŵyl Gwyddorau Cymdeithasol yr ESRC, roedd modd cyrraedd y cyhoedd mewn cylch ehangach. Yng nghyd-destun ymchwil, dywedodd yr Athro Andrea Tales, Cyfarwyddwr y Ganolfan Heneiddio Arloesol, fod methodoleg cerdded o'r math hwn yn gallu 'cyfrannu a chael ei chynnwys mewn dyluniadau trefol cymdeithasgar a rhyngweithiol; ffactorau pwysig iawn o ran lleihau unigrwydd.'

Am yr awdur

Mae teithio a daearyddiaeth wedi bod yn bwysig i mi o oedran cynnar; synhwyro sut mae ieithoedd a diwylliannau'n cysylltu ac yn mynd ar wahân. Yn ffodus, rwyf wedi gweithio mewn swyddi sy'n canolbwyntio ar leoedd. Am ddeng mlynedd, roeddwn yn rheoli prosiectau adfywio yng Nghyngor Pen-y-bont ar Ogwr, yn y cymoedd yn bennaf ac wedyn o gwmpas Porthcawl. O 2016 roeddwn yn gydgyssylltydd ar gyfer *Finding Maindee* yng Nghasnewydd, lle'r oedd cymryd rhan yn rhaglen *Syniadau: Pobl: Lleoedd* Cyngor Celfyddydau Cymru wedi fy nysgu sut mae artistiaid yn deall ac yn chwilio lleoedd. Rwyf wedi defnyddio rhai o'r dulliau hyn yn fy ymchwil PhD ers hynny. Fy hoff wyliau yw teithiau cerdded sy'n para ychydig o ddiwrnodau ac yn cynnwys ambell ymweliad â thŷ tafarn!

Yr holl luniau (c) Jo Haycock.

Roedd yr ymchwil a'r ffilm dair munud

<https://vimeo.com/373090583> wedi'u hariannu drwy Brifysgol Abertawe ac UKRI drwy'r ESRC. Mae'r llwybr cerdded cyfan ar gael ar ffurf map digidol. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn @aledsingleton neu aledsingleton@gmail.com

Nodiadau

- 1 <http://www.bbk.ac.uk/geography/our-staff/full-time-academic-staff/watt>
- 2 Journal of Environmental Psychology Volume 21, 2001, 273-281
- 3 <http://www.rescuegeography.org.uk/>
- 4 Housing Stock Survey, 2017 <https://www.bretrust.org.uk/>
- 5 Mobility, Mood and Place <https://sites.eca.ed.ac.uk/mmp/>
- 6 Walking Inside Out: Contemporary British Psychogeography – Tina Richardson (2015)
- 7 A Field Guide to Getting Lost - Rebecca Solnit (2017)
- 8 <https://arts.wales/our-impact/how-we-reach-wider-audiences/ideas-people-places>

Harneisio adeiladau presennol wrth greu lleoedd

Testun a lluniau gan Priit Jürimäe

A minnau wedi byw, astudio a gweithio yng Nghaerdydd am fwy na degawd, mae'r ddinas wedi cael dylanwad mawr arnaf fel pensaer. Rwyf wedi gweld sawl math o drawsnewid – mae datblygiadau newydd wedi creu egni newydd ond, wrth wneud hynny, maent yn rhwbio yn erbyn yr amgylchedd adeiledig presennol, gan gystadlu am ofod. Weithiau, bydd hyn yn arwain at berthynas symbiotig rhwng yr hen a'r modern. Mewn achosion eraill, mae'r amgylchedd presennol yn ildio i'r newydd, gan arwain at newidiadau sylweddol yng nghymuned, diwylliant ac economi'r ardal. O safbwynt creu lleoedd, beth yw'r manteision o ailddenyddio adeiladau presennol? Ar y llaw arall, beth yw'r heriau cysylltiedig a sut gellir eu trechu? Mae'r ysgrif hon yn edrych ar y cwestiynau hyn gyda chymorth pedair astudiaeth achos yn ne Cymru.

Rôl adeiladau wrth sicrhau gwaddol diwylliannol

Ledled y DU, mae'n glir bod cysylltiad rhwng treftadaeth a lles, er mai *gweithgareddau* yn hytrach nag *asedau* sy'n cyfrannu at les.¹ Mae'r defnydd o dreftadaeth wrth greu lleoedd yn elfen ganolog hefyd yn Neddff Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan mai un o'i nodau yw creu Cymru lle mae diwylliant yn ffynnu.² Mae treftadaeth yn fwy na dim ond adeiladau a thirweddau; mae'n cwmpasu pethau llai diriaethol – atgofion, storïau a thraddodiadau – sydd wedi'u seilio ar y syniadau ffisegol a gofodol ac wedi'u cydbwethu â nhw. Gwerth treftadaeth ffisegol wrth greu lleoedd yw ei bod yn cadw hanes y lle fel ei fod ar gael ac yn ddealladwy i genedlaethau'r dyfodol – *gwerth cymynrodd* yw'r enw ar hyn. Gall gweithgareddau datblygu ei gyfnerthu neu ei danseilio. Er enghraifft, nid yw mesurau ôl-osod ac adnewyddu yn cael eu gweld yn ddadleuol fel arfer gan fod y ddau'n cadw ac yn gwella lleoedd presennol, tra bydd dymchwel adeiladau'n amhoblogaidd mewn llawer achos ac yn ysgogi gwrthwynebiad.³

Er bod adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth yn cael eu gweld yn bwysig ac yn cael eu diogelu i raddau, mae'n bwysig nodi bod adeiladau cyffredin, sy'n ymddangos yn ddi-nod, yn gallu bod yn hanfodol i naws y lle hefyd. Hyd yn oed os nad oes asedau cofrestredig mewn lle, fe all fod

â nodweddion unigryw. Yn aml bydd adeiladau hanesyddol syml yn cynnwys elfennau coeth sy'n werth eu dathlu – nenfydau uchel, manylion cywrain, ffenestri mawr. Bydd yr haenau hanesyddol yn cynysgaeddu'r lle â chymeriad a all fod yn absennol mewn amgylchedd newydd a bydd hynny'n denu busnesau a phobl a fyddai heb ddiddordeb mewn adeilad llai neilltuol (gweler yr enghraifft yn astudiaeth achos Goodsheds isod).⁴

Effaith amgylcheddol

Mae dadl amgylcheddol gryf hefyd o blaid cadw adeiladau presennol. Defnyddir llawer o ynni i gynhyrchu dur, sment a brics ac mae hyn yn cyfrannu i'r allyriadau carbon uchel o godi adeiladau newydd. Mae gweithgareddau adeiladu'n cynhyrchu llawer o wastraff hefyd: gwaith adeiladu, dymchwel a chloddio oedd wedi cynhyrchu tua 62% o holl wastraff y DU yn 2016 (caiff llawer ohono ei adennill, er ei fod yn cael ei 'isgylchu' i wneud cynhyrchion llai gwerthfawr).⁵ Roedd Carl Elefante yn iawn wrth ddweud mai'r "adeilad gwyrddaf yw'r un sydd wedi'i godi eisoes".⁶ Dyma lle mae creu lleoedd yn lleol yn gallu helpu i ymateb i bryderon byd-eang am hinsawdd a'r amgylchedd: mae adfer adeiladau presennol yn cael ei weld fwyfwy'n rhan o'r ateb i leihau gwastraff ac allyriadau carbon yn ogystal â chyfyngu blerdwf trefol.⁷

Buddion economaidd-gymdeithasol

Mae adeiladau hŷn a llai yn cyfrannu at fywiogrwydd ac economi'r ddinas. Fel y nododd Jane Jacobs mor gynnar â 1961, "Mae cymaint o angen am hen adeiladau mewn dinasoedd fel ei bod yn amhosibl i strydoedd ac ardaloedd dyfu'n gryf hebddynt". Mynnodd fod y gorbenion uchel sy'n gysylltiedig â chreu mannau newydd yn ormod o faich a bod angen hen adeiladau i wireddu syniadau ar gyfer busnesau newydd a busnesau creadigol.⁸ Mae tystiolaeth ddiweddar yn ategu ei sylwadau:

– mewn astudiaeth yn UDA, cafwyd bod adeiladau hŷn, llai yn cynnwys mwy o swyddi creadigol am bob uned o arwynebedd llawr masnachol.⁹ Mae'r economi creadigol yn ffynnu mewn ardaloedd lle mae cymysgedd o adeiladau hŷn

Goodsheds

Lleoliad:

Y Barri

Dyddiad adeiladu:

1880au

Defnydd gwreiddiol:

Atgyweirio locomotifau


Statws treftadaeth:

Dim

sy'n darparu mannau y gellir eu fforddio a'u haddasu. Mewn ardaloedd 'blêr' ag adeiladau sy'n amrywio o ran eu hoed a'u math, gellir cael amgylchedd trefol amryfath a rheoleiddio boneddigeiddio drwy gadw ardaloedd dymunol yn hygyrch i bawb a chyfrannu felly at greu dinas fwy 'cyfiawn'.

Mae cynllun defnydd cymysg newydd o'r enw Goodsheds yn datblygu yn Ardal Arloesi'r Barri ac yn dangos nifer o'r buddion sydd ar gael drwy adfywio. Mae'r prosiect yn cynnwys adnewyddu Adeiladau Gwalia (hen sied nwyddau a swyddfeydd cysylltiedig) yn ogystal â chodi adeilad ychwanegol newydd sy'n seiliedig ar gynwysyddion llongau. Mae prosiect Goodsheds yn cael ei arwain gan Loft Co, y datblygwr a oedd yn gefn i gynllun y Tramshed yng Nghaerdydd ac Adeilad Jennings ym Mhorthcawl. Adeilad cyfagos sydd wedi'i ddatblygu gan Loft Co yw'r Pumphouse, adeilad rhestredig Gradd II a adferwyd sy'n cynnwys bwyty, campfa, siop goffi ac unedau byw/gweithio. Agorwyd y Pumphouse yn 2016 ac mae wedi bod yn gyfrwng i ddatblygu'r Ardal Arloesi ac yn sicr o fod wedi hwyluso'r broses o sefydlu Goodsheds.

Gellir priodoli llwyddiant datblygiadau blaenorol Loft Co i nifer o nodweddion yn eu prosiectau. Yn gyntaf, mae'r defnydd cymysg a'r cylch gweithio 24/7 yn gyson â'r egwyddorion o sicrhau gwyliadwriaeth ar y stryd ac arweiniad gan y gymuned a arloeswyd gan Jane Jacobs, ac wedi denu preswylwyr a busnesau creadigol. Yn ogystal â hyn, mae gofodau hyblyg, llac fel y rhai a geir mewn warysau, ffatrioedd neu swyddfeydd wedi bod yn berffaith i'w hailddatblygu gan nad ydynt ar gyfer un math o ddefnydd penodol ac maent hefyd yn creu nawys hanesyddol. Yn olaf, mae nifer da o'r prosiectau wedi'u lleoli mewn ardaloedd sydd â chysylltiadau da neu rai sy'n dod yn fwyfwy poblogaidd. Er enghraifft, er bod elfennau o amddifadedd yn nhref y Barri, mae o fewn Bro Morgannwg, un o'r siroedd mwyaf llewyrchus yng Nghymru sydd â chysylltiadau da â Chaerdydd, fel ei fod yn lle sy'n denu buddsoddi.





Lido Ponty, National Lido of Wales

Lleoliad:
Pontypridd

Dyddiad adeiladu:
1927

Defnydd gwreiddiol:
Lido

Statws treftadaeth:
Rhestredig Gradd II

Mae'r Lido, y mwyaf o'i fath yng Nghymru, wedi'i leoli ym Mharc Coffa Rhyfel Ynysangharad, yn agos i ganol tref Pontypridd. Erbyn y 1980au, roedd y Lido wedi dadfeilio ac fe'i caewyd yn y diwedd ym 1991. Adferwyd yr adeilad yn 2015 ar ôl cynnal arolwg o lidos eraill a oedd wedi llwyddo yn y DU, yn ogystal â chynnal nifer o ddigwyddiadau cyhoeddus ac ymgynghoriadau i gasglu adborth y cyhoedd. Ar ôl ei adfer, daeth y cyfleuster yn adeilad pwysig i'r gymuned gan ddenu mwy na 70,000 o ymwelwyr y flwyddyn. Mae'n werth nodi mai proses seiliedig ar y gymuned a oedd wedi arwain at y llwyddiant hwn.

Ar ddechrau 2020, cafodd y Lido ei ddifrodi'n helaeth o ganlyniad i lifogydd. Mae hyn, ynghyd â'r pandemig COVID-19 presennol, wedi arwain at gau'r cyfleuster, gan greu ansicrwydd yn ei gylch eto byth. Er ei bod yn amlwg bod y prosiect yn llwyddiant, mae'n bosibl y bydd y costau sylweddol am ei atgyweirio yn golygu y bydd ei werth i'r gymuned yn cael ei anghofio, yn enwedig yng nghyd-destun y newid mewn blaenoriaethau sy'n digwydd ar hyn o bryd. Mae'r anawsterau hyn yn amlygu rhai o'r heriau a wynebwr wrth geisio sicrhau parhad prosiectau presennol, fel yr angen i gysoni'r gwerth hirdymor i'r gymuned â gwariant ariannol tymor byr.



Rhwystrau a rhagdybiaethau

Er gwaethaf y poblogrwydd a'r manteision o ailddefnyddio adeiladau, mae nifer o heriau'n codi mewn perthynas ag adeiladau presennol. Un o'r prif rwystrau posibl yw dadfeiliad sy'n cymhlethu'r gwaith adfywio. Os yw adeiladwaith wedi sefyll yn wag am ddegawdau, bydd wedi colli ei gysylltiad â'r economi leol a'i rôl gynhyrchol yn y gymuned; gall fod yn anodd dad-wneud y broses hon (fel y mae'r astudiaeth achos isod am adeilad y YMCA ym Merthyr Tudful yn dangos).

Un o'r rhesymau dros golli'r defnydd o adeiladau yw newidiadau yn y gwead trefol o'u cwrpas sy'n gallu eu hynysu. Mewn achosion eraill, gall y ffurf bensaernïol fod yn gyfyngol ac yn anaddas i fathau newydd o ddefnydd posibl, er enghraifft, adeiladau sy'n anhyblyg neu'n cynnwys llawer o adrannau. Os collwyd y defnydd o adeilad, gall ei gyflwr ddirywio'n gyflym, yn enwedig os nad yw'r ffenestri a'r to yn ddiogel rhag y tywydd. O ganlyniad i hyn, gall hyfywedd masnachol y gwaith adnewyddu fod yn rhwystr. Nid yw statws rhestredig yn warant y bydd digon o gyllid ar gael gan gyrff treftadaeth – mae'r gystadleuaeth yn galed gan fod mwy na 30,000 o adeiladau rhestredig yng Nghymru'n unig a bron 21% o'r rheini'n cael eu hystyried yn rhai 'dan fygythiad' neu 'mewn perygl'.¹⁰ Hyd yn oed os yw'n ymddangos bod yr adeiladwaith mewn cyflwr da, mae rhywfaint o ansicrwydd ynglŷn â defnyddio adeiladau hŷn. Mae problemau cudd o ran sefydlogrwydd yr adeiladwaith neu bresenoldeb deunyddiau peryglus yn gallu bod yn

Nid yw statws rhestredig yn warant y bydd digon o gyllid ar gael gan gyrff treftadaeth – mae'r gystadleuaeth yn galed gan fod mwy na 30,000 o adeiladau rhestredig yng Nghymru'n unig a bron 21% o'r rheini'n cael eu hystyried yn rhai 'dan fygythiad' neu 'mewn perygl'.

ddrud i'w datrys a gall problemau godi'n annisgwyl ar ganol y gwaith, a hynny'n effeithio ar y gyllideb a'r rhaglen waith. O'i gymharu â hyn, mae'r risgiau sy'n gysylltiedig â chodi adeilad newydd yn haws eu rhag-weld fel arfer.

Yn ail, mae prosiectau sy'n ailddefnyddio ac yn addasu adeiladau yn gallu galw am lafur arbenigol sy'n cymryd amser ac am ddeunyddiau traddodiadol drutach fel mortar, rendr a phlastr sy'n cynnwys calch. Wrth gyfuno elfennau pensaernïol newydd â rhai hen, bydd angen cysoni athrawiaethau adeiladu gwahanol fel y rhai sy'n ymwneud â symudiad adeiladweithiau a'u gallu i 'anadlu'. Gall fod yn anodd cynyddu'r dwysedd anheddu wrth gadw adeiladau presennol (fel y trafodir yn yr astudiaeth achos am Ardal y Golchdy isod). Er bod dulliau a deunyddiau adeiladu modern yn gyffredin, lleihau y mae'r ddealltwriaeth drylwyr o dechnegau traddodiadol a'r mathau o sgiliau sydd eu hangen.

Polisi cyhoeddus sy'n gyfrifol am y drydedd her. Mae'r farchnad dai yn ffafrio adeiladu o'r newydd am fod y cynllun Cymorth i Brynu ar gael ar gyfer cartrefi newydd yn unig. Nid yw'r rheolau presennol ar TAW yn hyrwyddo adnewyddu, fel bod yr opsiwn hwn yn llai deniadol byth i ddatblygwyr o safbwynt ariannol. Wrth ystyried gwaith adnewyddu mawr ar adeilad sydd ag ychydig o werth pensaernïol, gellid penderfynu ei bod yn fwy costeffeithiol ei ddymchwel a dechrau o'r newydd, gan arbed hyd at 20% ar y gyfradd TAW safonol ar ddeunyddiau a llafur.

Yn olaf, mae materion sy'n ymwneud â llywodraethu lleol. Mae'n bosibl na fydd adeiladau wedi'u diogelu'n ddigonol drwy'r broses gynllunio os nad ydynt wedi'u rhestru neu os nad ydynt mewn ardal gadwraeth. Er gwaethaf y brwdfrydedd ynghylch hanes a threftadaeth, nid yw awdurdodau lleol yn elwa o asedau o'r fath mewn llawer achos. At hynny, mae treftadaeth weithiau'n cael ei gweld yn bennaf yn rhan o'r arlwy ar gyfer ymwelwyr o'r tu allan i'r ardal fel ei bod yn cael ei phellhau o'i gwreiddiau lleol ac felly o'r broses creu lleoedd.¹¹

Ardal y Golchdy

Lleoliad:
Caerdydd

Dyddiad adeiladu:
1860au


Defnydd gwreiddiol:
Golchdy, sychlanhau,
garejys

Statws treftadaeth:
Dim

Mae'r enw Ardal y Golchdy ar ddatblygiad arfaethedig Portabella yng Nghaerdydd yn cyfeirio at y Golchdy Vaughan hanesyddol. Yn fwyaf diweddar, roedd y safle'n gartref i nifer o fusnesau creadigol fel Printhauss, ac roedd synergedd unigryw rhyngddynt a Chanolfan Gelfyddydau Chapter gerllaw.

Yn 2006, gwrthodwyd cais cynllunio i ddatblygu 22 o dai a 35 o fflatiau, ond cafwyd cymeradwyaeth yn 2020 i'r cynnig ar gyfer Ardal y Golchdy a nifer llai o unedau. Ers hynny, mae'r casgliad presennol o adeiladau wedi'i ddymchwel yn barod i ddechrau adeiladu. Mae Ardal y Golchdy ar gyrion Pontcanna a Threganna, rhannau deniadol o'r ddinas lle mae cryn ddiddordeb mewn ailddatblygu adeiladau amhreswyl i ateb y galw am leoedd i fyw. Y perygl yw y bydd hyn yn rhoi pwysau ar yr economi greadigol leol ac y bydd hyn yn amharu ar naws y lle a'i nodweddion unigryw.

Yn yr arolwg o gyflwr yr adeiladau presennol ar y safle, a gyflwynwyd gyda'r cais cynllunio, nodir bod angen gwaith moderneiddio sylweddol ond yr argymhelliad yw bod dymchwel ac adeiladu o'r newydd yn ateb mwy costeffeithiol, gan dybio nad oes gwerth pensaernïol neu hanesyddol i'r adeiladau. Fodd bynnag, nid yw'r arolwg yn dweud dim am eu pwysigrwydd i'r economi greadigol a'r gymuned leol. Er bod y datblygiad arfaethedig yn darparu naw uned fasnachol, ni fydd yn gallu cystadlu ag amrywiaeth y 30 a mwy o fusnesau blaenorol; mae amheuaeth hefyd ynghylch a fydd yr unedau'n fforddiadwy i denantiaid yn y dyfodol. Mae'r prosiect hwn yn amlygu'r anhawster o gynnwys mathau defnydd presennol ar safle o fewn datblygiad newydd. Roedd un sylw am y cais cynllunio yn tynnu sylw at y ffaith y bydd amwynderau cymunedol yn cael eu colli o ganlyniad i ddadleoli busnesau presennol – ond gellid dadlau y byddai wedi bod yn anodd iddynt barhau i weithredu drwy gydol y gwaith adeiladu. Yn nhermau dylunio trefol, mae'r disgrifiad o'r datblygiad arfaethedig yn cyfeirio at batrwm 'ar hap' yr adeiladau blaenorol ac yn cadw'r ffordd drwy'r safle fel y mae, er mai ychydig o les a geir o'r newidiadau hyn gan y bydd llai o ddefnydd ohonynt gan y gymuned.





YMCA

Lleoliad:
Merthyr Tudful

Dyddiad adeiladu:
1911

Defnydd gwreiddiol:
Llety YMCA, caffi,
darlithfa, ystafell biliards,
campfa

Statws treftadaeth:
Rhestredig Gradd II

Dyluniwyd adeilad y YMCA gan Ivor Jones a Percy Thomas ac felly mae'n rhan bwysig o hanes pensaernïol Cymru. Dechreuodd ddadfeilio ar ôl ei adael yn wag ar ddiwedd yr 20fed ganrif a chafwyd dau gais aflwyddiannus i'w ddymchwel ers hynny. Cafwyd ymdrechion ysbeidiol i'w adfywio drwy sicrhau defnydd newydd iddo. Roedd Davies Sutton Architects wedi arwain ar y gwaith brys cychwynnol i ddiogelu a sefydlu'r adeiladwaith a chwblhawyd hyn yn 2014, ond wynebwyd her wrth geisio sicrhau cyllid i'w adnewyddu'n llwyr.

Mae adeilad y YMCA wedi gorfod brwydro i oroesi yng nghyd-destun y cyllid cyfyngedig a'r nifer mawr o brosiectau treftadaeth eraill ym Merthyr Tudful. Yn y degawd diwethaf, mae nifer o gynlluniau cymunedol wedi'u cyflawni. Agorwyd drysau cyfleuster Canolfan Soar yn 2011, ar ôl addasu'r capel rhestredig Gradd II. Yn 2014, ailddatblygwyd adeilad rhestredig Gradd II* Hen Neuadd y Dref i wneud canolfan Redhouse ar gyfer y celfyddydau a'r diwydiannau creadigol.

Mae lleoliad yr adeilad yn broblemus braidd hefyd. Er bod adeilad y YMCA ar gyrion canol y dref, mae ffordd brysur yn eu gwahanu oddi wrth ei gilydd, ac mae'r adeilad mewn ardal sy'n llai dwys a llai trefol ei chymeriad. Mae ar gwr gogleddol canol y dref, yn wahanol i'r rhan fwyaf o'r datblygiadau mwy a diweddarach sydd ar gyrion y de, yn Rhyd-y-car.

Fel cymdeithas, mae angen i ni fod yn fwy parod i groesawu'r cymeriad 'amherffraith' ac 'anghyflawn', gan harneisio gofod gwag at ddibenion dros dro os nad oes cynlluniau tymor hwy i atal adeiladau rhag dirywio.

Cyfleoedd i wella

Fel y gwelwn, mae'r cymhlethdodau a'r heriau a wynebir wrth ailddefnyddio hen adeiladau yn drech yn aml na'r buddion posibl. Sut y gallwn ddatrys y rhain a gwneud y dewis o ailddefnyddio'n fwy deniadol? Mae ymchwil yn dangos bod lleoedd lle mae cymunedau lleol yn gallu cyfrannu'n rhagweithiol i'w hamgylchedd yn cael sgôr fwy gan amlaf ar y Fynegai Treftadaeth (gweler yr astudiaeth achos o Lido Pontypridd sy'n trafod prosiect sy'n canolbwyntio ar y gymuned).¹² Un ffordd bosibl i sicrhau lefelau uwch o ymgysylltu yw defnyddio Cynlluniau Cymdogaeth, neu Gynlluniau Bro yng Nghymru, i roi cyfle i bobl leol lunio eu hamgylchedd mewn ffordd fwy uniongyrchol.

Fel cymdeithas, mae angen i ni fod yn fwy parod i groesawu'r cymeriad 'amherffraith' ac 'anghyflawn', gan harneisio gofod gwag at ddibenion dros dro os nad oes cynlluniau tymor hwy i atal adeiladau rhag dirywio. O safbwynt awdurdodau lleol, mae'n bwysig gofalu na fydd yr effeithiau o ddatblygu newydd yn tanseilio ymhellach ardaloedd sydd eisoes mewn perygl a sicrhau bod prosiectau'n rhan o weledigaeth hirdymor, gydgyssylltiedig a chydlynol.

Mae'n bosibl nad yw'r pwyslais ar fanteision tymor byr yn ffafrio ailddefnyddio adeiladau, felly mae'n werth cofio'r neges gan Susan Emmett yn y cyhoeddiad Lleoedd Byw cyntaf – bod buddsoddiadau mwy ar y dechrau yn gallu sicrhau mwy o elw'n ddiweddarach.¹³ Er mwyn troi'r fantol o blaid ailddefnyddio ac adfer, mae angen i hynny fod yn fwy dichonol yn ariannol. Mae RetroFirst, ymgyrch newydd sy'n hyrwyddo ailddefnyddio yn yr amgylchedd adeiledig, wedi nodi tair strategaeth ddyfeisgar¹⁴:

- Torri'r gyfradd TAW safonol a godir ar hyn o bryd ar brosiectau adnewyddu i ddim – yn gyson â'r gyfradd o ddim a godir eisoes ar gartrefi a godir o'r newydd.
- Cynnwys cymalau newydd mewn canllawiau cynllunio a rheoliadau adeiladu i hyrwyddo ailddefnyddio adeiladau presennol.
- Mynnu bod prosiectau a ariennir gan y cyhoedd yn ystyried ôl-osod fel ateb cyntaf.

Ochr yn ochr â hyn, mae angen i adeiladwyr fod yn fwy parod i ymgymryd â phrosiectau addasu ar gyfer ailddefnyddio. Mewn addysg a hyfforddiant i adeiladwyr proffesiynol, dylid canolbwyntio ar dechnegau traddodiadol ac adnewyddu i'r un graddau â dylunio adeiladau newydd.¹⁵ Drwy gael gwell dealltwriaeth, bydd yn haws delio â'r agweddau ansicr o weithio ar adeiladweithiau presennol ac ildio rhywfaint o'r rheolaeth ar fanylion.

Mae'n sicr y byddai mabwysiadu rhai o'r mesurau uchod yn hyrwyddo ailddefnyddio, ond rhaid aros i weld a fydd newid byd yn y diwydiant – yn enwedig o gofio bod y pwyslais o hyd ar leihau risg ac ar amserlenni tynnach byth. Mae newid yn baramedr cyson yn yr amgylchedd adeiledig ac ni ellir cadw pob adeilad. Er hynny, gallant gyfrannu i ddatblygiadau newydd mewn ffyrdd llesol. Rhaid cofio mai adeiladau newydd ein hoes ni fydd treftadaeth y dyfodol, felly wrth eu dylunio rhaid cynnwys y gallu i addasu i anghenion ac amodau newydd er mwyn eu diogelu rhag colli defnydd.

Am yr awdur

Mae Priit yn bensaer sy'n ymddiddori yn y rhyngwyneb rhwng pobl, tirwedd, adeiladau a seilwaith. Ac yntau'n aelod o Design Circle, mae'n mwynhau ymchwilio i'r cysylltiadau hyn, a helpodd i drefnu'r digwyddiad Metro Urban Density yn 2016 a oedd wedi trafod potensial Metro De Cymru. Mae ei ddiddordeb mewn treftadaeth fel cyfrwng i adfywio yn deillio o'i amser yn astudio yn Ysgol Pensaernïaeth Cymru. Ar ôl graddio, roedd yn aelod o'r ymgyrch i ddod o hyd i ddefnydd i Gyfnwida Lo Caerdydd. Mae'n gweithio yn Rio Architects, yn rhan o nifer o brosiectau sy'n delio â lleoliadau trefol sensitif.

Nodiadau

- 1 Jonathan Schifferes, *Heritage, Identity and Place. Seven themes from the Heritage Index* (London: RSA, 2015)
- 2 Llywodraeth Cymru, *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*, (Caerdydd: Llywodraeth Cymru 2015)
- 3 Will Hurst, 'Introducing RetroFirst: a new AJ campaign championing reuse in the built environment', *Architects' Journal*, Medi 2019, gwefan AJ
- 4 English Heritage, *Heritage Works. The use of historic buildings in regeneration*, (Swindon: English Heritage 2013)
- 5 Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, *UK Statistics on Waste* (York: Defra 2020)
- 6 Carl Elefante, 'The Greenest Building Is... One That Is Already Built', *Forum Journal*, 21/4, haf 2007
- 7 Robert Adam, 'The greenest building is the one that already exists', *Architects' Journal*, Medi 2019, gwefan AJ
- 8 Jane Jacobs, *The Death and Life of Great American Cities*, (New York: Random House 1961)
- 9 National Trust for Historic Preservation, *Older, Smaller Better. Measuring how the character of buildings and blocks influences urban vitality* (Washington: National Trust for Historic Preservation 2014)
- 10 Cadw, *Condition & Use Survey of Listed Buildings in Wales 2015 Update*, (Cadw: Cardiff 2016)
- 11 Matthew Taylor a Clare Devaney, 'A Place for Heritage', papur heb ei gyhoeddi a gyflwynwyd yn y gynhadledd 'Heritage Exchange 2014' (Cronfa Dreftadaeth y Loteri)
- 12 Jonathan Schifferes, *Heritage, Identity and Place. Seven themes from the Heritage Index* (London: RSA, 2015)
- 13 Claire Symons, 'Why it pays to invest in place-making', *Places for Life*, (Cardiff: Design Commission for Wales 2017)
- 14 Will Hurst, 'Introducing RetroFirst: a new AJ campaign championing reuse in the built environment', *Architects' Journal*, Medi 2019, gwefan AJ
- 15 John Preston, 'The Context For Skills, Education and Training', *Journal of Architectural Conservation*, Tachwedd 2006

Darllen ac ailysgrifennu lleoedd: ymateb i dirwedd

Gan Rhian Thomas + Amanda Spence,
Alt-Architecture

Cyflwyniad

Er mwyn creu lleoedd da, mae angen ymateb yn wybodus a beirniadol i le a chyd-destun. Dim ond drwy ymateb i dirwedd yn ystyriol y gallwn greu lleoedd sy'n neilltuoel leol, yn defnyddio adnoddau'n gyfrifol, yn manteisio'n llawn ar y cyfleoedd sydd ar y safle, yn trechu heriau topograffi a hinsawdd ac yn coleddu naws y lle. Mae gwaith ein stiwdio wedi'i seilio ar y dull hwn o weithredu ac ar yr egwyddor bod rhaid dechrau drwy ddeall y cyd-destunau a lleoedd rydym yn gweithio ynddynt, ar wahanol raddfeydd a lefelau. Mae'r ysgrif hon yn egluro cefndir y dull hwn o weithredu a'i arwyddocâd.

Mae ein dull o weithredu wedi datblygu ers dechrau ein gyrfa fel penseiri o dan ddylanwad ein profiadau wrth ymweld â rhanbarthau gwledig fel Graubünden yn y Swistir a Vorarlberg yn Awstria a dysgu am eu diwylliant adeiladau. Yno, gwelsom bensaernïaeth a oedd yn ymfalchïo yn ei gwedd a'i dulliau adeiladu cyfoes ond a oedd yn ymddangos yn gwbl gartrefol yn y dirwedd, fel pe bai wedi'i bwriadu i fod yno erioed.

O ganlyniad i'r awydd i ddeall ac efelychu'r hyn a welsom ar ein teithiau, roeddem wedi ymchwilio ymhellach i waith y penseiri a oedd yn ymarfer yno ac i'r syniad o 'Frogarwch Beirniadol' a fabwysiadwyd ganddynt. Dyma ddull o greu lleoedd y credwn ei bod yn briodol ei efelychu yn ein gwaith yng Nghymru.



Llun 1: Dysgu am diwylliant adeiladau ar ymweliadau astudio yn Ewrop. Haus am Sturcheurwald: Vorarlberg, Penseiri Bernardo Bader

Yn *A Critical History of Modern Architecture*, mae'r pensaer a hanesydd Kenneth Frampton, sydd wedi ysgrifennu llawer am Frogarwch Beirniadol, yn egluro;

*'Mae penseiri brogarol yn credu bod yr amodau lle penodol mewn ardal yn bwysig yn y dyluniad. Mae'r ymateb i dopograffi'r lleoliad ac amodau eraill sy'n benodol i'r safle fel newidiadau lleol cynnil mewn golau a hinsawdd yn cael ei gydnabod yng nghyd-destun dylunio. Y duedd yw bod adeiladau'n cael eu dylunio fel eu bod yn ymateb eu hunain i'r amodau sydd wedi'u pennu gan y safle, yn hytrach na'u bod yn ildio i'r hwylustod o ddarparu system fecanyddol, a fyddai'n nodweddiadol o bensaerniaeth fodern ei oes'*¹

Yr ymateb beirniadol hwn i le a thirwedd yw'r gwrthwyneb i'r ffordd arferol o godi nifer mawr o dai neu i ddatblygu masnachol, lle mae mathau o dai safonol yn cael eu gosod mewn trefn safonol ar safle sydd wedi'i wneud mor wastad â phosibl, a hynny'n arwain at y datblygiadau 'rhywle rywle' sydd mor gyffredin ledled y DU. Mae Brogarwch Beirniadol yn adwaith yn erbyn pensaerniaeth ddiwreiddiau o'r fath.

Fel y mae Florian Musso yn nodi yn ei ysgrif, *Simply Good*, 'Fel arfer, mae ildio'n ymwybodol i nodweddiadoldeb rhanbarthol yn golygu dilyn enghreifftiau hanesyddol, heb allu ymgorffori naws y ffurf yn y dynwarediad.'² Nid yw'r dull a ddisgrifiwn isod yn golygu dynwared nodweddiad, ffurfiau a deunyddiau traddodiadol y bensaerniaeth frodorol leol yn ddifeddwl mewn ymgais i beri i leoedd newydd 'ffitio' i'r dirwedd, oherwydd 'mae dynwared hen adeiladau'n anneallus, heb eglurdeb o ran arddulliau byw a ffurfiau adeiladu'r presennol, yn dinistrio ysbryd pensaerniaeth.'³ Mae angen i'r ymateb fod yn ddyfnach na gwedd arwynebol yr adeilad newydd, er mwyn iddo 'berthyn' o ddifrif i'r dirwedd.

Credwn yn bendant nad oes un ateb sy'n addas i bob man wrth ddylunio lleoedd newydd. Mae i bob tirwedd ei nodweddiad unigryw ei hun – ei thopograffi, ei daeareg, ei microhinsawdd, ei hanes, ei diwylliannau ac olion gweithgareddau pobl – sy'n galw am astudiaeth ac ymateb unigryw i le penodol. Nid oes synnwyr mewn cael arddull Gymreig, gan fod tirwedd benodol yn Eryri'n wahanol iawn i dirwedd benodol yng nghymoedd y de, er enghraifft.

Rydym hefyd yn dadlau yn erbyn ymagwedd ramantaidd, hiraethus at adeiladu mewn tirwedd gan fod perygl o hynny os caiff ei hystyried mewn ffordd arwynebol, yn ddelwedd bictiwresg, heb ei gwir ddeall. Gall hyn arwain at safbwynt lle bydd pob datblygu cyfoes yn cael ei weld yn niweidiol i harddwch naturiol y dirwedd, lle mai'r gwir yw bod pob tirwedd yn endid gymhleth sy'n newid yn gyson o dan ddylanwadau naturiol a dynol. Deall a dehongli'r dirwedd yn

brïodol ar wahanol lefelau, heblaw'r weledol a'r arwynebol, yw'r cam cyntaf mewn proses dylunio beirniadol a fydd yn creu pensaerniaeth sy'n gyfoes a hefyd wedi'i gwreiddio o ddifrif mewn lle penodol.

*'Peidiwch ag adeiladu mewn ffordd bictiwresg. Gadewch effeithiau o'r fath i'r waliau, y mynyddoedd a'r haul. Os bydd rhywun yn ceisio bod yn bictiwresg o ran ei ddillad, nid pictiwresg fydd e ond hulpyn. Nid yw'r gwas fferm yn ceisio bod yn bictiwresg o ran ei ddillad. Ond mae'n bictiwresg, er hynny. Adeiladwch gystal ag y gallwch.'*⁴

Adolf Loos, *Rules for those who Build in the Mountains*

Darllen



Mae dadansoddiadau o safleoedd, os byddant yn cael eu gwneud, yn cael eu cyflwyno'n aml fel ymarfer technegol, drwy ddefnyddio mapiau Arolwg Ordnans a delweddau o leoedd a gafwyd o wahanol gyfryngau. Am ei bod yn hawdd cael gafael ar luniau o'r awyr a data am yr hinsawdd drwy'r rhyngwrdd, yn rhy aml o lawer bydd cynigion pensaernïol yn cael eu datblygu, a'u hadeiladu hyd yn oed, heb i'r dylunydd hyd yn oed roi ei droed ar y safle.

Gall map Google gynnig ychydig o wybodaeth, a gellir cael data am yr hinsawdd i'w ategu, ond nid yw gwybodaeth ar y lefel hon yn ddigon i gael dealltwriaeth fanwl o'r safle a'i amodau amgylcheddol penodol ac ymateb iddynt yn feirniadol.

Er bod dealltwriaeth wyddonol o ffactorau hinsoddol ac amgylcheddol yn hollbwysig wrth ddatblygu strategaethau dylunio goddefol, dylid ystyried ffactorau synhwyaidd a phrofiadol gan fod amodau'r safle'n effeithio ar brofiad hefyd:

*'Mae'n beth cyffredin ym maes pensaerniaeth frogarol fod ffenomenâu amgylcheddol fel newidiadau o ran tymheredd, goleuo, symudiadau aer, seiniau a hyd yn oed arogleuon yn cael eu gweld yn rhai sy'n gallu symbylu'r corff a darparu profiad synhwyaidd o bensaerniaeth. Mae brogarwch beirniadol yn cydnabod y dylid profi'r amgylchedd yn uniongyrchol, yn hytrach na'i weld drwy gyfryngau seiliedig ar wybodaeth, sy'n beth rhy cyffredin o lawer yn y byd modern.'*⁵

Rydym wedi datblygu technegau ar gyfer darllen a phortreadu tirweddau ac aneddiadau ar raddfeydd macro a micro sy'n mynd yn bellach na phortreadau technegol a ffisegol o leoedd. Drwy ein dull o ddadansoddi safleoedd, rydym yn ceisio ystyried tirweddau drwy brofiad, crefftiau a diwylliant yn ogystal â dulliau mwy confensiynol o fesur a chofnodi.



Llun 2:
Morffoleg Anheddiad: Caerfyrddin, ALT-Architecture

Llun 3: Astudio mapiau'n fanwl:
Daearyddiaeth lenyddol Dyffryn Euas, ALT-Architecture




Defnyddir technegau gwaith maes neu fapio manwl i feithrin perthnasoedd â'r safle. Mae'r dull hwn yn rhoi pwyslais ymwybodol ar y weithred o ymchwilio sy'n cynnwys nifer o feysydd, yn cynnwys anthropoleg, hanes, ecoleg, hinsawdd, economeg, cymdeithaseg, a chronoleg.

Mae'r berthynas rhwng anthropolegwyr ac artistiaid yn amlygu'r cyfle i ymchwilio i faes deallusol cyffrous sydd heb dderbyn sylw eto, yn y 'lle sydd rhwng'6 disgyblaethau. Cyflwynwyd cysyniad y 'tro ethnograffig' mewn ymarfer celfyddydol cyfoes yn y papur 'The Artist as Ethnographer?' a ysgrifennwyd gan Hal Foster ar ddiwedd yr ugeinfed ganrif. Ochr yn ochr â hyn, roedd tystiolaeth o 'newidiadau arwyddocaol yn theori ac ymarfer cartograffeg' ac roedd 'y diffiniad o'r map ei hun wedi trawsnewid rôl mapio mewn daearyddiaeth, tra oedd mapiau a chreu mapiau'n fan cyfarfod i gysylltiadau cyfoes pwysig rhwng daearyddiaeth ddiwylliannol a gwahanol arferion celfyddydol.'⁷

Mae'r defnydd o ddulliau gwaith maes a thechnegau mapio anghonfensiynol yn fuddiol i'n dulliau o weithredu ac ymarfer. Yn ein barn ni, yn y 'gofod gwefredig rhwng ffyrdd trefnus a sefydledig o weithio'⁸ y mae'r meysydd mwyaf diddorol a chynhyrchiol gan fod cyfleoedd i arloesi o fewn y gofod hwn.

Mae'r ymarfer integredig a thrawsddisgyblaethol hwn yn ein galluogi i ddarllen safleoedd ar sawl lefel ac ymateb yn feirniadol felly i nodweddion gofodol, amserol, diwylliannol, hanesyddol ac amgylcheddol y dirwedd.


Un agwedd ar hyn yw dehongli natur y dirwedd yng nghyd-destun ei nodweddion ffisegol – arysgrifau, patrymau, gwadedd trefol, morffoleg a theipoleg a threfn ofodol. Drwy ddadansoddi ardal mewn ffordd ddisgybledig a systematig o'r fath, fel y gall archeolegydd ei wneud, amlygir y digwyddiadau dros gyfnodau daearyddol a dynol sydd wedi ffurfio ei chyflwr presennol, a datgelir cliwiau i ysbrydoli trawsnewid pellach yn y tir o gwmpas adeiladau.



Llun 4: Astudiaeth o Ysgryd Fawr: patrymau terfynau a chaeau, ALT-Architecture

Llun 5: Braslun gwaith maes: cyfansoddiad ffurf adeiledig, tref fynyddig, Croatia, ALT-Architecture






Llun 6: Model prosesau i ddeall topograffeg, caeau presennol a ffurf adeileddig: Dyffryn Gwy, ALT-Architecture

Mae ein hymchwil yn dibynnu hefyd ar ganfyddiad ac ymatebion greddf, a ffyrdd i gofnodi'r rhain. Ymwelir â thirweddau a cherddir drostynt nifer o weithiau. Gellir cael profiad hollol wahanol o safle yng ngolau'r bore o'i gymharu â golau'r prynhawn, ac yn yr haf o'i gymharu â'r gaeaf. Ceisiwn ymchwilio'n greadigol i ffyrdd o ddeall heb ddefnyddio cyfeiriadau ffeithiol.

Y nod yw 'cael y wybodaeth o'r lle a'r dirwedd sydd gan rywun sy'n gyfarwydd â nhw, yn hytrach na gwybodaeth a geir o bortreadau a gyfryngwyd sy'n edrych o'r tu allan'.⁹



Llun 7: Model wedi'i gastio: geometreg a chyfansoddiad tir adeileddig, ALT-Architecture

Ailysgrifennu

Nid yw gwaith maes neu fapio manwl yn nod ynddo'i hun; y cam nesaf yw dehongli'r dadansoddiad o'r dirwedd a throsi'r data i greu naratif ar gyfer cynnig pensaernïol. Mae hyn yn codi cwestiwn: sut y gallwn ddatblygu fframwaith cysyniadol a fydd yn sail ar gyfer dylunio prosiect sydd ar raddfa briodol, a fydd yn ymateb i anghenion yr ardal a'r diwylliant yn awr ac yn y dyfodol, ac a fydd yn edrych yn feirniadol ar dirwedd?

Mae ein dull o lunio cynigion pensaernïol yn un mentrus, creadigol a dyfeisgar, sydd hefyd yn codi cwestiynau ynghylch hunaniaeth a syniadau diwylliannol am amser ac yn eu hailddyfeisio.

Gellir canfod trefn a rheolau ar gyfer fframwaith dylunio gofodol drwy astudio a deall strwythur y dirwedd. Mae'r rheolau hyn yn gysylltiedig â geometreg gyfansoddol, graddfa, cyfrannedd a chyfyngau, trefn a dilyniant gofodol, a gellir eu canfod yn sail resymegol y dirwedd bresennol ac yn y teipolegau cyffredin a gaiff eu darganfod drwy ymchwil.

Ar sail y meini prawf cydweddol hyn, mae patrymau trefol a thirweddol a threfniant gofodol strydoedd a sgwariau, neu adeiladau a chaeau, er eu gweld mewn golau newydd, yn dod yn ffyrdd resymegol i ailddyfeisio traddodiad. Mae'r dull hwn yn ein galluogi i greu lleoedd sydd wedi'u trefnu'n ffurfiol ac yn ofodol drwy geometreg sydd wedi'i seilio ar ddealltwriaeth hanesyddol a dadansoddol, ac sydd felly'n mynegi cyflyrau rhanbarthol a diwylliannol. O ganlyniad i hyn, natur unigryw'r dirwedd a'r perchnogi diwylliannol ar ofod yw'r sail i'n proses dylunio, yn hytrach na'r defnydd o ffurfiau neu arddulliau penodedig.

Y bwriad wrth 'gydweddu' yw peidio â chopio. Nod brogarwch beirniadol, yn hytrach na dehongli arddull frodorol yr ardal mewn ffordd hiraethus, yw adnabod a didol elfennau o'r bensaerniaeth frodorol leol a'u haildehongli mewn ffordd gyfoes. Drwy hyn, bydd y bensaerniaeth yn gyfoes ond heb leihau ei hunaniaeth frogarol.¹⁰


Bydd asesiad o gymeriad y dirwedd yn ystod y cam dadansoddi wedi dangos a yw elfennau presennol yn y dirwedd neu mewn aneddiadau, sy'n bwysig o ran y lle a'r amodau rhanbarthol, yn cynnig rheolau cyfansoddol y dylid ymateb iddynt. Er enghraifft, os yw'r cyd-destun yn cynnwys terfynau caeau ar ffurf gwrychoedd neu waliau, yna bydd y rhain yn cynnig geometreg, patrwm a graddfa ddarllenadwy sydd â pherthynas â'r lleiniau oddi mewn iddynt. Gallai hyn gynnig rheolau dimensiynol a geometrig ar gyfer amgáu tir a therfynau ac ymylon, ar gyfer y safle ei hun ac unrhyw ddull o rannu lleiniau neu grwpiau o adeiladau o fewn datblygiad mwy.

Dylid ystyried cadw unrhyw elfennau presennol yn y dirwedd sy'n gallu darparu preifatrwydd a sgrinio, a nawws a chymeriad dymunol i leoliad y datblygiad arfaethedig. Yn ogystal â chadw terfynau presennol, byddai'r strategaeth dirwedd yn gallu cynnig gwrychoedd neu waliau brodorol ychwanegol i ddarparu fframwaith o derfynau domestig yn gwahanu pob un o'r lleiniau. Dylai iaith ddylunio'r waliau a gwrychoedd newydd ar derfynau gael ei darllen fel elfennau newydd a bod yn wahanol i'r elfennau hanesyddol.

Fel arfer, yr hyn sy'n nodweddu datblygiadau newydd mewn aneddiadau gwledig neu drefol yw ffyrdd pengaead. Fodd bynnag, dylid ystyried mynediad a seilwaith hefyd mewn perthynas â graddfa, geometreg, cyfrannedd a chyfyngau'r cyd-destun lleol. Dylid ystyried llwybrau teithio hefyd a'r berthynas â datblygiadau yn y dyfodol er mwyn osgoi creu patrymau strydoedd dieithr a lleiniau ynysig.

Mae'r fframwaith gofodol a sefydlir drwy'r patrwm llwybrau teithio a hierarchaeth ffyrdd yn cael effaith fawr ar y broses o gynllunio a chyfansoddi datblygiadau newydd, ac mae dewisiadau eraill ar gael yn lle'r patrwm arferol o ffyrdd pengaead ac adeiladau gwasgaredig sy'n nodweddu datblygiadau 'rhywle rywle' yn y DU. Mae llwybrau teithio a threfniant gofodol patrymau anheddu hanesyddol lleol yn gallu cynnig cliwiau ar gyfer fframwaith newydd o feddiannu gofod sy'n seiliedig ar nodweddion brodorol.

Cynlluniau seilwaith amgen y gellid eu hystyried yn lle hynny yw dull y 'cwrw agored bugeiliol' er enghraifft, sy'n cyfeirio at drefniant ffermydd yn yr ardal. Drwy'r dull hwn, byddai'r cynllun arfaethedig yn cynnwys lleiniau datblygu ar wahanol raddfeydd o gwmpas cyfres o gyrtiau i'w cyrraedd. Byddai angen cynllun gwahanol os oedd y safle mewn tirwedd ôl-ddiwydiannol, er enghraifft. Y pwynt yw bod deall y dirwedd drwy ddadansoddi safleoedd yn cynnig ffyrdd i ymateb i'r cyd-destun ac ailddehongli syniadau yn y bensaerniaeth



Llun 8: OLGATI Bardill Studio: Scharans, y Swistir, Valerio Olgiati

Ar ymweliadau astudio â'r Swistir, rydym wedi dysgu sut mae penseiri brogarol yn creu lleoedd cydweddol. Integreiddio pensaerniaeth gyfoes mewn pentref traddodiadol yn y Swistir




frodorol mewn ffordd gyfoes, fel bod perthynas rhwng datblygu newydd a'r cyd-destun a nodweddion unigryw lleol, yn hytrach na dull heb berthynas â lle sy'n rhy gyffredin o lawer. Unig bwrpas yr enghreifftiau hyn yw dangos y broses dylunio beirniadol: nid ydynt wedi'u cynnig fel dulliau i'w hailadrodd – rhaid datblygu pob dull mewn perthynas â'r safle penodol.


Mae ymateb i'r hyn a ddysgwyd drwy ddadansoddi'r safle yn bwysig hefyd o ran cynaliadwyedd. Os yw'r dylunydd wedi deall y topograffi a'r hinsawdd, gall ddefnyddio strategaethau dylunio goddefol i leihau'r galw am ynni gan y datblygiad a'i allyriadau carbon. Os yw datblygiad wedi'i leoli, ei gyfeirio a'i gyfansoddi'n ofalus, bydd yn defnyddio'r adnoddau naturiol o'r haul, y gwynt, y ddaear a'r awyr. O ganlyniad i hynny, bydd llai o alw am wresogi ac oeri mecanyddol a goleuadau trydan, fel na fydd angen gwasanaethau adeiladu uwchdechnolegol cymhleth.

Bydd topograffi a theipoleg adeiladau yn yr ardal yn rhoi cliwiau am berthnasoedd priodol i'w mabwysiadu. Drwy adeiladu mewn dull brodorol, mae pobl wedi datblygu gwybodaeth ddwfn am y dirwedd lle roeddent yn byw a gweithio, ac mae hyn wedi'i adlewyrchu yn eu ffordd o adeiladu, yn cynnwys y berthynas rhwng yr adeilad a'r tir o dano, boed yn wastad neu ar lethr.

*'Mae'r sensitifrwydd o ran deunyddiau a strwythur wedi'i ailadrodd yn yr adeiladu a'r ffordd o'i leoli. Drwy eu cynnwys yn y ddynmeg sydd mewn ffurfiau tirwedd, mae'r adeiladau'n ymddangos eu bod wedi tyfu gyda'r tir lle cafwyd y deunyddiau crai i'w hadeiladu. Fel ffurfiau geometrig, maent yn amlygu cydberthynas syml rhwng eu rhannau, mae graddfa eu swyddogaethau'n naturiol ac amlwg, maent yn perthyn i echelin sydd wedi'i diffinio'n glir ac yn dangos gwahaniaethau cynnil yn eu manylion.'*¹¹



Llun 9: CAMINADA
Mädcheninternat Kloster
Disentis: y Swistir,
Gion Antoni Caminada
Mae ein hymweliad i
astudio gwaith gan Gion
Caminada wedi rhoi mwy
o ddealltwriaeth i ni o'r
berthynas rhwng adeiladau a'r
tir o danynt.





Yn hanesyddol, mae'r berthynas â thir o ganlyniad i dopograffi wedi bod yn ddylanwad ar ffurf cynllun a chyfansoddiad aneddiadau. Mae ochrau cymoedd serth wedi arwain at ffurfiau llinellol rhesi tai sydd wedi'u trefnu un ai ar hyd cyfuchlin neu ar risiau i fyny ochr y bryn. Ar dir mwy gwastad, gellir trefnu adeiladau ar lawer o ffurfiau gwahanol a gallant fod yn fwy dibynnol ar anghenion diwylliannol yr ardal.

Mewn datblygiadau newydd torfol, sydd wedi'u ffurfio ar batrymau parod, ychydig o ystyriaeth a geir fel arfer i oleddfiad y tir, ac fe'u cynllunnir fel pe bai'r safle'n gwbl wastad. O ganlyniad i hyn, bydd angen lefelu'r tir yn ystod y gwaith adeiladu. Collir cyfleoedd drwy hyn i sicrhau golygfeydd, i fanteisio ar olau'r haul ac i gael ffurf a graddfa resymol wedi'u seilio ar ymateb mwy ystyriol i dopograffi, a chyfrannir hefyd at y dirywiad araf yn hunaniaeth y fro.

Drwy ddilyn fframwaith a ffurfiwyd drwy ddeall ac ymateb i'r dirwedd, bydd hefyd yn haws integreiddio datblygiadau newydd â gweadedd presennol yr aneddiadau drwy drefn, ffurf a threfniant gofodol.

Er enghraifft, mewn ardaloedd ffermio gwledig, byddai dadansoddiad o ffermydd lleol yn gallu ein helpu i adnabod traddodiad a chymeriad yng nghyfansoddiad yr anheddau a'u tai allan. Mae arsylwi o'r fath yn gallu cyfrannu at ddylunio datblygiad newydd sydd â pherthynas â ffermydd presennol o ran ei geometreg a'i gynllun, ac sy'n gyfraniad gwerthfawr i'r ardal. Gall cynigion fod ar ffurf cynllun 'cytser' sy'n deillio o bentrefi traddodiadol lle mae tai mewn grwpiau, ac eto'n annibynnol ar ei gilydd. Fel hyn, gellir trefnu nifer o adeiladau er mwyn eu gweld fel un endid, er y bydd gan bob strwythur ei gymeriad unigol a gwahanol.

Llun 10: FEL72 Datblygiad Tai Maierhof: Vorarlberg, Feld72

Mae'r datblygiad preswyl newydd hwn yn anheddiad gwledig Vorarlberg, Awstria yn enghraifft o gynllun cytser sy'n deillio o ddealltwriaeth o gyfansoddiad ffermydd lleol traddodiadol.



Drwy ailddehongli geometreg, cyfansoddiad a graddfa, cyfrannedd a chyfyngau, trefn a dilyniant gofodol a thaflu goleuni newydd arnynt, ceir lleoedd cydweddol - perthnasoedd gofodol sy'n cydweddu â'r rheini mewn aneddiadau presennol yn yr ardal. Mae hyn yn galluogi cymunedau i uniaethu â'r adeiladau neu ofodau newydd, gan y bydd yn ennyn teimladau tebyg.

Efallai mai hwn yw pwrpas pensaernïaeth gydweddol – y chwilio am emosiynau cyfarwydd, wedi'u hennyn gan bensaernïaeth realaidd, sy'n taro tant â ni ac yn peri i ni geisio deall beth rydym yn ei deimlo mewn gwirionedd.¹²

I ddatblygwyr masnachol eu bryd, y peth syml a darbodus yw defnyddio cynlluniau safonol mewn gwahanol ardaloedd o gwmpas y DU. Ond pwy sy'n elwa o ddull gweithredu o'r fath? Sut mae'r ardal yn elwa? Pa effaith a gaiff dull gweithredu o'r fath ar hunaniaeth ranbarthol ac amrywiaeth ddiwylliannol?

Rydym yn dadlau o blaid dull o ddylunio sy'n sicrhau nad yw adeiladau newydd yn cael eu creu ar wahân i'w cyd-destun a'u bod yn rhai y gall pobl uniaethu â nhw. Er mwyn creu ymdeimlad o berthyn i le, mae angen deall ac ymateb yn feirniadol i'r safle a'r dirwedd, yn enwedig o ran geometreg, graddfa a deunyddiau. I grynhoi, rydym wedi amlinellu pedwar cam allweddol at ddeall ac ymateb i dirwedd – ac ni ellir cyrraedd y cam olaf heb gwblhau'r tri cyntaf:

ffurfio a rhoi prawf ar ddull o gyflawni gwaith maes: mae nodweddion gofodol, amserol, hanesyddol, diwylliannol ac amgylcheddol y safleoedd yn cael eu profi a'u cofnodi;

cofnodi a dadansoddi'r gwaith maes yn feirniadol;

asesu'r ymchwil a'i throï'n naratif ar gyfer cynnig pensaernïol;

dylunio lle newydd sy'n onest ac yn brofedig, ac sydd wedi'i drefnu'n ffurfiol a gofodol drwy geometreg hanesyddol a dadansodol sy'n mynegi amodau diwylliannol a brodorol.

Dim ond drwy gael dealltwriaeth a dehongliad trwyadl o'r dirwedd y bydd datblygiad newydd yn gallu ymateb i ddiwylliant a threftadaeth, yn gallu delio'n feirniadol â thirwedd ac ardal, a chael ei ffurfio nid o safbwynt hiraeth a chadwraeth drwy gopïo ffurfiau presennol, ond drwy dderbyn bod tirweddau a lleoedd yn gorfod addasu ac ymateb i newid.

Am yr awduron

Ethos ALT-Architecture yw creu adeiladau a lleoedd sy'n gydlynol syml, wedi'u cyfansoddi'n gain, yn flaengar a dyfeisgar, yn gynaliadwy o'u hanfod ac, yn bwysicaf oll, yn coleddu naws y lle.

Sefydlwyd ALT- Architecture gan Rhian Thomas ac Amanda Spence. Rydym yn elwa o'n 28 mlynedd o brofiad o ddylunio lleoedd ymarferol a dymunol i bobl gael byw, dysgu a gweithio. Mae Caerdydd yn gartref i ni ond rydym yn gweithio'n aml mewn llawer rhan o Gymru a thu hwnt.

Mae ein dull ymarfer amgen yn cyffwrdd ag ymylon pensaernïaeth lle mae'n cwrdd â disgyblaethau celfyddyd, tirwedd a theori. Ein bwriad yw osgoi agweddau 'canol y ffordd' a herio rhagdybiaethau am werth mewn pensaernïaeth.

Rydym yn ymgymryd â phrosiectau cyfoes sy'n amrywio o ran math, graddfa a chyllideb, yn cynnwys gosodweithiau, adeiladau, tirweddau a threfolaeth. Mae ein gwaith wedi'i seilio bob amser ar ein hymateb beirniadol i'r safle a'r cyd-destun a'n huchelgais yw 'adeiladu'n syml'.

Ffynonellau'r lluniau:

- 1: Bernardo Bader yn lleoli cartref â chladin o bren llarwydd ar ben plinth concrid ym mynyddoedd Awstria. Lizzie Fison 10 Ebrill 2017
<https://www.dezeen.com/2017/04/10/haus-am-sturcheerwald-bernardo-bader-architects-wooden-gables-house-stilts-vorarlberg-austria/>
- 2-7: ALT-Architecture
- 8: <https://www.architonic.com/en/project/valerio-olgiati-bardill-studio/5101443> And <https://www.archaic-mag.com/magazine/2019/1/29/atelier-bardill-valerio-olgiati>
- 9: <https://www.atlasofplaces.com/architecture/madcheninternat-kloster-disentis/>
- 10: Lluniau: Hertha Hurnaus
<https://www.archdaily.com/924454/housing-development-maierhof-feld72>

Nodiadau

- 1 Kenneth Frampton, *A Critical History of Modern Architecture*, 3ydd argraffiad (London: Thames and Hudson, 1992)
- 2 Florian Musso, 'Simply Good', yn *Building Simply*, gol. Christian Schittich (Germany: Birkhäuser, 2005)
- 3 Ibid
- 4 Adolf Loos, 'Rules for those Building in the Mountains', yn *2G International Architectural Review*, rhifyn 14
- 5 Kenneth Frampton, *A Critical History of Modern Architecture*, 3ydd argraffiad (London: Thames and Hudson, 1992)
- 6 Suzanne Ewing, *Architecture and Field/Work*, (Routledge, 2010)
- 7 Denis Cosgrove, 'Cultural Cartography: maps and mapping in cultural geography', yn *Annales de Géographie* 660-661 (Mawrth 2008)
- 8 Andrea Kahn, *Architecture and Field/Work*, (Routledge, 2010)
- 9 Christopher Tilley, *Body and Image: Explorations in landscape phenomenology* (Left Coast Press, 2008)
- 10 Kenneth Frampton, *A Critical History of Modern Architecture*, 3ydd argraffiad (London: Thames and Hudson, 1992)
- 11 Raimund Abraham, *Elementare Architektur: Architectonics* (Salzburg: Pustet, 2001)
- 12 Martin Steinmann, *Matter of Art* (Birkhäuser, 2001)



Dau.

Rhan dau: Llunio Lleoedd

Creu Trefi Ffyniannus: Pa ddyfodol i drefi
Cymru yn sgil y pandemig?
Dr Matthew Jones

VeloCity – gweledigaeth seiliedig ar le i
gymunedau gwledig
Sarah Featherstone

Cymuned a Phreifatrwydd mewn
Lle am Oes
Bethan Scorey

Dyfodol y maestrefi
Diana Sanchez and Tom Wigg

Gwynfaen
Rob Wheaton

Ailgodi â Gwerthoedd Gwell
Robert I Chapman

Creu Trefi Ffyniannus: Pa ddyfodol i drefi Cymru yn sgil y pandemig?

Gan Dr Matthew Jones,
Ysgol Pensaerniaeth a Dylunio Birmingham a
Coombs Jones Architects & Makers

Mae trefi'n rhan hanfodol o fywyd pob dydd i nifer mawr o bobl yng Nghymru. Trefi marchnad prysur, maestrefi cymudwyr, trefi glan môr, atyniadau pictiwresg i ymwelwyr, trefi ôl-ddiwydiannol: mae 40% o'r boblogaeth yn byw yn y lleoedd bach ac unigryw hyn.¹ Maent yn elfen annatod yng ngwead y wlad ac yn ganolbwyntiau ar gyfer byw, cyflogaeth, gwasanaethau a hamdden. Mae gan bob un ei hanes ei hun wedi'i siapia gan gasgliad unigryw o rymoedd ac mae llawer o bobl leol yn falch dros ben o'u trefi. Ond er eu bod yn elfen hanfodol yn nhirwedd Cymru, maent wedi'u taro dros y degawdau diwethaf gan don ar ôl ton o broblemau cymhleth. Yn sgil y cynnydd mewn siopa ar-lein, twf manwerthu y tu allan i drefi, y diwylliant cyfleuster, symudedd cynyddol ymysg pobl a chau gwasanaethau fel banciau, llyfrgelloedd, swyddfeydd post ac ysgolion, codwyd cwestiynau ynghylch pwrpas canol trefi. Bydd heriau ehangach i gymdeithas fel yr argyfwng hinsawdd a bioamrywiaeth, newid demograffig, gwaddol y mesurau cyni ac ymyrraeth dechnolegol yn cael effaith ar ein trefi ac mae'n bosibl y byddant yn gwaethygu anghydraddoldebau presennol. Er y bydd rhai trefi'n ymaddasu er mwyn goroesi, mae eraill yn wynebu ansicrwydd neu ddirywiad.

Er nad ydym eto'n gwybod beth fydd effaith hirdymor y pandemig COVID-19, mae'n bosibl y bydd yn dwysáu ac yn cyflymu'r heriau y mae nifer o drefi'n eu hwynebu. Mae cynnodau clo a chyfyngiadau ar symud wedi cau canol trefi, wedi cynyddu'r gyfran o'r farchnad manwerthu sydd gan fusnesau ar-lein ac wedi cael effaith sylweddol ar y sectorau lletygarwch a thwristiaeth y mae nifer o drefi'n dibynnu arnynt.² Mae'n debygol y bydd nifer mawr yn rhagor o fwytai, tafarndai, caffis a siopau'n cau eu drysau wrth i effaith hirdymor y pandemig ddod yn glir. Mae bron 50% o fanwerthwyr mewn perygl o fethu, yn cynnwys nifer mawr o'r brandiau cenedlaethol adnabyddus.³ Mae'r argyfwng wedi amlygu mwy o anghydraddoldebau rhwng perchnogion cartrefi a thenantiaid, y cyflogedig, yr hunangyflogedig a gweithwyr yn yr economi glig, rhwng hen ac ifanc, a rhwng pobl agored i niwed a phobl iach.⁴ Teimlir effaith economaidd, gymdeithasol a gwleidyddol dros y tymor hir mewn nifer mawr o ganolau trefi sydd eisoes yn wan.

Amser am newid?

Mae'n hawdd edrych ar y llu o heriau sy'n wynebu trefi a theimlo'n ddigalon neu'n ddiymadferth. Ond fe all pethau newid, a gallant newid yn gyflym. Er nad oes dwywaith nad yw'r pandemig wedi gwneud niwed mawr i unigolion, busnesau a chymunedau, mae rhai canlyniadau llesol yn codi o'r newid sydyn hwn yn ein bywydau. Mae cyfyngiadau'r cyfnod clo wedi gorfodi pobl i feddwl a gweithredu'n fwy lleol, gan ailddarganfod yr ardal o'u cwrpas mewn ffyrdd newydd. Roedd cymunedau wedi addasu'n gyflym i effaith y cyfnod clo drwy gychwyn gweithgareddau a sgysiau ar-lein; casglu a dosbarthu bwyd i'r rhai mwyaf anghenus; neu rannu'r siopa â chymdogion. Mae ymarfer corff neu gerdded dyddiol mewn parciau a mannau gwyrdd lleol wedi magu ystyr newydd. Mae mwy o bobl yn gweithio'n hyblyg (neu maent ar ffyrlo) gartref, maent yn cymudo'n llai aml ac yn treulio mwy o amser gyda'u teuluoedd ac yn eu cymunedau. Gall y newid hwn bara'n hir; gallai bywyd barhau i fod yn fwy lleol tra bydd y rhagolwg o deithio'n codi ofn a chyfathrebu rhithwir yn dod yn fwyfwy cyffredin.⁵ Mae arolwg diweddar wedi dangos bod 40% o bobl yn profi teimlad cryfach o berthyn i gymuned leol ac mae 39% yn cysylltu'n amlach â'u ffrindiau a'u teulu o ganlyniad i'r pandemig.⁶ Am fod 85% o bobl am weld o leiaf rai o'r newidiadau a brofwyd yn ystod y pandemig yn parhau wedyn,⁷ byddai mannau lleol a chanolau trefi'n gallu elwa o hynny.

Mae ffyrdd newydd o feddwl am fyw, gweithio a hamdden yn cynnig y cyfle i ystyried beth yw diben ein trefi a sut y gellir eu hailddyfeisio gan roi lle canolog ynddynt i bobl leol. Gellid gweld bod y pandemig wedi rhoi'r ysgytwad roedd ei angen i ganolau trefi, cyfle unwaith mewn oes i ailddiffinio ein gwerthoedd cymdeithasol a manteisio ar yr awydd am newid. Wrth i ni fynd o'r cyfnod o reoli argyfwng i gyfnod o ymadfer hirdymor, mae cyfle i ailfeddwl yn sylfaenol am ddibenion canolau trefi a sut y gellir eu hailddyfeisio i oroesi a ffynnu. Mae'n bosibl, fel y dywedodd Bill Grimsey, fod y pandemig wedi "*paratoi'r ffordd ar gyfer tirwedd ar ôl manwerthu*."⁸ Byddai ffocws ehangach ar "*iechyd, addysg, diwylliant, tai, hamdden, celf*

y dref lle gallai pobl ddod i weithio gyda'i gilydd. Ar ôl cael cymorth gan yr awdurdod lleol, roedd yn llwyddiant ysgubol. Agorwyd canolfannau eraill o ganlyniad i hyn: gweithdy sy'n cael ei redeg gan y gymuned a chanolfan i fusnesau newydd. Mae'r rhain wedi bod yn hollbwysig o ran dysgu sgiliau newydd a helpu pobl i gael gwaith, yn enwedig yn y diwydiannau gwyrdd ac ôl-osod ffyniannus. Roedd busnesau eraill wedi meddwl yn galed am eu gwaith ac wedi troi'n fwy entrepreneuriaidd. Roedd caffi lleol wedi gweithio gydag artist i greu lle dan do yn ei iard y tu allan i ddangos ffilmiau a chynnal digwyddiadau a gweithgareddau. Roedd grŵp arall wedi sefydlu busnes cydweithredol gyda ffermwyr lleol i brynu a dosbarthu cynnyrch ffres o gwmpas y dref ar gefn beiciau.

Lledwyd palmentydd dros dro, gosodwyd cafnau planhigion a sefydlwyd lonydd beiciau yn ystod y pandemig. Ail-leolwyd rhai o'r mannau parcio o sgwâr y dref fel y gellid gosod seddi ar y palmant. Roedd cyngor y dref wedi helpu i ariannu adlenni newydd fel y gallai pobl eistedd allan ym mhob tymor; rydyn ni'n gosod rygiau ar y seddi yn ystod y gaeaf. Roedd y sgwâr fel calon y dref eto a chychwynnwyd marchnad fisol. Roedd y mesurau dros dro ar y strydoedd wedi aros yn eu lle. Cawson ni afael ar gyllid i ymestyn y mesurau dros dro er mwyn ei gwneud yn fwy diogel i bobl gerdded a beicio i'r ysgol ac i'r ganolfan iechyd ar gyrion y dref. Roedd y disgyblion wedi plannu planhigion bwytdwy a choed ffrwythau ar hyd ymylon y llwybrau teithio hyn. Dros amser, roedd pobl yn symud o gwmpas y dref mewn ffyrdd gwahanol.


Dydw i ddim yn dweud bod y gwaith sydd wedi'i wneud yn berffaith; mae heriau'n codi o hyd. Ond mae'n ddechrau. Rydw i'n meddwl ein bod ni wedi cyflawni llawer.

Troi geiriau'n weithredu

Nid stori am le go iawn a'r newidiadau ynddo yw hon. Mae'n debygol o fod yn wahanol iawn i'r stori y byddai eraill yn ei hadrodd am eu trefi eu hunain. Ond, er mai hanes dychmygol yw hwn, mae pob un o'r prosiectau wedi'i seilio ar enghreifftiau go iawn.¹¹ Fel y mae Rob Hopkins, sylfaenydd y mudiad Trefi Trawsnewid, yn dweud yn 'From What is to What If', mae storïau o'r fath yn hanfodol i drechu 'problemau dieflig' fel effaith y pandemig, y newid yn yr hinsawdd a cholli bioamrywiaeth, anghydraddoldeb a'r chwalfa mewn manwerthu:

*"Rydym yn byw mewn cyfnod sy'n amddifad o storïau o'r fath – storïau am yr hyn y gallai bywyd fod os oeddem yn gallu dod o hyd i ffordd yn ystod yr ugain mlynedd nesaf i fod yn eofn, yn ddawnus a phenderfynol, i weithredu'n gymesur â'r heriau a wynebwn ac anelu at ddyfodol rydym yn teimlo'n braf yn ei gylch."*¹²

Credaf fod rhan hollbwysig i'w chwarae gennym ni fel gweithwyr proffesiynol yr amgylchedd adeiledig wrth adrodd y storïau hyn. Yn 'Transforming Towns: Designing for Smaller Communities', roeddwn yn dadlau bod y



Ffigur 2: Yr Hen Lys, Rhuthun:

Trosglwyddo ased cymunedol drwy droi banc sydd wedi cau'n ganolfan gymunedol yng nghanol y dref

diddordeb gwleidyddol cynyddol mewn cymunedau llai yn golygu bod hwn yn gyfnod perffaith i ddylunwyr arwain y ffordd wrth ystyried dyfodol canol trefi.¹³ Mae cyfle mawr i ni arfer creadigedd, dyfeisgarwch a sgiliau cydweithio a datrys problemau i arwain y ffordd ar lunio dyfodol i'r amgylcheddau sensitif hyn.

Mae llawer o'r fframwaith strategol sydd ei angen i hybu'r newid hwn yn bod eisoes. Am ei bod yn rhwymo awdurdodau lleol i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol, gall Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) fod yn sail i hyn. Yn sgil y pandemig, mae mwy nag 80% o bobl yn credu y dylid rhoi blaenoriaeth i iechyd a lles cyn twf economaidd.¹⁴ Mae'r dull 'canolau tref yn gyntaf' ym menter Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru yn cynnwys lleoli gwasanaethau cyhoeddus yng nghanol trefi, ailddefnyddio adeiladau a safleoedd gwag a gwella'r dirwedd er mwyn denu rhagor o bobl i ganol trefi.¹⁵ Ochr yn ochr â'r polisiâu strategol hyn, mae'r broses o ddatblygu 'Cynlluniau Bro' dan arweiniad cymunedau lleol yn creu cyfleoedd i bobl leol ddylanwadu ar ddyfodol eu bröydd, gan greu gweledigaethau llebenodol, rheoli gwasanaethau ac adeiladu datblygiadau bach. Pobl leol sy'n adnabod eu bröydd orau ac maent

mewn lle da i wneud polisi sy'n cwrdd â'r cyfleoedd a'r heriau a wynebir mewn cymunedau penodol.¹⁶ Gyda'i gilydd, mae'r polisiâu hyn yn creu cyd-destun lle gellir cael trawsnewid ond, er mwyn manteisio ar yr awydd am newid, rhaid i ni weithredu. Fel y mae Bill Grimsey yn dweud, "o ran y cymunedau a threfi hynny sydd heb ddechrau cynllunio i drawsnewid eu lle, maen angen iddynt ddechrau nawr."¹⁷

Ceir enghreifftiau o leoedd sydd wedi arfer dychymyg i gymryd eu dyfodol i'w dwylo eu hunain. Dros y degawd diwethaf, mae Cyngor Tref Rhuthun wedi datblygu gweledigaeth i lywio datblygiad y dref farchnad hon yn y dyfodol.¹⁸ Mae'r cynllun wedi'i seilio ar ymgysylltu helaeth â'r cyhoedd a ddaeth i'w anterth yn Wythnos Dyfodol Rhuthun, wythnos o ddigwyddiadau a gweithgareddau ymgysylltu cyhoeddus sydd bellach yn cael ei chynnal yn flynyddol, a'i nod oedd pennu blaenoriaethau dylunio ar sail tystiolaeth. Mae'r cynllun tref a gafwyd o ganlyniad yn cynnig cyfres o ymyriadau fforddiadwy ar raddfa fach i gael yr effaith fwyaf posibl o'r adnoddau lleiaf, ynghyd â phrosiectau trawsnewid tymor hwy sy'n galw am ddulliau cyllido a chyflawni mwy cymhleth. Yn 2018, adolygwyd y cynllun mewn ymateb i newidiadau mewn polisi ac i gamau i gyfuno asedau'r cyngor, ac i'r ffaith bod nifer o adeiladau pwysig wedi dod yn wag. Nod y fframwaith diwygiedig oedd creu tref gryno y

gellid cerdded drwyddi gyda chartrefi newydd i brynwyr tro cyntaf a'r henoed yn y dref i gymell pobl o bob oed i fyw'n dda yng nghanol y dref. Mae'r cymorth gan y gymuned a'r weledigaeth greadigol wedi galluogi cyngor y dref i ymgymryd â phrosiectau sylweddol fel yr un i drosglwyddo ased cymunedol yr Hen Lys a'i adnewyddu i greu canolfan gymunedol sy'n cynnwys lle ar gyfer digwyddiadau, gweithio ar y cyd a gwybodaeth i ymwelwyr, a chais llwyddiannus i ddenu Felodrom Gogledd Cymru. Ers y pandemig, cynigiwyd system unffordd dros dro i ledi palmentydd a gwella hygyrchedd, mesurau a oedd wedi'u hamlinellu'n wreiddiol yn y cynllun. Drwy gydweithio'n agos, mae cyngor y dref wedi gallu arwain wrth greu gweledigaeth ar gyfer dyfodol y dref, wedi'i seilio ar dystiolaeth am ddylunio. Fel y mae Gavin Harris, Maer Rhuthun yn dweud:

*"Ers ei sefydlu yn 2010, mae menter Dyfodol Rhuthun wedi chwarae rhan gynyddol bwysig wrth ddatblygu strategaethau i wireddu prosiectau ac uchelgeisiau Cyngor Tref Rhuthun. Er nad oes gennym ddigon o adnoddau neu allu gweinyddol i gyflawni'r holl brosiectau yr un pryd, mae pob gwelliant yn cyfrannu'n raddol at gyflawni'r cynllun ac yn dod â gwerth ychwanegol i fentrau eraill sy'n gysylltiedig."*¹⁹

Ffigur 3: Lledu palmentydd a gosod cafnau planhigion yn rhan o'r ymateb arfaethedig i'r pandemig yn Rhuthun.



Ffordd ymlaen?

*"Os arhoswn ni i lywodraethau weithredu, bydd yn rhy hwyr. Os gweithredwn ni fel unigolion, ni fydd yn ddigon. Ond os gweithredwn ni fel cymunedau, fe allai fod yn ddigon, ac fe allai ddigwydd mewn pryd."*²⁰

Rydym yn byw ar adeg o newid sylfaenol. Wrth symud ymlaen o ymadfer ac at drawsnewid, mae angen symud oddi wrth fanwerthu at weledigaeth ehangach o ganolau trefi fel canolbwynt i'w cymunedau gyda lle canolog i swyddogaethau dinesig. Mae'r rhain yn fannau cyfarwydd, sydd yn aml yn hanesyddol, y gellid eu hadfywio drwy syniadau newydd am ffyrdd o fyw, gweithio, masnachu a chymdeithasu, wedi'u hwyluso gan dechnolegau newydd a syniadau cyfoes. Drwy ddod â phob math o ddefnydd a gweithgarwch ynghyd drwy ddull sy'n rhoi canol y dref yn gyntaf, gellir creu lleoedd bywiog, amlhaenog sy'n llawn rhyngweithio cymdeithasol. Gellir hybu bywyd cyhoeddus drwy addasu sgwariau, strydoedd a pharciau, ehangu a chysylltu llwybrau teithio llesol ac integreiddio mannau gwyrdd mewn datblygiadau newydd. Mae angen lle i roi prawf ar syniadau newydd ac i fentro. Gallai'r rhain fod yn brototeipiau dros dro, yn ddefnydd dros dro o eiddo gwag, yn gamau gweithredu graddol, yn ymyriadau ar raddfa fach neu'n waith trawsnewid mwy, ond mae angen seilio'r cyfan ar fyfyrion cyson ynghylch diben canol y dref.²¹

Rhaid i bob newid fod yn newid 'lleol yn gyntaf' a bod wedi'i greu drwy gydweithio â phobl, grwpiau a sefydliadau angor lleol. Y sefydliadau hyn sy'n adnabod eu lleoedd orau ac maent wedi buddsoddi yn eu dyfodol tymor hir. Er bod Cynlluniau Bro yn un ffordd i gynllunio at y dyfodol dan arweiniad pobl leol, mae angen datblygu amrywiaeth fwy o offer ac arferion er mwyn cynnwys yr holl leisiau lleol mewn ffordd ystyrlon. Ochr yn ochr ag ailldatblygu mwy traddodiadol o dan arweiniad datblygwyr, mae dulliau eraill fel gwaith i greu cyfoeth cymunedol, cwmnïau cydweithredol ac entrepreneuriaeth leol yn cynnig cyfleoedd i roi'r rheolaeth yn nwylo pobl leol. Mae angen hybu a meithrin mentrau lleol. Ni ellir disgwyl i gymunedau sicrhau newid tymor hir ar eu pen eu hunain; mae arnynt angen cymorth a chanllawiau. Mae rhannu syniadau, cydweithio ac arweinyddiaeth effeithiol yn hanfodol wrth hyrwyddo bwriadau da. Mae awdurdodau lleol a chynghorau tref yn gallu helpu yn hyn o beth drwy weithredu fel hwyluswyr sy'n barod i gynnig cyfleoedd creadigol fel trosglwyddo asedau cymunedol a defnydd dros dro o safleoedd.

Yn olaf, ac yn bwysicaf o bosibl, mae creadigedd a dyfeisgarwch yn hanfodol wrth lunio, cynnal a chyflawni gweledigaethau tymor hir ar gyfer canolau trefi. Mae trefi ffyniannus i bawb yn bosibl: dyma'r adeg i gwrdd â'r her honno mewn ffordd greadigol a dyfeisgar.

Am yr awdur

Mae Matthew yn bensaer, yn athro cyswllt yn Ysgol Pensaernïaeth a Dylunio Birmingham ac yn bartner yn Coombs Jones Architects & Makers. Drwy ei ymchwil, ei addysgu a'i ymarfer, mae'n edrych ar y rhan sydd i ddylunio, ymgysylltu cymunedol a chreu lleoedd cyfranogol mewn gwaith cadarnhaol i drawsnewid trefi a chymunedau bach. Ef yw awdur *'Transforming Towns: Designing for Smaller Communities'*, a gyhoeddwyd gan RIBA Publishing yn 2020, ac offer cynllunio dan arweiniad y gymuned ar gyfer Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae wedi datblygu gweithdai cymunedol, preswyliaethau i artistiaid a strategaethau bro ar gyfer cymunedau ledled Cymru a de-orllewin Lloegr.

Nodiadau

- 1 Michael Woods, 'Market Towns in Rural Wales: a Differentiated Geography' yn Paul Milbourne, *Rural Wales in the Twenty-First Century – Society Economy Environment*, Cardiff: University of Wales Press, t.151.
- 2 Mae hyn wedi cael effaith neilltuol ar drefi glan môr; mewn lleoedd fel Aberystwyth, Llandudno a Phorthcawl, mae mwy na 40% o'r gweithlu wedi'u cyflogi mewn sectorau sy'n profi'r effeithiau mwyaf o'r cyfnod clo. Gweler *The Centre for Towns, The Effect of the COVID-19 Pandemic on our Towns and Cities*.
<https://www.centrefortowns.org/reports/covid-19-and-our-towns> (cyrchwyd 07 Awst 2020) t.16.
- 3 Bill Grimsey et al (2020), *Build Back Better: Grimsey Review COVID-19 Supplement for Town Centres*
<http://www.vanishinghighstreet.com/wp-content/uploads/2020/06/Grimsey-Covid-19-Supplement-June-2020.pdf>
(cyrchwyd 30 Gorffennaf 2020).
- 4 Julian Dobson, *A Critical Hope is the Foundation to Build Back Better*
<http://urbanpollinators.co.uk/?p=2683> (cyrchwyd 10 Awst 2020).
- 5 Long Crisis Network (2020), *Our COVID Future: The Long Crisis Scenarios*, London: Local Trust,
https://localtrust.org.uk/wp-content/uploads/2020/05/Our-COVID-future_The-Long-Crisis-scenarios.pdf
(cyrchwyd 08 Awst 2020)
- 6 RSA, *Brits see cleaner air, stronger social bonds and changing food habits in lockdown*,
<https://www.thersa.org/about-us/media/2019/brits-see-cleaner-air-stronger-social-bonds-and-changing-food-habits-amid-lockdown>
(cyrchwyd 08 Awst 2020).
- 7 RSA, *ibid*.
- 8 Bill Grimsey et al, *ibid*.
- 9 Bill Grimsey et al, *ibid*.
- 10 Julian Dobson (2015), *How to Save our Town Centres: A Radical Agenda for the Future of High Streets*, Bristol: Policy Press.
- 11 Mae lab, gweithdy a stiwdio ar y stryd fawr, CoLab Dudley, yn cael eu rhedeg mewn siop ar stryd fawr Dudley; mae Mehrgenerationenhaus (tai sy'n pontio rhwng y cenedlaethau) yn fenter a gefnogir gan lywodraeth a geir ledled yr Almaen; codwyd cartrefi carbon isel i rai sy'n symud o gartref mwy yn y Fenni a chartrefi i bobl ifanc yng Nghas-gwent, a'r rhain yn cael eu rhedeg gan Gymdeithas Dai Sir Fynwy; crëwyd tair fflat a thair siop, yn cynnwys siop ddiwasttraff, drwy adnewyddu adeilad y Corn Exchange yng Nghrucywel; ceir canolfannau busnes ledled Cymru, ee: Caerfyrddin, y Drenewydd, a safleoedd IndyCube ar gyfer rhannu mannau gwaith; y caffï â'i iard dan do ar gyfer digwyddiadau yw caffï Fennelly yn Callan, Iwerddon; mae cydweithfeydd bwyd yn rhedeg yng Nghapel Dyserth ac Aberporth; defnyddiwyd beiciau e-cargo i ddanfôn bwyd yn Lewisham; mae mesurau dros dro i addasu strydoedd yn cael eu cyflwyno ledled y DU; mae Incredible Edible wedi creu mannau bwyttadwy o gwmpas Todmorden ac mae Mini-Holland yn Waltham Forest wedi gwella cyfraddau cerdded a beicio drwy gyflwyno llwybrau teithio llesol gwyrdd.
- 12 Rob Hopkins (2019), *Yn What Is to What If: Unleashing the Power of Imagination to Create the Future we Want*. London: Chelsea Green Publishing, t.4.
- 13 Matthew Jones (2020), *Transforming Towns: Designing for Smaller Communities*, London: RIBA Publishing.
- 14 Simon Youel, *New Polling: Only 12% Want UK to Prioritise Economic Growth Over Wellbeing* Positive Money
<https://positivemoney.org/2020/05/new-polling-only-12-want-uk-to-prioritise-economic-growth-over-wellbeing/>
(cyrchwyd 15 Awst 2020).
- 15 Llywodraeth Cymru: *Trawsnewid Trefi: Cymorth i wella canol trefi*
<https://llyw.cymru/cymorth-i-wella-canol-trefi> (cyrchwyd 15 Awst 2020).
- 16 Matthew Jones ac Amanda Spence (2019), 'Planning for Well-being: A critical perspective on embedding well-being in community-led planning processes in Wales', yn Jones, Rice a Meraz, *Designing for Health: Home City Society*, Delaware: Vernon Press, 2020.
- 17 Bill Grimsey et al, *ibid*. t.10.
- 18 Datblygwyd Dyfodol Rhuthun gan Gyngor Tref Rhuthun drwy gydweithio â'r awdurdur yn Uned Ymchwil i Ddylunio Cymru a Coombs Jones Architects and Makers
- 19 Gavin Harris wedi'i ddyfynnu yn Matthew Jones (2020), *Transforming Towns: Designing for Smaller Communities*, London: RIBA Publishing, t.139.
- 20 Rob Hopkins, *ibid*. t.6.
- 21 Dan Hill, 'What is the High Street For?' Yn Mayor of London (2019), *High Streets: Adaptive Strategies*, London: GLA, t.30.
https://www.london.gov.uk/sites/default/files/ggbd_high_streets_adaptive_strategies_web_compressed_0.pdf
(cyrchwyd 12 Awst 2020).



Llun 1: Gweledigaeth VeloCity ar gyfer tyfu pentrefi'n wahanol

VeloCity – gweledigaeth seiliedig ar le i gymunedau gwledig

Gan Sarah Featherstone, pensaer a chyfarwyddwr Featherstone Young ac aelod o VeloCity

“Y broblem fwyaf yn y byd yw ynysigrwydd a diffyg cyswllt – yn gymdeithasol ac yn gorfforol.”

Dyma ddyfyniad o eiriau George Monbiot rai blynyddoedd yn ôl ond mae'n ymddangos yn fwy teimladwy nawr yng nghyd-destun yr argyfwng COVID. Yn y cyd-destun hwn ac yn wyneb yr argyfwng hinsawdd, mae VeloCity, tîm gwobrwyedig, amlddisgyblaethol o fenywod sy'n benseiri, yn gynllunwyr, yn drefolyddion ac yn beirianwyr, yn arloesi syniadau newydd am ffyrdd i gynnal cymunedau gwledig.

Gwlad wledig yw Cymru gan mwyaf ac mae ynysigrwydd yn broblem fawr, yn enwedig mewn cymunedau ffermio ac ymysg yr henoed. Mae ein gweledigaeth seiliedig ar le yn strategaeth gyfannol, amlhaenog, hirdymor sy'n mynd i'r afael â diffyg cyswllt ac yn delio â rhai o'r problemau mwyaf tyngedfennol sy'n wynebu cefn gwlad heddiw: colli bioamrywiaeth, anghydraddoldeb cymdeithasol ac iechyd, diffyg cysylltedd a dirywiad mewn cyfleusterau cymunedol fel ysgolion, siopau a thafarndai. Mae'n uchelgais sy'n agos iawn i themâu Lleoedd Byw a'r saith nod yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yn enwedig creu cymunedau cydlynus sy'n atyniadol, hyfyw a diogel â chysylltiadau da.

Mae'r argyfwng tai yn rhoi pwysau mawr cynyddol ar adeiladu yng nghefn gwlad ond yr unig atebion a gynigir

yw rhai sy'n ymwneud ag ehangu trefi, canolfannau trefol a datblygiadau newydd ar hyd ffyrdd. Cyfyngwyd ar dwf mewn pentrefi ac ychydig o feddwl a gafwyd ynghylch ffyrdd i'w cynnal a'u hadfywio. Gan fod y tir o gwmpas trefi yn dod yn llai a llai cynaliadwy, mae angen newid polisiâu cynllunio a phatrymau ymddygiad yn sylfaenol er mwyn creu strategaethau mentrus a blaengar sy'n cynllunio ar gyfer dyfodol cefn gwlad ac yn creu lleoedd cynaliadwy gyda seilwaith newydd ar gyfer symud o gwmpas.

Mae'r syniadau a ddatblygwyd gan VeloCity dros y tair blynedd diwethaf yn ymwneud ag un ffordd i fynd i'r afael â rhai o'r problemau hyn ac rydym wedi canolbwyntio ar weithio gyda phentrefi presennol. Mae'r rhain yn aneddiadau gwledig lle mae ymdeimlad cryf o berthyn i le yn barod a thrwy eu cysylltu fel clystyrau drwy rwydwaith cynhwysfawr o lwybrau beicio a cherdded, gallant gyd-dyfu a chynnal y cyfleusterau cymunedol a gollwyd a bod yn llai dibynnol ar geir. Er mwyn sicrhau'r newidiadau sylfaenol sydd eu hangen i gynnal yr amgylchedd, mae angen mabwysiadu syniadau newydd radicalaidd. Rydym yn galw ein gweledigaeth yn 'radicaliaeth gymedrol' ac, os oes rhywbeth cadarnhaol a all godi o'r pandemig presennol, hwnnw yw'r cyfle i weld bod newid radicalaidd o'r fath yn bosibl a bod newid eisoes yn digwydd. Yn yr ysgrif hon, rydym yn disgrifio nifer o gyfleoedd newydd sy'n gyson â'r pum egwyddor ym manifesto VeloCity.

Pum egwyddor VeloCity:

1. Wedi'u cysylltu a heb eu hynysu

Cysylltu cymunedau gwledig gydag adnoddau a rennir er budd pawb

Mae ein strategaeth yn creu rhwydwaith integredig o lwybrau ceffylau a llwybrau beicio i gysylltu aneddiadau ynysig yn glystyrau fel y gallant gyd-dyfu a chynnal siopau, tafarndai ac ysgolion lleol a lleihau'r angen am deithio mewn ceir. Mae'r pandemig COVID-19 wedi dangos eisoes fod cymunedau lleol yn gallu cyd-dynnu a chynorthwyo ei gilydd a chadwyni cyflenwi lleol, ac rydym hefyd wedi gweld bod llwyfannau digidol yn gallu darparu dulliau newydd o gwrdd yn gymdeithasol sy'n hanfodol i gymunedau gwledig sydd am ymgryfhau.

2. Pobl cyn ceir

Creu rhwydweithiau mwy cynaliadwy ar gyfer symud o gwmpas

Yn ein gweledigaeth ni, beicio a cherdded yw'r normau newydd ac mae'r rhain, ynghyd ag opsiynau i rannu trafndiaeth a mentrau danfon nwyddau lleol sy'n defnyddio beiciau a cherbydau trydan, yn gallu lleihau'r ddibyniaeth ar geir preifat. Yn ystod cyfnod clo COVID-19, cafwyd cynnydd yn nifer y bobl sy'n cerdded a beicio yn rhan o'u hymarfer dyddiol. Mae hyn yn dod â buddion i iechyd corfforol a hefyd yn dangos bod mannau mwy cryno a cherddadwy yn gallu lleihau'r ynysigrwydd ffisegol a greir drwy gynllunio gwasgaredig sy'n dibynnu ar geir. Yn ogystal â hyn, mae'r gostyngiad yn y defnydd o geir ac awyrennau ar gyfer teithio wedi dangos bod modd newid ein gorddibyniaeth ar y mathau o drafnidiaeth sy'n fwyaf anghynaliadwy ac yn achosi'r llygredd mwyaf.

3. Datblygu cryno nid blerdwf

Cadw cymeriad arbennig ein pentrefi

Yn fwy nag erioed o'r blaen, mae angen bod yn ymatebol wrth greu cartrefi newydd. Ni ellir gadael i ofnau bod anheddu dwysedd uchel wedi helpu i ledaenu'r feirws fod yn rhwystr i gynyddu dwysedd anheddu – mae bygythiadau mwy o lawer fel twf poblogaeth wedi cyfrannu i'r pandemig hwn. Mae blerdwf dwysedd isel yn gyffredin iawn mewn ardaloedd gwledig ac, os ydym i ymateb i'r argyfwng hinsawdd ac amgylchedd, mae angen atal twf o'r math hwn ac adeiladu datblygiadau mwy cryno er mwyn peidio â cholli cynefinoedd naturiol.

4. Cyfleoedd nid dirywiad

Darparu lleoedd newydd i fyw a gweithio


Cyn dyfodiad y feirws, roedd tueddiadau eisoes at weithio hyblyg ac roedd amcangyfrif bod 20-25% o'r gweithlu'n gweithio gartref, nifer mawr ohonynt yn byw yng nghefn gwlad. Mae'n debygol y bydd y duedd hon yn cynyddu yn dilyn y pandemig ac wrth i'r diwydiant ffermio orfod arallgyfeirio. Bydd mwy o bwysau i greu mannau gwaith newydd a rhannu adnoddau.

5. Cadarn nid bregus

Hyrwyddo amgylcheddau cynaliadwy, iechyd a lles

Ar ôl cyfnod COVID-19, bydd angen creu system ecolegol fwy cytbwys nad yw'n rhoi mwy o bris ar economeg a chynnyrch domestig gros nag ar werth cymdeithasol ac amgylcheddol. Mae angen dosbarthu tecach o lawer lle bydd cadernid yn bwysicach nag effeithlonrwydd – mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yn un strategaeth bolisi dda sy'n arwain y ffordd. Gallai hyn fod yn ddiweddd ar y twf economaidd rydym yn gyfarwydd ag ef – mae Llywodraeth yr Alban a Glasgow wedi rhoi'r gorau i ddefnyddio'r term 'twf' ac yn rhoi 'ffyniant' yn ei le; thema'r Wyl Bensaerniaeth Dairblynyddol yn Oslo oedd 'Datdyfu'; ac mae Amsterdam wedi cyflwyno 'economeg y doesen' yn gynllun ar gyfer y cyfnod ar ôl COVID-19.

Gwlad wledig yw Cymru gan mwyaf ac mae ynysigrwydd yn broblem fawr, yn enwedig mewn cymunedau ffermio ac ymysg yr henoed.



Llun 2: Pentref wedi'i ailddyfeisio gan VeloCity

Pam cefn gwlad?

Mae tua 85% o dir Cymru yn dir gwledig 'a ddefnyddir ar gyfer amaethyddiaeth neu goedwigaeth neu'n dir comin ond mae llai na 35% o'r boblogaeth yn byw yno', yn ôl Ystadegau Cymru yn ei adroddiad yn 2008, A Statistical Focus on Rural Wales.

Er mai pentrefi yw rhai o'r mannau mwyaf dymunol a gwarchodedig yn y DU, maent hefyd yn fannau lle ceir tlodi sylweddol, diffyg swyddi, poblogaethau a stoc dai sy'n heneiddio, diffyg buddsoddi a diffyg hygyrchedd a diffyg amrywiaeth o ran tai a gwrthwynebiad lleol i unrhyw ddatblygu newydd. Er hynny, mae gan bentrefi a bywyd pentrefol lawer i'w gynnig i bobl o ran cymuned, mynediad i gefn gwlad ac ansawdd bywyd a dylid canolbwyntio ar y materion hyn er mwyn ailfywiogi pentrefi fel y gallant ffynnu eto a dod yn lleoedd mwy cynaliadwy.

Cysyniad VeloCity yw tyfu pentrefi presennol yn glwstwr gan godi cartrefi newydd ar ddwysedd uwch (50+ annedd yr hectar) o fewn pob pentref er mwyn cyrraedd y maint gorau i gynnal cyfleusterau cymunedol ac adfer y rheini a gollwyd. Mae cartrefi o'r math hwn yn cymryd llai o dir a rhoddir llai o ofod ar gyfer ffyrdd a mannau parcio, ac mae'r tai ar ffurf rhesi sy'n debyg i'r bythynnod gweithwyr traddodiadol a geir yn y pentrefi hyn. Mae'r strategaeth hon yn atal y datblygu a welwn ar hyn o bryd mewn pentrefi, sef blerdwf dwysedd isel ar raddfa fach sy'n dilyn ffyrdd allan o'r pentref gan ffurfio ymylon caled rhyngddo a'r gymuned bresennol a'r cefn gwlad o gwmpas. Mae'r mathau datblygu hyn yn dynwared dulliau o ddatblygu tai mewn trefi a maestrefi sy'n ymddangos yn anghydnaws â chymeriad pentref ac sy'n arwain yn y pen draw at uno pentrefi a cholli eu hunaniaethau unigol.

Mae'r posibilrwydd o ryddhau tir ar gyfer tai newydd oddi mewn i bentrefi yn cynnig dewis mwy cynaliadwy sy'n cadw pentrefi ar wahân a'u gwneud yn gerddadwy ac yn diogelu'r cefn gwlad o'u cwrmpas. Ond er mwyn cyflawni hyn, bydd yn rhaid troi polisiau cynllunio a thrafnidiaeth ben i waered. Mae angen dangos bod lleoliadau a welir yn anaddas ar hyn o bryd yn rhai a fydd yn gallu cynnwys twf yn y dyfodol. Bydd hyn yn golygu dileu polisiau sy'n diogelu lleoliadau ar sail treftadaeth a'r amgylchedd ac adolygu polisi ar ddyrannu safleoedd hefyd.

Mae'r galwadau a gafwyd ar y llywodraeth gan sefydliadau fel Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (YDCW) a Shelter Cymru i greu mecanweithiau sy'n darparu rhagor o dai fforddiadwy yn adlewyrchu'r angen brys am godi tai newydd o fathau penodol mewn mannau penodol. Mae pryderon cynyddol gan YDCW am y niferoedd bach iawn o gartrefi fforddiadwy a godir wrth i brisiau tai godi i'r entrychion. "Mae'r argyfwng hwn yn achosi problem fwy: mae cynllunio byrbwyll yn peri i bentrefi dyfu'n flêr ac i fannau gwyrdd ddiflannu o dan goncridd. Yn waeth byth, dim ond 2,210 o'r 6,170 o gartrefi a godwyd yng Nghymru yn 2015 oedd yn rhai fforddiadwy."

Pobl cyn ceir – y ddadl o blaid teithio gwyrdd araf

Un o'r heriau mwyaf i gefn gwlad ac i ardaloedd trefol yw'r newid yn yr hinsawdd ac mae ein dibyniaeth gynyddol ar deithio mewn ceir yn cyfrannu'n helaeth at hyn.

Mae cerbydau'n cyfrannu at 80% o'r achosion o dorri rheoliadau ar lygredd aer ac at 34% o'r allyriadau o nwyon tŷ gwydr. Mae Deddf Teithio Llesol Llywodraeth Cymru a basiwyd yn 2013 yn gam i'r cyfeiriad iawn o ran hyrwyddo

cerdded a beicio fel mathau o deithio gwyrdd amgen ar gyfer siwrneiau lleol, ond mae lle i wneud rhagor.

Er mwyn adfywio aneddiadau gwledig, un o'r prif anghenion yw gwella'r rhwydwaith ar gyfer symud o gwmpas a pheri i bobl yng nghefn gwlad fod yn llai dibynnol ar geir. Ar gyfer teithio i'r gwaith, mae beiciau trydan neu siwrneiau aml-fodd cyfunedig gyda beiciau plygu trydan a thrafnidiaeth gyhoeddus yn gallu bod yn hawdd ac yn gyfleus. Rhai o'r opsiynau ar gyfer teithio i'r ysgol yw bws beiciau neu feiciau cargo trydan sydd â chyfleusterau i gario plant a nwyddau i'r cartref. Ar gyfer pobl hŷn, mae bygis trydan a cherbydau trydan yn opsiwn da, a gellir defnyddio cerbydau trydan hefyd i gasglu gwastraff a danfon nwyddau'n lleol.

Mae pentref anghysbell, pictiwrésg Dent yn Nyffrynnoedd Swydd Efrog yn cynnig rhai syniadau ynghylch sut y gallai hyn ddigwydd, fel y gwelodd tîm VeloCity wrth ymweld ar daith ymchwil. Mae'r pentref ar dir uchel mewn dyffryn ac yn darparu ar gyfer cymuned sy'n ymwneud â ffermio'n bennaf yn ogystal ag economi dwristiaeth dymhorol sy'n tyfu, nid annhebyg i rai o'r pentrefi rydym wedi ymchwilio iddynt ar gyrion Bannau Brycheiniog, a drafodir yn fwy manwl isod.



Llun 3: Dent yn Nyffrynnoedd Swydd Efrog

Llun 4:
Datblygu cryno
nid blerdwf

If nothing changes...



...the sprawl continues...

**3600 new homes at 25
units per hectare**

VeloCity villages



*...but there is another
way.*

**3600 new homes at 100
units per hectare**


Mae Dent yn ffodus o fod â'i orsaf drenau ei hun (yr orsaf uchaf yn Lloegr ar brif reilffordd) ac, yn ddarwybod i ni, roedd y beirniad pensaernïol Ian Nairn wedi ymweld yn y 1970au, yn rhan o'i gyfres Across Britain i'r BBC. Yn y rhaglen, mae'n canmol nifer o'r nodweddion a welsom ni:

- pentref cryno â datblygu dwys iawn ac ymdeimlad cryf o berthyn i'r gymuned, pobl ar gefn beiciau cargo trydan a cheir wedi'u parcio y tu allan i'r pentref. Mae'n debyg bod y pentrefwyr mor awyddus i gadw ceir allan o'r pentref fel eu bod wedi creu maes parcio grasscrete ar gwr y pentref sy'n cydweddu â'r dirwedd o amgylch. Mae cynlluniau rhannu ceir yn rhedeg hefyd gan fod nifer o'r preswylwyr yn ifanc ac ar incwm isel a heb y gallu i fforddio rhedeg car. Nodwedd ddiddorol arall yn Dent yw ei fod wedi'i adeiladu ar ddwysedd uchel iawn ar ffurf rhesi o fythynnod gweithwyr bychain mewn strydoedd coblog cul. Er hynny, mae pobl yn ei weld yn lle atyniadol a phictiwrésg sy'n denu nifer mawr o ymwelwyr yn ystod y tymhorau gwyliau.

Datblygu cryno nid blerdwf – clystyrau cysylltiedig

Mae nodweddion pentrefi yn wahanol i'r rheini a geir mewn trefi – ffurf gryno, yn gerddadwy a mynediad uniongyrchol i'r cefn gwlad o gwmpas. Rhoddwyd llawer o sylw i ddulliau o ddatblygu trefi a chanolfannau trefol yng nghefn gwlad, fel y fenter Shape My Town ysbrydoledig a Transforming Towns gan Matthew Jones a gyhoeddwyd yn ddiweddar, ond llai o sylw i bentrefi gwledig ac aneddiadau llai. Mae'n haws lleihau'r cymhelliad i ddefnyddio ceir mewn tref lle mae'r gwasanaethau sydd eu hangen wrth law. Her fwy yw gwneud hynny ar gyfer pobl sy'n byw mewn pentrefi.


Mae strategaeth VeloCity ar gyfer adfer hen lwybrau cerdded a llwybrau ceffyl hanesyddol i wneud rhwydweithiau beicio a cherdded newydd yn cynnig opsiwn diogel ac iach ar gyfer teithio sydd nid yn unig yn lleihau'r pwysau ar y seilwaith gorbysur presennol ond hefyd yn rhad i'w sefydlu ac yn costio llai ar y dechrau nag unrhyw ddatblygu ar safleoedd maes glas.



Llun 5: Cymhwyso syniadau VeloCity ar wahanol raddfeydd

Derbynnir y bydd pentrefi presennol yn well o ran cynnal y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt drwy wneud hynny ar y cyd yn hytrach nag ar eu pen eu hunain a'u bod, wrth wneud hynny, yn gallu cadw eu cymeriad unigryw eu hunain. Bydd 'clwstwr pentrefi' VeloCity wedi'i ffurfio'n naturiol o 5-7 o bentrefi sydd i gyd o fewn 1-2 filltir i'w gilydd a gall y clwstwr pentrefi fod yn un o 5 neu 6 o glystyrau sy'n ffurfio 'clystyrau tref' mwy sydd i gyd o fewn pellter beicio o 7 milltir o orsaf drenau (y pellter mwyaf y bydd pobl yn debygol o deimlo'n gyfforddus yn ei feicio). Bydd y strategaeth yn arwain ymhén amser at sefyllfa lle nad oes bron dim ceir o fewn y clystyrau wrth i drafnidiaeth gyhoeddus a cherdded a beicio ddod yn brif ddulliau symud o gwmpas a lle mae symudiadau cerbydau'n cael eu cadw ar y cyrion. Mae egwyddorion y clystyrau pentrefi hyn yn debyg i'r rheini yn y mudiad Pentrefi Gardd, a'r gwahaniaeth yw bod yr olaf yn canolbwyntio ar un pentref newydd a'r cyntaf yn cynnwys nifer o bentrefi gwasgaredig, a alwn yn Bentrefi mewn Gardd.

Mae topograffï cefn gwlad yn dylanwadu'n fawr ar y ffordd y mae pobl yn symud o gwmpas a'r ffordd y mae aneddiadau'n tyfu. Roedd astudiaeth achos gyntaf VeloCity yn ymwneud â chlystyrau pentrefi yng nghoridor Rhydychen – Caergrawnt lle mae'r dirwedd yn donnog a phatrymau anheddu'r pentrefi wedi'u grwpio ar sail llwybrau teithio cylchol/rheiddiol. Fodd bynnag, mae daearyddiaeth Cymru'n wahanol gan fod bron 30% o'i thi yn fwy na 300 metr yn uwch na lefel y môr. Mae'r rhan fwyaf o bentrefi'r ucheldir yn dilyn patrwm mwy llinellol ar hyd gwaelod y cymoedd, a chefnau uwch yn eu rhannu oddi wrth bentrefi yn y cymoedd nesaf. Rydym wedi astudio aneddiadau'r cymoedd i'r gogledd o Fannau Brycheiniog sy'n rhedeg i lawr at drefi Aberhonddu, Pontsenni a Chrucywel. Er bod y pentref pellaf ym mlaen pob cwm o fewn 7-8 milltir i dref gan amlaf, fel ei bod yn bosibl beicio i orsafoedd trenau neu fysiau a chyrraedd mannau gweithio pellach i ffwrdd, mae'r heriau sy'n codi yn wahanol i ryw raddau am fod y clwstwr yn un llinellol yn hytrach nag un cylchol. Serch hynny, er bod y rhwystrau ffisegol – dyffrynnoedd serth a chefnau uchel – yn gallu cynyddu ynysigrwydd, maent hefyd yn gallu cynnig cyfleoedd.




Llun 5a: Clwstwr Ysgir sy'n gysylltiedig ag Aberhonddu

Gallwn weld nifer o ffyrdd i gymhwyso strategaeth clystyru VeloCity: y ffordd ar un ochr y cwm yn dod yn llwybr di-geir penodedig i gysylltu pentrefi drwy feicio a cherdded a'r ffordd ar yr ochr arall ar gyfer bysiau a gwasanaethau danfon; adfer hen bontydd troed a rhydiau i gysylltu'r ddwy ochr, a'r croesfannau hyn yn dod yn lleoedd i gael seibiant a chwrdd â chymdogion, casglu nwyddau a ddanfonwyd, newid rhwng moddau trafnidiaeth – canolbwyntiau cyfnewid cymunedol. Mae hyd yn oed yn bosibl cyfuno rhyd neu bont bresennol â mesurau amgylcheddol fel rhai i reoli llifogydd neu weithfeydd pŵer dŵr micro.

Ar y cefnau a'r tir uwch y mae rhan helaeth o'r tir comin sy'n weddill heddiw. Yn hytrach na bod y rhain yn fannau anghysbell ac anhygyrch, gallem weld nifer o brosiectau arallgyfeirio ffermydd yn codi yma i wneud y lleoedd hyn yn fwy cynhyrchiol a deniadol i'r gymuned leol ac i ymwelwyr. Drwy blannu rhagor o goed, ceir manteision ar unwaith o ran diogelu rhag llifogydd a bioamrywiaeth.

Mae'r argyfwng COVID wedi dangos yn fwy nag erioed ein bod mewn lle da i greu newid – ac y gallwn newid yn gyflym.



Llun 6: Clystyrau Swydd Rydychen

Rhai enghreifftiau o arallgyfeirio ar ffermydd sydd eisoes yn digwydd yn ardal Bannau Brycheiniog yw fferm lafant y ffermwyr lle mae fferm ddefaid ym Mynydd Epynt wedi'i throi'n fusnes ffyniannus ac yn atyniad i ymwelwyr, a fferm ddefaid arall gyfagos lle tyfir cennin Pedr yn y caeau i dynnu cemegyn ohonynt i drin clefyd Alzheimer. Hefyd, os bydd y rhan fwyaf o'r cynhyrchu bwyd yn digwydd yn y cymoedd yn nes i'r pentrefi, yna gellid adfer y tir uwch ar ôl canrifoedd o ffermio defaid sydd wedi arwain at ddatgoedwigo, erydu pridd a cholli cynefinoedd bywyd gwyllt.

Yn sicr, mae strategaeth VeloCity yn un hyblyg a gellir ei haddasu at lawer math o batrymau tirwedd ac anheddu ledled cefn gwlad yng Nghymru a Lloegr. Mae eisoes wedi'i choleddu gan yr awdurdodau lleol yn Swydd Rydychen sydd wedi argymhell cyflwyno'r cynnig i'w chynnwys yn Oxfordshire Plan 2050 fel cyfle i wneud pethau'n wahanol ac mae'n chwarae rhan allweddol mewn creu dyfodol cynaliadwy ledled y sir.

Y newid yn yr hinsawdd – rhaid i ni wneud pethau'n wahanol


"Ni yw'r genhedlaeth gyntaf sy'n gwybod ein bod yn dinistrio'r blaned a'r un olaf sy'n gallu gwneud rhywbeth yn ei gylch"
Tanya Steele Prif Weithredwr Cronfa Bywyd Gwyllt y Byd

Nid oes rhaid bod yn broffwyd i weld bod dibynnu gormod ar geir yn broblem sy'n effeithio ar feysydd eraill ac y bydd y math o amgylchedd a grëwn – tai yn ogystal â mannau cyhoeddus a seilwaith – yn cael effaith fawr hefyd o ran y newid yn yr hinsawdd ac yn penderfynu pob dim o ansawdd aer i iechyd meddwl a chynhyrchiant. Er bod y pandemig COVID wedi dod â dioddefaint mawr yn ei sgil ac wedi amlygu anghydraddoldebau cymdeithasol enbyd, gellir dadlau y bydd yr Argyfwng Hinsawdd yn cael effaith hirdymor fwy dinistriol o lawer gyda'r posibilrwydd o lwyrddileu'r hil ddynol a rhywogaethau.

Mae'r argyfwng COVID wedi dangos yn fwy nag erioed ein bod mewn lle da i greu newid – ac y gallwn newid yn gyflym. Rydym wedi gweld hynny – newidiadau yn ein ffyrdd o deithio, newid mewn arferion ffermio, newid mewn arferion gweithio, newid yn y ffordd rydym yn cynnal ein teuluoedd a'n cymuned, newid yn ein darpariaethau ar gyfer tai ac iechyd, newid yn ein ffordd o ddiogelu'r amgylchedd, a sut y gallwn sicrhau'r newidiadau hyn drwy weithredu ar y cyd.

Ond er mwyn cael newid ystyrlon, mae angen cymryd amser i aros a meddwl. Mae naws rhy gyflym ynghylch strategaethau diweddar llywodraeth y DU ar gyfer y cyfnod ar ôl COVID, Project Speed a Build Build Build, ac ni fyddant ond yn cyflymu'r ffordd o wneud pethau fel roeddent yn cael eu gwneud o'r blaen – mae'n debygol y gwelwn fwy o brosiectau sy'n cynhyrchu carbon ac y bydd llawer ohonynt wedi'u codi ar ffyrdd newydd. Mae angen arafu, neilltuo amser i ffurfio strategaeth hirdymor a gofyn pa fath o fecanweithiau cynllunio a chyflawni a fydd yn hwyluso newid a pha fath o dai rydym am eu hadeiladu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae Naomi Klein wedi crisialu hyn mewn cyfweiliad yn ddiweddar: *"pan fyddwch chi'n arafu, byddwch chi'n gallu teimlo pethau... O'r dechrau cyntaf, mae'r feirws wedi ein gorfodi i feddwl am gyd-ddibyniaethau a pherthnasoedd... Mae'n bosibl bod gorfod meddwl mewn ffyrdd mwy cydgysylltiedig wedi tymheru ein syniadau a dangos na ddylen ni feddwl eu bod nhw'n broblem i rywun arall."*



Llun 7: Gweithredu ar y cyd ac economi sy'n rhannu

Gweithredu ar y cyd ac economi sy'n rhannu

Mae'r meddalu hwn a'r newid i fwy o gyd-ddibyniaeth yn taro tant â'r diwylliant o gydweithredu a rhannu sydd ym mhob agwedd o gynnyg VeloCity. Ar raddfa fawr, mae'n ymwneud â deall y materion cymdeithasol ac economaidd sy'n effeithio ar fywyd cymunedol – y mäs critigol sydd ei angen i gynnal gwasanaethau pob dydd a chymhwysio egwyddorion o rannu a chydweithredu sy'n dileu'r meddylfryd ynysig. Ar raddfa fach, mae'n gyfle i gymunedau gymryd yr awenau ac adfer bywyd y pentref.

"Y cydweithredu sy'n rhan o'r gwasanaethau cyhoeddus a ddarperir gan y wladwriaeth sy'n ein helpu i ddod drwy'r argyfwng (COVID) ... Rhaid i ni sicrhau bod ein cymdeithas newydd wedi'i seilio ar ddemocratiaeth gyfranogol sy'n ffynnu yn ein cymunedau a hefyd yn yr economi ac mewn gwaith." John McDonnell AS, Ebrill 2020

Mae'r pandemig wedi rhoi cyfle i ni weld bod y math o newid sylfaenol sydd ei angen i achub y blaned yn ddichonol. Llai o hedfan, llai o ddefnydd o geir, llai o gymudo, llai o lygredd, mwy o weithio gartref, mwy o drafnidiaeth gynaliadwy, mwy o leoliaeth, mwy o amaethu cyfrifol – mae'r rhain i gyd yn llesol i'r amgylchedd. Mae hefyd wedi dangos bod newid sylweddol mewn ymddygiad a chymdeithas yn gallu digwydd – a digwydd yn gyflym iawn.

Yn lle'r agweddau hen ffasiwn a marwaidd at ddatblygu gwledig, mae'n bosibl, os gallwn newid strwythurau cynllunio a thrafnidiaeth, creu tai o ansawdd gwell, newid syniadau negyddol a manteisio at ddatblygiadau technolegol modern, y byddwn wedyn yn gallu edrych mewn ffordd wahanol ar dwf yng nghefn gwlad. Felly, yn bell o fod yn lleoedd marwaidd a phlwyfol, gall ardaloedd gwledig fod yn labordai ar gyfer arloesi ac yn fannau ar gyfer radicaliaeth gymedrol.



Am yr awduron

Mae VeloCity yn dîm amlddisgyblaethol o fenywod sy'n cyflwyno gweledigaeth strategol ar gyfer cefn gwlad sy'n edrych ar y ffordd y gallwn dyfu pentrefi mewn ffordd wahanol drwy leihau'r cymhelliad i ddefnyddio ceir a sicrhau newid sylfaenol mewn polisiau cynllunio. Mae'r tîm yn cynnwys y pensaer Sarah Featherstone o Featherstone Young; y strategydd Kay Hughes o Khaa; y pensaer Petro Marko o Marko & Placemakers; y pensaer Annalie Riches o Mikhail Riches; y cynllunydd Jennifer Ross o Tibbalds; a'r peiriannydd Judith Sykes o Expedition Engineering.

Mae Sarah Featherstone yn bensaer ac yn gyd-gyfarwyddwr Featherstone Young, practis sy'n arbenigo mewn llunio lleoedd ac ymgysylltu cymdeithasol. Mae ei phrosiectau'n cynnwys Tŷ Pawb, model newydd ar gyfer canolfan gelfyddydau yn Wrecsam a chanolfan gymunedol a chlwb bocsi yn Grenfell Tower sy'n rhan o gynllun DIY SOS y BBC. Mae ei phractis wedi ennill gwobrau sy'n cynnwys Medal Aur yr Eisteddfod Genedlaethol a gwobr Prif Enillydd AJRetrofit am Tŷ Pawb a gwobr RIBA am Tŷ Hedfan, tŷ newydd yng Nghymru. Mae Sarah yn addysgu ym Mhrifysgol Caerdydd ac yn Central St Martins, UAL ac mae'n aelod o baneli Adolygu Dylunio nifer o awdurdodau lleol.

Llun 8: Clwstwr Pentrefi'r Dyfodol VeloCity



Cymuned a Phreifatrwydd mewn Lle am Oes


Gan Bethan Scorey

Mewn lleoedd am oes, mae perthnasoedd yn allweddol. Codi tai yw'r cam cyntaf wrth ddatblygu lle: ar ôl hynny bydd y preswylwyr am flynyddoedd yn magu ymdeimlad o berthyn i'r lle hwnnw ac i gymuned. Mae tai modern wedi'u safoni i gwrdd â delfrydau maestrefol ac i gyrraedd lefelau newydd o effeithlonrwydd a chysur i'w meddianwyr, nes bod stadau tai unfath yn cael eu codi ledled y wlad. Os ydych yn gwybod y gallwch symud i le arall i dŷ o'r un math, yna mae'n sicr mai lleoliad a'r hyn sydd ar garreg eich drws fydd yn penderfynu yn y pen draw a ydych am aros neu beidio. Os cymerir camau i greu amgylchedd adeiledig sy'n hybu rhyngweithio rhwng cymdogion a phrofiadau cyffredin, bydd hynny'n sicr o gyflymu'r broses o fagu ymdeimlad o berthyn, ond mae nifer mawr o ddatblygiadau modern yn arafu'r broses honno.

Mae'r pwyslais ar werth economaidd tai newydd, nifer yr ystafelloedd sydd ynddynt, a ydynt yn dai sengl neu'n dai pêr, ac a oes garej a chegin fodern, wedi troi golygon datblygwyr yn ogystal â phrynwyr at y byd preifat oddi mewn i'r tŷ ac oddi wrth ansawdd tir y cyhoedd o'i gwmpas. O ganlyniad i hyn, mae'r ymdeimlad o berthyn i le wedi gwanhau, a'r unig ofod 'cymunol' yw ffyrdd a phalmentydd wedi'u croesi gan dramwyfeydd, fel y mae Ffigur 1 yn dangos. Nid yn unig y mae tai'n cael eu cynllunio mewn perthynas â seilwaith, ond mae datblygiadau newydd yn aml yn cael eu hadeiladu *ar raddfa* symudiadau ceir yn hytrach na dimensiynau dynol, gyda bylchau rhwng tai a baeau troi ar bob cornel sy'n llyncu tir yn frwydus o gyflym. Fel arfer, bydd tai mewn datblygiadau o'r fath wedi'u dylunio fesul un, pob un â gardd breifat o'i gwmpas ac yn wynebu'r ffordd, heb nemor ddim perthynas rhyngddynt ond y ceblau pŵer sy'n eu cysylltu. Ac edrych arnynt gyda'i

gilydd, maent yn ymddangos fel tirwedd ffisegol ddi-ffurf wedi'i gwneud o barseli o dir wedi'u trefnu fel *collage*. Mae'n wir bod digon o le y tu allan i'r tai, ond nid yw gerddi preifat digyswllt yn cyfrannu dim at yr ymdeimlad o berthyn i gymuned neu at feithrin perthnasoedd. Effaith arall yr unfurfiaeth yw gwahanu haenau cymdeithas, lle mae'r holl dai mewn bloc wedi'u meddiannu gan breswylwyr o'r un cefndir economaidd-gymdeithasol.

Lle mae gofod cymunol wedi'i gynnwys mewn datblygiadau tai, bydd yn aml ar ffurf parciau plant, llecynnau glaswelltog, a nodweddion cyffredin eraill yma ac acw yn y bylchau rhwng tai. Er bod y mewnosodiadau hyn yn torri ar undonedd y cynllun, nid ydynt yn cynnig unrhyw fwlch gweledol mewn gwirionedd nac unrhyw ddihangfa rhag yr amgylchedd trefol. Er eu bod yn dir cyffredin rhwng cymdogion, maent wedi'u gwahanu oddi wrth y tai gan ffyrdd a phalmentydd, gan greu pocedi o ofod cymunol digyswllt a dienw sy'n eiddo i bawb ac eto i neb yn benodol. Yn niffyg gofod cymunol a'r cyfle i gysylltu â chymdogion, bydd pobl yn chwilio mewn lleoedd eraill am ymdeimlad o berthyn ac am gymuned, ar-lein er enghraifft. Mae natur soffistigedig y dechnoleg yn ein cartrefi heddiw yn caniatáu i ni segura yn ein hystafelloedd byw a dianc o'r byd o'n cwmpas yr un pryd drwy wyllo'r teledu neu siarad â ffrind ym mhen draw'r byd. Mae datblygiadau o ran cludiant wedi ehangu cwmpas ein byd hefyd: mae'n ymddangos mai po bellaf y cyrhaeddwn, lleiaf perthnasol fydd y filltir sgwâr yn ymddangos i ni, nes bod pobl yn gallu byw'n gwbl ddiennw mewn bloc o fflatiau neu res o dai. A phawb wedi arfer symud o gwmpas yn ddirwystr cyn cael eu dal gan y cyfnod clo COVID-19, yn sydyn cawsant eu bod wedi'u hangori i'w




Ffigur 1: Bloc preswyl dychmygol sy'n dangos y math o amgylchedd adeiledig maestrefol sy'n anaddas i greu cymunedau parhaus.

preswylfeydd a'u hamgylchedd agos. Mae'r partis stryd, y grwpiau cymunedol a'r cyfarfodydd canu a gododd yn sgil hynny yn brawf bod nifer mawr o gymdogion yn teimlo'r awydd i ymgynnull, ac y byddant yn dod ynghyd ar y ffordd, ar eu tramwylfeydd neu yn eu drysau os nad oes dewis gwell ar gael. Dylai mannau cymunol fod yn garreg sylfaen i ddatblygiadau tai newydd, nid yn sbarion dros ben. Gallant fod yn ganolbwynt i'r tai sydd wedi'u trefnu o'u cwmpas a gall preswylwyr droi o'u cwmpas, gan gwrdd fel pobl gyfartal heb ddynameg y perchennog/ymwelydd neu gerddwr/gyrrwr; fel y dywedir yn *Suburban Nation*, 'mae gwahaniaeth pwysig rhwng taro yn erbyn rhywun wrth gerdded i lawr y stryd a tharo yn erbyn rhywun wrth yrru car'!

Ymchwilio i ffurfiau sy'n hybu cymunedau

Roedd y 'Triangle' yn anheddiad dychrynlyd o dai ar gyfer gweithwyr haearn yn ardal Pentre-bach ym Merthyr Tudful a gwblhawyd ym 1851 ond a oedd wedi'i ddymchwel, gwaetha'r modd, erbyn 1977. Mae'r llun ohono yn Ffigur 2 yn dangos ei fod yn enghraifft hanesyddol ragorol o dai wedi'u trefnu o amgylch man cymunol. Yn yr un modd â chwmnïau haearn ac adeiladwyr manteisgar eraill ar y pryd, roedd Cwmni Haearn Plymouth yn sicr o fod am wasgu cynifer o dai â phosibl i'r llain o dir a ddyrannwyd – hanner cant a phedwar yn yr achos hwn. Mae dadansoddiad o'r cynllun yn dangos bod y safle a ddewiswyd wedi'i gyfyngu gan stryd tua'r gogledd, gan ffos borthi camlas tua'r de, a chan nant ar ei derfyn gorllewinol, fel bod y llain yn drionglog. Felly, roedd siâp gyffredinol yr anheddiad wedi'i rhagbennu. Fodd bynnag, roedd y penderfyniad gan y cwmni i drefnu'r rhesi o amgylch cwrn canol cyffredin yn hytrach na rhesi cyfochrog â gerddi unigol, fel Long Row gerllaw, yn un anarferol. Roedd yn amlygu ymagwedd oleuedig, efallai o dan ddylanwad egwyddorion cynllunio Sioraidd ar gyfer y dosbarthiadau uwch, a oedd yn poblogeiddio rhesi wedi'u trefnu'n siapiau geometrig o gwmpas parc â gatau. Roedd terfynau'r anheddiad wedi'u diffinio'n llwyr gan gyfeiriad y rhesi, a diddorol yw nodi bod tai ar gorneli'r anheddiad wedi'u gosod ar osgo a'u hymestyn yn y cynllun i gadw'r siâp drionglog.

Ffigur 2: Llun o'r Triangle ym Merthyr Tudful a Long Row yn gyfagos.




Roedd y cwrt canol a grëwyd gan ffurf y rhesi yn y Triangle yn darparu ffocws i'r gymuned, rhywbeth nad oedd ar gael mewn aneddiadau o resi cyfochrog, a gofod cymunol mawr ar gyfer ymgynnull a hamddena gyda phwmp dŵr cymunol. Roedd bywyd yn yr anheddiad yn troi o gwmpas y gofod hwn, gan fod yr holl dai'n wynebu at i mewn, tra oedd eu gweddoluniau cefn yn blaen dros ben. Yn lle gerddi preifat, darparwyd cwrt blaen bach i bob tŷ, sef clustogfa rhwng gofod preifat a gofod cyhoeddus, lle gallai preswylwyr storio tanwydd ac eitemau domestig eraill a thynnu'n ôl yn gorfforol o'r stryd neu'r cwrt i safle lle gallent sgwrsio â chymdogion a oedd yn mynd heibio neu wyllo eu plant yn chwarae. Mae hyn yn dwyn i gof y gwyliau haf a dreuliais yn aml yng ngharafan fy nain a thaid yn Sir Benfro pan oeddwn yn blentyn, lle'r oedd cysylltiadau cymdogol yn cael eu ffurfio'n rhwydd a chyflym. Mewn maes carafanau, mae'r gofod cymunol, agored yn llofo'n rhwydd rhwng unedau a hyd at ddrysau ffrynt ac mae'r ffaith nad oes gofod preifat yn rhywbeth ffres; os yw rhywun am gael lle i encilio iddo, nid oes ond rhaid adeiladu feranda uwch, lle lled-breifat y mae'n rhydd i'w bersonoleiddio.

Nid yw cymuned o'r fath yn un ddisymud o bell ffordd: mae'n rhwydwaith o fannau cyfnewid a chyd-ddibyniaethau sy'n symud ac yn dwysáu drwy'r amser. Mae'r amgylchedd adeiledig yn gweithio fel sgerbwdd i'r gymuned a dylai

fod yn fynegiant pensaernïol o hynny, a dylai'r adeiladau berthyn i'w gilydd ac i'r gofod cymunol fel y maent yn y Triangle. Meddyliwch am y bloc preswyl dychmygol yn Ffigur 1 a sut y gellid aildrefnu'r tai sengl a'u huno i greu rhes ddi-dor o amgylch perimedr y bloc, fel yn Ffigur 3. Fel pentref caerog neu fur tref ganoloesol, mae'r dilyniant ffisegol rhwng y tai yn mynegi undod llwyr, fel y mae'r dewis cyson o ddeunyddiau a'r driniaeth bensaernïol. I bob pwrpas, mae'r tai'n troi'n derfyn, yn wal o breswylfeydd sy'n diffinio'r gofod yn eu canol. Cyn i chi wneud y 'lle am oes', rhaid i chi wneud y lle. O ran eu ffurf, mae'r tai'n ddi-dor ac yn cyfleu ymdeimlad o gyfanrwydd ac felly parhad: mae'r cyfan wedi'i wneud o'r gwahanol rannau, ac mae pob rhan yn hanfodol i gadw'r cylch yn gyfan, gan greu ymdeimlad o gydberchnogaeth yn syth. Yn Ffigur A, roedd gan bob dŷ ei ardd breifat, amgaeedig, a ffens ar hyd ei therfyn, er bod y math o ddefnydd tir yn y gerddi yn gydweddol. Yn Ffigur C, ar y llaw arall, mae'r preswylwyr yn rhannu gardd gymunol. Mae'r model hwn yn sicrhau dwysedd anheddu uwch o lawer ar lain dir sy'n llai o lawer, ond hefyd yn darparu mynediad i breswylwyr at ofod awyr agored lled-breifat sy'n fwy o lawer. Gellir cyfyngu gwasanaethau i'r perimedr, fel na fydd traffig a seilwaith yn y gofod cymunol, ac fel y gellir plannu a thirwedd.

Mae cyfansoddiad y bloc yn creu ymdeimlad o fod mewn tir caeedig a bod gwahaniaeth rhwng y byd y tu allan a'r byd

Ffigur 3: Bloc preswyl dychmygol wedi'i gynllunio i greu gofod i'w rannu yn ei ganol a iardiau a therasau to preifat ar gyfer preswylwyr. Mae'r adeilad gwddrog yn enghraifft o ofod dan do i'w rannu a gallai fod yn borth hefyd i'r gofod cymunol ar gyfer ymwelwyr a digwyddiadau.



mewnol, y ddau â'u hansawdd a'u cyflymder tra gwahanol. I bob pwrpas, mae'r gofod cyffredin yn troi'n ystafell awyr agored sy'n darparu gwrthbws i'r preswylwyr yn erbyn yr amgylchedd trefol y tu allan, ac ymdeimlad o ddiogelwch. Heb ffyrdd a cheir, mae wedi'i greu ar raddfa pobl, ac mae'n cywasgu mewn ffordd sy'n gymdeithasol adeiladol, lle bydd sgwrsio a rhyngweithio rhwng cymdogion yn digwydd yn naturiol. Tueddwn i feddwl bod 'mannau agored' yn ddiderfyn ond, drwy greu ymdeimlad o fod ar dir caeedig, gallwn greu gofod awyr agored agos-atoch hefyd. Mae cymaint o ddatblygu ar raddfa fwy yn yr amgylchedd trefol, yn cynnwys parciau busnes a chanolfannau siopa yn ogystal â thraffyrdd sy'n cysylltu dinasoedd, fel bod mannau awyr agored caeedig sy'n gosod terfyn ar y dirwedd yn gallu rhoi rhyddhad, fel math o 'aciwbigo trefol'.² Maent yn tynnu pobl yn ôl i'w hamgylchoedd agos, fel y mae'r weithred o groesi trothwy, ac, fel y trafodwyd yn gynharach, mae hyn yn allweddol i greu cymunedau parhaus a lleoedd am oes. Mae hanes hir o amgáu yn nhirwedd Cymru, o'r bryngeyrydd Celtaidd i'r cestyll canoloesol, o'r 'llan' i'r traddodiad o ennill tir drwy godi 'tŷ unnos', ac rwyf yn cynnig y dylem fod yn falch o weld mannau awyr agored caeedig yn cael eu hailgyflwyno yn ein hamgylchedd trefol.

Gogoniant y gofod amgaeedig a rennir yw ei fod yn fan lle gall y gymuned ddod ynghyd, lle mae'r gofod wedi'i ddiffinio ond nid y rhaglen. Gellid ei dirwedd drwy gynnwys

lawntiau, patios, coed, gweirgloddiau a phyllau dŵr, a bydd y gofod yn newid yn ôl rhythmau naturiol y tymhorau a'r tywydd. Gellid defnyddio'r gofod ar gyfer chwaraeon, gemau, picnics a barbeciwlau, ymysg pethau eraill, a gallai preswylwyr greu rhandiroedd, tomenni compost, rheseli beiciau a storfeydd coed iddyn nhw eu hunain. Pe byddai preswylwyr yn dewis peidio â gosod dim byd penodol ynddo, byddai'r gwagle'n cyflawni diben o hyd drwy roi seibiant oddi wrth orbysurdeb y bywyd trefol. Ond gellir darparu gofod i'w rannu dan do hefyd: byddai neuadd fach â chyfleusterau sylfaenol yn darparu gofod dan do defnyddiol i breswylwyr ar gyfer gweithgareddau fel dosbarthiadau ymarfer corff, dathlu gwyliau, gwahanol glybiau a phartys pen blwydd, a byddai'n ganolbwynt o fewn y gofod a rennir. Byddai cyfleuster o'r fath yn galluogi preswylwyr o wahanol genedlaethau, crefyddau a chefnidiroedd ethnig i ddod ynghyd yn gyfartal a chreu cymuned iach, amrywiol, fyw. Byddai adeilad sy'n rhan o'r tir amgaeedig yn gallu arwain i'r byd y tu mewn a'r byd y tu allan a bod yn borth rhwng y ddau, fel y gall preswylwyr wahodd y gymuned ehangach i'r anheddiad fel cydwesteiwyd.

Mae'n bwysig gwahodd eraill i mewn i'r gymuned, ond mae yr un mor bwysig bod unigolion a theuluoedd yn cael cyfle i dynnu'n ôl o'r gymuned i'w cartrefi, drwy symud yn ddirwys rhwng gofod cymunol a gofod preifat yn ôl eu dymuniad. Bydd y ffordd y mae tai unigol yn agor

Ffigur 4: Yr un egwyddorion ar gyfer cynllunio cymunedol wedi'u cymhwysio at floc o dai rhes.



i'r gofod a rennir yn hollbwysig yn hyn o beth, a gallai dylunwyr gynnwys clustogfeydd a gosodiadau addasadwy fel drysau plygu i hwyluso'r symud rhwng gofod a rennir a gofod preifat, neu newid mewn deunyddiau i wahaniaethu rhyngddynt. Dylai preswylwyr allu aros yn ymreolus o fewn y gymuned drwy gael mynedfa breifat a gofod awyr agored preifat ar ffurf cwr, balconi, neu deras to. Mae Ffigur 3 yn dangos sut y gellid cynnwys iard ar y stryd ar gyfer tai i barcio ceir a gwaredu sbwriel domestig, ac i sicrhau bod ymwelwyr yn gallu adnabod tai penodol. Byddai dwy fynedfa i bob uned, un yn wynebu'r stryd a'r llall yn agor i'r gofod cymunol.

Mae Ffigur 4 yn dangos un ffordd i gymhwyso'r model hwn at floc presennol o dai rhes, os oedd preswylwyr yn barod i ildio hanner eu gardd breifat yn gyfnewid am fynediad i ofod a rennir sy'n fwy o lawer. Mewn nifer mawr o flociau o dai rhes, yr unig ofod a rennir yw lôn fynediad yn y cefn a fydd yn aml â gât ar ei thraws, yn cael ei defnyddio'n anfyfych, ac yn anaddas fel man chwarae i blant. Byddai cae i'w rannu yn lle lôn gefn yn parhau i roi mynediad i gerbydau os oedd angen, a byddai mwy o botensial iddo fel lle i breswylwyr gael cwrdd a chymdeithasu mewn gofod diogel amgaeedig. Yn ogystal â hynny, byddai gardd breifat ddigon mawr o hyd gan y preswylwyr i gael lle i eistedd allan, codi sied, a chyflawni prosiectau garddio personol.

Gellir cymharu'r model hwn â chynlluniau cyd-drigo, sy'n hyrwyddo byw, prydau bwyd a hyd yn oed gofal plant ar sail gymunol. Mae'r preswylwyr yn cydberchnogion ar yr anheddiad ac yn cymryd rhan fel arfer yn y broses dylunio. Wedi i gynllun o'r fath gael ei feddiannu, bydd yn cael ei reoli drwy system anhierarchaidd lle mae preswylwyr yn cydreoli gwaith cynnal, cyllid a threfniadaeth y gymuned, a lle mae gofyn iddynt dderbyn cydgyfrifoldeb ac weithiau rhoi nifer penodol o oriau cymunedol. Er bod y model a drafodwyd yn yr ysgrif hon yn harneisio ysbryd cyd-drigo, mae ei strwythur yn dra gwahanol, gan y byddai'n cael ei greu ar hap gan ddatblygwr a'i ddylunio gan bensaer, a byddai'r preswylwyr yn prynu ac yn rhentu tai unigol gyda chydberchnogaeth ar y gofod cymunol. Byddai'r ymgysylltu â chymdogion a'r gymuned yn gwbl ddewisol, ond cymerir y byddai lleoliad preswyl o'r math hwn yn denu pobl sy'n dymuno ymdoddi i ffordd gymunedol o fyw. Wrth i'r tai gael eu meddiannu, byddai angen elfen o gydgyssylltu a negodi rhwng cymdogion ynghylch a fydd y gofod cymunol yn cael ei reoli ar y cyd, efallai drwy ethol arweinydd cymunedol neu drwy greu system archebu lle gall preswylwyr drefnu i gael

y neuadd at ddefnydd preifat. Byddai angen penderfynu hefyd a fyddant yn cynnal y mannau cymunol eu hunain, efallai drwy gyfrannu i gronfa i brynu cyfarpar a phenodi gofalwr o blith y preswylwyr, neu dalu ffi am waith cynnal a chymryd ymlaen rywun o'r tu allan. Mae'n bosibl y gellid cael gwrthdaro o ganlyniad i gydberchnogaeth ar fannau cymunol ac yn sgil byw mor agos at bobl eraill, ond mae anghytuno a chyfaddawdu'n rhan naturiol o'r broses o feithrin a chynnal cymuned sefydlog, iach. Os ydym am sicrhau newid diwylliannol o'r gymdeithas unigolyddol rydym yn byw ynddi nawr, yna bydd yn hanfodol aildrysgu i gyd-drigo a chyfrannu. Fel y dangoswyd, uwchraddio gofod a rennir o fewn datblygiadau tai a newid ein ffordd o gynllunio rhai newydd yw'r ffyrdd i breswylwyr gael y cyfle gorau i fuddsoddi yn eu cymdogaeth a ffurfio cymunedau hirsefydlog. Mae'n anochel yn yr unfed ganrif ar hugain y bydd rhai pobl yn parhau i symud o le i le ond, ar ôl sefydlu'r cymunedau hyn, gellir cymryd y bydd pobl yn gallu ffitio i mewn iddynt wrth iddynt fynd a dod, neu hyd yn oed dychwelyd iddynt. Wrth gyfeirio at 'le am oes', yn hytrach na meddwl am unigolyn neu deulu'n aros mewn un tŷ am oes, efallai y dylem ddychmygu cymuned sy'n cael ei chynnal am genedlaethau ac am oes.

Am yr awdur:

Mae Bethan Scorey yn hanesydd adeiladau o Gaerdydd sydd ar ddechrau ei gyrfa ac sydd newydd ennill gradd MSt mewn Hanes Adeiladau ym Mhrifysgol Caergrawnt. Cyn hir, bydd yn ymuno â Sefydliad Ymchwil Stadau Cymru fel myfyrwr PhD, lle bydd yn canolbwyntio yn ei phrosiect ymchwil ar *hanes pensaernïol a thirwedd Castell a Stad Sain Ffagan* sy'n gartref i Amgueddfa Sain Ffagan lle mae Bethan yn gweithio fel cynorthwydd amgueddfa. Er bod Bethan yn canolbwyntio ar hanes pensaernïol ar hyn o bryd, dilynodd gwrs gradd mewn pensaernïaeth a dylunio ac mae'n ymddiddori'n fawr o hyd mewn dylunio a chynllunio cyfoes, yn enwedig yng Nghymru, ac mewn creu delweddau a diagramau i ddangos syniadau.

Darlten Pellach:

Aben, Rob a Saskia De Wit, *The Enclosed Garden: History and development of the Hortus Conclusus and its reintroduction into the present-day urban landscape* (Rotterdam: 010 Publishers, 1999)

Duany, Andres, Elizabeth Plater-Zyberk, a Jeff Speck, *Suburban Nation: The rise of sprawl and the decline of the American Dream* (New York: North Point Press, 2000)

Kunstler, James Howard, *The Geography of Nowhere: the rise and decline of America's mad-made landscape* (New York; London: Simon & Schuster, 1993)

Oles, Thomas, *Walls: Enclosure and ethics in the modern landscape* (Chicago; London: The University of Chicago Press, 2015)

Rossi, Aldo; cyfieithwyd gan P. Eisenman, *The Architecture of the City* (Cambridge, Mass.: MIT Press, 1982)

Sitte, Camillo; cyfieithwyd gan Charles T. Stewart, *The Art of Building Cities: City building according to its artistic fundamentals* (New York, N.Y.: Reinhold Publishing Corporation, 1945)

Nodiadau:

- 1 Andres Duany, Elizabeth Plater-Zyberk, a Jeff Speck, *Suburban Nation* (New York: North Point Press, 2000), t.63
- 2 Rob Aben a Saskia De Wit, *The Enclosed Garden* (Rotterdam: 010 Publishers, 1999), t.244

Dyfodol y maestrefi

Gan Diana Sanchez a Tom Wigg

Cyflwyniad

Mae'r dull o ddylunio trefi a dinasoedd wedi'i werthuso a'i archwilio o wahanol bersbectifau dros y degawdau diwethaf, gan arwain at well dealltwriaeth o werth dylunio pobl-ganolog ac at integreiddio technoleg yn y prosesau dylunio ac wrth redeg datblygiadau trefol. Rydym wedi gweld ardaloedd trefol yn ffynnu yn yr 20 mlynedd diwethaf, a hynny wedi arwain at fwy o alw am fwy mewn dinasoedd.

Yn y cyfamser, mae'r maestrefi wedi osgoi sylw ac, o ganlyniad, ychydig o newid a welwyd yn yr agweddau at ddylunio maestrefol. Ond dyma'r ardaloedd lle mae cyfran fawr o boblogaeth y DU yn byw.

Felly, er bod canolau dinasoedd wedi'u hadfywio mewn llawer man, mae'r maestrefi wedi'u gadael ar ôl yn aml. Gan fod prisiau tai yn codi'n gyflymach yng nghanol dinasoedd, bydd y cartrefi mwyaf fforddiadwy yn y maestrefi gan amlaf.

Yn yr ysgrif hon, rydym yn bwrw golwg ar y ffordd y gallai maestrefi newid a datblygu dros yr 20 mlynedd nesaf, gan ystyried lluo o ffactorau cymdeithasol, economaidd, gwleidyddol, ac amgylcheddol. Rydym am ailfeddwl ynghylch y ffyrdd y dylai maestrefi gael eu hamgyffred, eu dylunio a'u profi yn y DU.

Byddwn yn edrych ar y ffordd y mae newidiadau demograffig a chymdeithasol yn ffurfio galw o fath newydd, lle mae cerddadwyedd, fforddiadwyedd, hyblygrwydd ac, yn fwy na dim, cynaliadwyedd yn sail i benderfyniadau pobl ynghylch lle y byddant yn byw. Ein nod yn y pen draw yw deall pa fath o faestref a fyddai'n ddiogel at y dyfodol a pha fath o nodweddion allweddol a fyddai'n sicrhau'r newid.

Daeth yn bryd cael dadeni maestrefol

Mae maestrefi'r DU yn bwysig i nifer mawr ohonom, am ein bod yn byw ynddynt, neu'n ymweld â ffrindiau a theuluoedd sy'n byw ynddynt. Lleiafrif bach sydd heb brofiad o'r cyd-destun maestrefol.

Ond sut byddwn yn dynodi maestref? Nid oes diffiniad cyffredin ond, gan amlaf, y disgrifiad ohonynt yw ardaloedd preswyl dwysedd isel sydd i'w cael, ymysg lleoedd eraill, yn y gefnwlad sefydledig a mwyfwy poblog o gwmpas canol dinasoedd neu mewn is-drefi pwrpasol newydd eu hadeiladu o gwmpas dinasoedd lle ceir cyflogwyr mawr.

Mae poblogaeth y maestrefi oddeutu 55% o boblogaeth Cymru a Lloegr¹. O ran strwythur oedran, y gyfran o boblogaeth y maestrefi sydd o dan 24 blwydd oed yw 26 y cant, ac mae 23 y cant dros 65 mlwydd oed². Mae'r hanner arall o fewn oedran gweithio (25 i 65 mlwydd oed). Diddorol yw nodi bod ansawdd bywyd yn y maestrefi yn uwch ar y cyfan nag yng ngweddill y wlad. Yn wir, yn ôl y Mynegai Amddifadedd Lluosog,³ mae bron 80% o ardaloedd maestrefol ymysg yr ardaloedd lleiaf difreintiedig yn y wlad ac mae bron 30% ymysg y 10% sydd leiaf difreintiedig.

Er bod llai o amddifadedd yn y maestrefi, at ei gilydd, gallant ddioddef oherwydd diffyg cymeriad yn sgil unfurfrwydd, economi cymudwyr sy'n ansefydlog am fod pobl yn teithio i gytrefi mwy i weithio, a diffyg mewnfuddsoddi sy'n arwain at ddadfeiliad.

Fodd bynnag, wrth i'r pandemig COVID-19 droi'r byd proffesiynol ben i waered, gan adael canol dinasoedd yn wag a gwneud i bobl ddod yn ymwybodol o'r ffordd y mae eu cartrefi a'r mannau cyfagos yn meithrin eu hiechyd, eu lles, a'u gallu i weithio'n effeithiol, mae'n bosibl bod dadeni'r maestrefi'n cyflymu.

Bydd pobl yn galw am fwy ac yn teithio'n llai, fel y bydd ansawdd eu hamgylchedd lleol yn bwysicach nag erioed wrth benderfynu ble y byddant yn preswyl.

Beth sy'n newid?

Mae ein hymrwymiad cenedlaethol i ddod yn economi carbon sero net a newidiadau demograffig a chymdeithasol – yn cynnwys mwy o ymwybyddiaeth o iechyd, lles a chynaliadwyedd – ochr yn ochr â dulliau adeiladu newydd, yn dylanwadu ar syniadau pobl am y math o dai a chymdogaethau maestrefol y maent am eu gweld yn y dyfodol a sut byddant yn cael eu darparu.

Cymysgedd cymdeithasol y maestrefi

Er mai poblogaeth gefnog, wyn a Phrydeinig sydd wedi preswyllo mewn ardaloedd maestrefol yn draddodiadol, yn y cyfnod diweddar gwelwyd pobl o wahanol gefndiroedd ethnig ac economaidd-gymdeithasol yn symud o ganol dinasoedd i'r maestrefi.

In benodol, rydym yn gweld hyn o amgylch dinasoedd mawr (Leeds, Birmingham, Nottingham a Chaerlŷr) lle mae'r holl grwpiau lleiafrifol yn gadael canol y ddinas. O ganlyniad i hyn, mae'n debygol y bydd proffil traddodiadol preswlydd y maestrefi yn newid ac y bydd poblogaeth fwy amrywiol yn yr ardaloedd hyn. Mae hyn yn cynnig y posibilrwydd y bydd marchnadoedd a modelau tai gwahanol yn datblygu mewn lleoliadau maestrefol.

Hyd yn hyn, mae maestrefi wedi'u dylunio i ymateb i fodel traddodiadol sy'n cael ei ffurfio'n bennaf gan un proffil demograffig. Ond bydd y genhedlaeth newydd o faestrefwyr yn gweld angen ac eisiau am dirwedd faestrefol wahanol.

Yn wir, mae dewisiadau pobl o ran tai yn newid, gan ffafrio llety llai, mannau a rennir, a chydbwysedd rhwng ffyrdd iach o fyw a ffyrdd bywiog o fyw. Mae hyn yn cael ei sbarduno'n bennaf gan fforddiadwyedd cartrefi llai, yn ogystal â'r ymwybyddiaeth gynyddol o bwysigrwydd rhyngweithio cymdeithasol i les meddyliol⁴.

Os bydd dyluniad maestrefi newydd yn gallu ymateb i'r newid mewn demograffeg a darparu ar gyfer blaenoriaethau'r poblogaethau newydd hyn, yna bydd bywyd yn y maestrefi'n cael ei ailddiffinio.

Mwy o ymwybyddiaeth o iechyd a lles

Mae ardaloedd maestrefol yn cael eu gweld yn aml yn rhai sy'n cynnig amgylchedd iachach, yn bennaf am fod llai o sŵn a llygredd aer ynddynt a mwy o fynediad i fannau gwyrdd nag yng nghanol dinasoedd.

Yn y blynyddoedd diwethaf, edrychwyd ar hyn ar lefel y defnyddiwr ac ar lefel polisi, mewn ymateb i'r ymwybyddiaeth gynyddol o effaith yr amgylchedd adeiledig ar les. Rhoddwyd sylw yn benodol i effaith ffurf a dyluniad cymdogaethau ar gydlyniant cymdeithasol ac iechyd meddyliol a chorfforol y preswylwyr. Diddorol yw nodi bod y dystiolaeth yn awgrymu bod iechyd a lles pobl yn well yng nghanol dinasoedd nag yn y maestrefi, gan fod cyfraddau gordewdra yn uwch a chyfraddau ymarfer corff yn is mewn maestrefi. Mewn astudiaeth⁵ yn dadansoddi 22 o drefi a dinasoedd ym Mhrydain, dangoswyd bod cyfraddau gordewdra uwch a chyfraddau ymarfer corff is mewn ardaloedd maestrefol (â dwysedd llai na18 annedd yr hectar) lle'r oedd cymdogaethau wedi'u dylunio'n wael ac yn agos i draffyrdd a lle'r oedd cerbydau'n brif fodd teithio, o'u cymharu â phobl sy'n byw yng nghanol dinasoedd. Nodwyd mai'r prif benderfynyddion oedd cerdded a'r posibilrwydd o ryngweithio cymdeithasol.

Felly, wrth ddatblygu maestrefi'n strategol, rhaid ystyried ffyrdd i gynyddu lefelau iechyd a lles.

Hwyluso symudedd corfforol yw'r allwedd i symudedd cymdeithasol: mae cymdeithas iach yn un egniol a rhaid dylunio maestrefi i hwyluso hyn.

Model maestrefol gwahanol

Oherwydd y newid hwn mewn demograffeg, ac anghenion a dyheadau newydd, bydd angen i berchnogion tir, datblygwyr a chynllunwyr ailedrych ar eu dulliau dylunio maestrefol.

Yn hanesyddol, nid oedd polisi penodol ar gyfer maestrefi i ddelio â'u cyd-destun a'u hanghenion neilltuoel. Gadawyd i'r maestrefi eu diffinio eu hunain ac, o ganlyniad i hyn, mae model diwedd yr ugeinfed ganrif o wasgaru a blerdwf wedi parhau; dwysedd anheddu isel, dibyniaeth fawr ar geir, a'r lleiaf o amwynderau yw nodweddion arferol maestrefi'r DU.

Yn achos perchnogion tir a chynllunwyr sy'n ystyried darparu tai mewn maestrefi, mae nifer mawr o ffactorau i'w hystyried er mwyn sicrhau canlyniad sy'n foddhaol i breswylwyr y maestrefi ac sydd felly'n economaidd hyfyw.

Bydd y graen, y cymeriad, y dwysedd a'r strwythur i'w mabwysiadu mewn maestrefi yn dibynnu ar eu cyd-destun penodol – y lleoliad, graddau'r integreiddio â'r rhanbarth o gwmpas, proffil a maint y boblogaeth. Modelau fel 'celloedd', sy'n hyrwyddo unedau cymdogaeth hunangynhaliol; 'clystyrau', sef grŵp o gymdogaethau sy'n cydasio; neu 'drefi llinellol' sy'n cysylltu cymdogaethau ar hyd stryd fawr yw rhai o'r modelau sydd wedi'u hastudio a'u cydnabod yn enghreifftiau o arfer da.

System dai sy'n newid

Gan fod prisiau tai bellach yn saith gwaith yn fwy nag incwm cyfartalog unigolion⁶, mae perchentyaeth yn llithro o afael llawer o bobl. Am y tro cyntaf mewn canrif, mae maint cymharol y sector perchen-feddiannu wedi lleihau a maint y sector rhent preifat wedi cynyddu⁷. Mae hyn yn achosi newid sylweddol yn y system dai.

Mae'r dirywiad mewn tai rhent cymdeithasol a pherchentyaeth, a'r cynnydd mewn tai rhent preifat yn debygol o ddwysáu dros y degawdau nesaf. Rhagwelwyd y bydd cynnydd o tua 90% yng nghyfran y rhentwyr preifat yn Lloegr erbyn 2040, fel y bydd un person ym mhob pump yn rhentu, o'i gymharu ag un ym mhob chwech ar hyn o bryd.

Er bod canol dinasoedd wedi'u trawsnewid gan arwain at gynydd sydyn ym mhrisiau eiddo, mae'r maestrefi wedi'u gadael ar ôl yn aml ac wedi gweld 'dadfoneddigeiddio'.

Mae'r tueddiadau'n awgrymu y byddai maestrefi'r dyfodol ar eu hennill o fod â chyfradd anheddu dwysach a mwy o amrywiaeth o fathau tai, yn cynnwys fflatiau a thai tref talach, yn ogystal â thai sengl a thai pâr confensiynol.

Dulliau adeiladu newydd

Yn hanesyddol, mae'r cyhoedd yn y DU wedi edrych ar dai parod fel rhai gwael eu hansawdd sy'n cael eu codi mewn niferoedd mawr. O ganlyniad i hyn, ni chafwyd chwyldro o ran gweithgynhyrchu cartrefi oddi ar y safle o'r math a welwyd mewn gwledydd eraill yn Ewrop, Asia a Gogledd America. Er hynny, mae nifer o'r cwmnïau adeiladu a chwmnïau datblygu tai adnabyddus yn y DU yn buddsoddi'n helaeth yn eu gallu i weithgynhyrchu tai oddi ar safleoedd, a hynny am nifer o resymau.

Llai na 150,000 o'r 250,000 o gartrefi sydd eu hangen sy'n cael eu hadeiladu bob blwyddyn yn y DU⁸, ond mae gweithgynhyrchu oddi ar y safle yn cynnig y posibilrwydd o ffrwyno'r duedd hon drwy gwblhau prosiectau tai ddwywaith yn gyflymach na chynlluniau adeiladu confensiynol tebyg.

Os gellir sicrhau'r un math o adeiladu cyflymach, gwell perfformiad thermol, cost is, llai o wastraff a charbon corfforedig, a phroses adeiladu cyflymach a llai ymyriadol ar raddfeydd mwy, mae'n ymddangos yn sicr y bydd y diwydiant adeiladu tai yn mabwysiadu dulliau adeiladu modiwlaid ac adeiladu oddi ar y safle. Er hynny, mae angen buddsoddi a datblygu sylweddol yn y broses o hyd.

Mae'r llwyddiant a gafwyd yn ddiweddar wrth ddatblygu cynlluniau llai wedi sbarduno'r farchnad ac wedi arwain at fuddsoddi symiau mawr o gyfalaf mewn gwaith ymchwil a datblygu ar ddulliau adeiladu modern. Fodd bynnag, er bod y cysyniad wedi'i brofi'n llwyddiannus, bydd angen i adeiladwyr tai weld elw o'u buddsoddiad rhag iddynt droi'n ôl at ddulliau adeiladu confensiynol.

Gan fod prisiau tai bellach yn saith gwaith yn fwy nag incwm cyfartalog unigolion, mae perchentyaeth yn llithro o afael llawer o bobl.

Mae 80% o'r cartrefi ac adeiladau a fydd yn bodoli yn 2050 wedi cael eu hadeiladu eisoes; mae hyn yn golygu bod gofyn i ddatblygiadau newydd arwain y ffordd at amgylchedd adeiledig di-garbon.

Carbon sero net

Roedd y Panel Rhynglywodraethol ar y Newid yn yr Hinsawdd (IPCC) wedi dod i'r casgliad yn 2019 fod angen lleihau allyriadau byd-eang o nwyon tŷ gwyrdr i sero net erbyn 2050 os ydym i gyfyngu'r cynhesu byd-eang er mwyn lliniaru ei effeithiau mwyaf trychinebus⁹. Mewn ymateb i hyn, cyhoeddodd Pwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd ei adroddiad 'Net Zero' ei hun¹⁰, a chadarnhawyd y targed gan y llywodraeth ar 27 Mehefin 2019, fel bod y DU wedi'i rhwymo'n gyfreithiol i gyrraedd allyriadau sero net erbyn 2050¹¹.

Yn sgil hynny, mae Cymru a 298 o Gyngorau Dosbarth, Sir, Unedol a Metropolitan yn y DU wedi datgan Argyfwng Hinsawdd¹² ac mae'n anrnod y bydd polisi lleol a disgwyliadau o ran datblygiadau newydd yn dechrau dal i fyny â'r rhethreg.

Mae 80% o'r cartrefi ac adeiladau a fydd yn bodoli yn 2050 wedi cael eu hadeiladu eisoes¹³; mae hyn yn golygu bod gofyn i ddatblygiadau newydd arwain y ffordd at amgylchedd adeiledig di-garbon. Er na fydd pob datblygiad maestrefol newydd yn un carbon sero net o'r dechrau, rhaid sicrhau y bydd yr ymateb o ran dylunio a strategaeth yn eu galluogi i redeg yn sero net yn y dyfodol.

Mae maes ynni yn un eang a chymhleth a bydd cydweithio effeithiol ar draws y sector yn hanfodol i sicrhau cynnydd at sefyllfa sero net yn y system gyfan. Mae National Grid wedi nodi yn ei adroddiad Future Energy Scenarios (FES) yn 2020 fod angen gweithredu ar frys i ddatgarboneiddio systemau gwresogi, gan fod angen lleihau'r galw am wresogi mewn cartrefi hyd at 75% ar gyfartaledd erbyn 2050¹⁴.

Defnyddir deunyddiau adeiladu gwell ac egwyddorion dylunio goddefol i leihau'r galw mewn cartrefi newydd yn y lle cyntaf. Drwy ddefnyddio ffynonellau gwres di-garbon neu garbon isel, gellir cael gostyngiad pellach yn yr allyriadau sy'n gysylltiedig â gwresogi ac oeri. Wrth ddefnyddio trydan i gwrdd â'r galwadau hyn, bydd y grid trydan yn cael ei ddatgarboneiddio drwy ddefnyddio llai na dwy ran o dair o'r carbon a geir mewn nwy naturiol ar hyn

o bryd, gyda rhagolygon am ei leihau i lefel sero net erbyn canol y 2030au. Rhaid i ddatblygiadau aros yn hyblyg fel y gallant ddefnyddio technolegau eraill sy'n datblygu, fel technoleg hydrogen, gan ddewis y dull mwyaf priodol ar adeg eu hadeiladu, a sicrhau bod strategaethau'n flaengar ac yn addas i'r dyfodol.

Nodir hefyd yn FES 2020 ei bod yn bwysig cysylltu defnyddwyr â marchnadoedd ynni er mwyn sicrhau bod cartrefi, adeiladau a cherbydau'n gallu ymateb i'r newidiadau a geir mewn grid sy'n cael ei gyflenwi fwyfwy o ffynonellau ansicr fel ynni gwynt ac ynni'r haul. Er y bydd y gostyngiad yn y galw cyffredinol yn helpu yn hyn o beth, bydd yr un mor bwysig symud y galw o'r cyfnodau pan geir y galw mwyaf. Y rhain hefyd yw'r cyfnodau pan fydd y defnydd o garbon a'r costau ar eu huchaf¹⁵. Felly, bydd unrhyw ostyngiad yn y galw yn y cyfnodau hyn yn helpu i leihau allyriadau CO₂ ac i wneud y grid yn fwy dibynadwy. Bydd hefyd yn lleihau biliau ynni defnyddwyr yn y dyfodol os bydd prisiau trydan yn amrywio yn ôl yr adeg y mae'n cael ei ddefnyddio.

O ganlyniad i hyn, ynghyd â chynhyrchu ynni solar ffotofoltäig ar ben toeau, system wresogi trydan effeithlon, a cherbydau trydan â batri wedi'u parcio y tu allan, a systemau ac offer clyfar, bydd y perchennog tŷ cyffredin yn ymreolus o ran ynni i ryw raddau. Bydd hyn yn ei alluogi i gynhyrchu, storio, prynu a gwerthu ynni ar y cyd â'i gymdogion er budd y grid, yr hinsawdd, a phobl; y democrateiddio ar ynni rydym wedi disgwyl yn rhy hir amdano o bosibl.

Rydym yn rhag-weld y bydd maestrefi'n cynnig dewis hyfyw a bywiog yn lle byw yng nghanol dinasoedd.

Maestrefi'r dyfodol: cerddadwy, fforddiadwy, hyblyg a chynaliadwy.

Rydym yn rhag-weld y bydd maestrefi'n cynnig dewis hyfyw a bywiog yn lle byw yng nghanol dinasoedd. Ni fyddant yn drefi noswyllo bellach ond yn cael eu dylunio i fod yn is-aneddiadau ymreolus lle mae mannau i fyw, gweithio, dysgu a chwarae o fewn y gymuned leol.

Er mwyn ymateb i heriau a newidiadau demograffig, cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol, mae angen cynyddu dwysedd anheddu'r maestrefi ar draul ehangu trefol wrth geisio darparu tai newydd i gwrdd ag anghenion y DU.

Felly dylai trefi newydd gael eu datblygu ar sail patrwm maestrefol newydd a neilltuo lle mae symudedd, agosrwydd a chysylltedd yn diffinio'r profiad maestrefol. Mewn geiriau eraill, maestrefi cerddadwy wedi'u datblygu fel mannau defnydd cymysg sy'n darparu rhwydwaith da o amwynderau a chyfleusterau ar gyfer cymdogaethau hunangynhaliol.

Prif nodweddion maestrefi'r dyfodol fydd:

- 1. Dewis gwir fforddiadwy yn lle byw mewn dinasoedd**
Amrywiaeth o deipolegau a deiliadaethau – yn cynnwys tai trefol ar gyfer teuluoedd a thai cowrt yn ogystal â blociau fflatiau bach – sy'n ymateb i broffil economaidd-gymdeithasol a demograffig y gymuned leol. Unedau eiddo gwir fforddiadwy i'w rhentu a'u gwerthu fel na fydd pobl yn cael eu dal mewn cylch rhentu drud sy'n eu hatal rhag cynilo er mwyn gallu fforddio prynu cartref iddyn nhw eu hunain yn y pen draw.
- 2. Agosrwydd a thawelwch**
Cadw'r maestrefi yn drwm i'w gwreiddiau a gwahaniaethu rhwng cymdogaethau maestrefol a threfol yw'r allwedd i greu'r hunaniaeth a fydd yn cryfhau'r awydd am fyw mewn maestrefi. Mae hyn yn galw am ddull o greu lleoedd sy'n rhoi lle canolog i agosrwydd a thawelwch wrth ddylunio maestrefi. Bydd canolfan ddefnydd cymysg

leol yn dod yn ganolbwynt i'r gymdogaeth – yn galon y gymuned – gan ddarparu amrywiaeth o gyfleusterau a gwasanaethau. Yn y cyfnod ar ôl COVID, y disgwyl yw y ceir mannau gweithio hyblyg a chydweithredol ac y bydd yr economi cymudwyr sy'n nodweddiadol o faestrefi'n cael ei disodli gan sylfaen gwsmeriaid fwy sefydlog a fydd yn cynnal busnesau lleol. Drwy ddull o weithredu sy'n integreiddio'r strategaethau ar gyfer cynllunio trefol, tirweddu ac ecoleg er mwyn rhoi blaenoriaeth i fynediad i fannau gwyrdd heddychlon (a'r llwybrau a chyfleusterau allweddol sydd rhyngddynt), gellir cynnal poblogaeth iach a bodlon a rhoi pobl mewn cysylltiad â natur bob dydd. Gyda'i gilydd, bydd yr elfennau hyn yn creu cymdogaethau cydlynus sy'n meithrin cymdeithasgarwch, ffyniant a lles gan hyrwyddo mewnffuddsoddi a balchder dinesig.

3. Mannau gwyrdd cyhoeddus

Wrth gefnu ar y disgwyliad traddodiadol am gartrefi anferth a gerddi preifat, bydd tai maestrefol yn llai a'u dwysedd anheddu'n uwch ar y cyfan, a bydd gerddi preifat yn llai neu'n gwbl absennol. Bydd hyn yn caniatáu darparu mwy o fannau awyr agored o ansawdd da fel amwynder cyhoeddus yn hytrach a chyfleuster preifat – gan hwyluso rhyngweithio cymdeithasol ac efelychu bywyd y ddinas. Mannau gwyrdd sy'n wir amlswyddogaethol sy'n cynnig y gwerth mwyaf i'r gymuned leol ac i ecosystemau, gan hwyluso bioamrywiaeth ac adfer y cysylltiad rhwng pobl a natur.

4. Cysylltedd amlfoddol a theithio llesol

Ni fydd perchnogaeth ar geir yn ddisgwyliad ar gyfer byw mewn maestrefi â dwysedd anheddu uwch. Mae'r dwyseddau uwch (ond cymesur) yn cynnig y màs critigol sydd ei angen i ddarparu cysylltiadau trafndiaeth gyhoeddus eang yn ogystal ag amrywiaeth fawr o amwynderau lleol a chyfleoedd swyddi, gan fewnoli siwrneiau drwy leihau'r angen am deithio y tu allan i'r gymuned.


Hwylusir teithio llesol drwy rwydwaith o lwybrau cerdded a beicio pwrpasol sy'n ddeniadol, yn hawdd eu dilyn, yn ddiogel ac yn cael eu cynnal yn dda. Er mwyn sicrhau'r trawsnewid hwn, rhaid cefnu ar ddulliau dylunio trefol sy'n canolbwyntio ar geir fel na fydd strydluniau'n cael eu diffinio bellach yn ôl yr angen i gynnwys cerbydau ond, yn hytrach, yn ôl yr angen i gysylltu cymdogaethau mewn ffordd sy'n golygu bod dibyniaeth ar geir yn mynd yn angof fel nodwedd ym mywyd y maestrefi. Bydd hyn yn llesol i iechyd preswylwyr – drwy fwy o ymarfer corff a gwell ansawdd aer – ac i'w lles, drwy gymhell pobl i ddod allan o'u ceir ac ymwneud â'r gymuned o'u cwrpas, a lleihau allyriadau o nwyon tŷ gwydr sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth.

5. Hunaniaeth amrywiol ac ymateb hyblyg

Bydd proffil demograffig y maestrefi'n debyg i broffil yr ardaloedd trefol, gydag aelwydydd o bob oed ac amrywiaeth fawr o gefndiroedd ethnig a phroffiliau economaidd-gymdeithasol. Law yn llaw â hyn, ceir mwy o amrywiaeth ddiwylliannol ac anghenion cymdeithasol mwy cymhleth. Drwy adeiladu cartrefi a gofodau fel eu bod yn addas i lawer math o bobl ac yn ymateb i anghenion cyfnewidiol poblogaeth sy'n heneiddio, bydd y maestrefi'n lleoedd cydnerth. Wrth gynnwys hyblygrwydd a cheisio sicrhau'r gwerth cymdeithasol mwyaf yr un pryd drwy ymgynghori'n briodol i ddeall anghenion a blaenoriaethau penodol y gymuned leol, bydd y maestrefi hyn yn ffynnu am ddegawdau ar ôl meddiannu'r cartref cyntaf.

6. Addas i'r dyfodol

Er mwyn sicrhau cynaliadwyedd, bydd angen dylunio cartrefi, adeiladau a'r mannau sydd rhyngddynt i leihau eu cyfraniad i'r newid yn yr hinsawdd a gwrthsefyll ei ganlyniadau. Bydd cartrefi cyfforddus sy'n rhad i'w rhedeg, gyda systemau gwresogi carbon isel effeithlon, yn helpu pobl a'r blaned. Yn ogystal â hyn, bydd yn rhaid sicrhau bod y datblygiad yn barod at yr hafau sychach a chynhesach a'r gaeafau gwlypach a geir yn hinsawdd y dyfodol, gan ystyried effaith amgylcheddol y deunyddiau adeiladu, er mwyn gofalu ei fod yn gynaliadwy drwy gydol ei gylch bywyd.



Figur 1: Llun yn dangos nodweddion maestrefi â dwysedd anheddu uwch.

Gwireddu'r weledigaeth

Wrth benderfynu ble fyddant yn byw, bydd pobl yn aml yn gwneud hynny ar sail rhestr o flaenoriaethau personol – gardd fawr, agosrwydd i ysgol dda, ffyrdd tawel. Ond nid oes sicrwydd y bydd byw mewn lle sy'n cyflawni'r blaenoriaethau hyn yn arwain at ansawdd bywyd da. Wrth ddylunio datblygiad newydd, dylid canolbwyntio ar ganlyniadau, ac wrth i'r maestrefi eu hailddefeio eu hunain, mae ganddynt hawl i'w diffinio eu hunain yn ôl ffyniant a lles y bobl sy'n preswyllo ynddynt, nid yn ôl maint y gerddi.

Mae'n wir bod nifer o'r pethau y chwilir amdanynt fel hyn wrth ddewis cartref newydd yn elfennau cyffredin mewn bywyd bodlon. Felly, at ei gilydd, mae elfennau'r bywyd gwell yn debyg mewn ardaloedd trefol a maestrefol; yr hyn sy'n wahanol yw'r rysâit. Yn wir, mae angen mynd ati ar fyrder i ddiffinio ac arwain yr agenda – y rysâit – a fydd yn sicrhau dadeni'r maestrefi.

Dylai llywodraeth roi blaenoriaeth i efelychu pwrpas, arbenigedd, dylanwad a phroffil y Tasglu Trefol enwog a arweiniwyd gan Richard Rogers, er mwyn sicrhau bod y mwyafrif yn y wlad sy'n byw mewn maestrefi yn rhannu o'r ffyniant a greir drwy ddulliau newydd o gynllunio trefol mewn dinasoedd.

Mae'r pandemig presennol wedi dangos pa mor gyflym y gall disgwyliadau newid, ac nid yw'r adroddiad hwn yn ceisio diffinio ateb sydyn i sicrhau bod maestrefi'n ffynnu fel a wnaeth canol dinasoedd dros y degawdau diwethaf.

Er nad yw'r cyfrifoldeb am hyn yn perthyn i un parti penodol, mae cyrff mewn bod heddiw sydd â'r wybodaeth a'r arbenigedd sydd eu hangen i chwarae rhan fwy egniol mewn ffurfio dulliau o ddylunio a datblygu maestrefol ar gyfer y dyfodol. O gael cymorth gan lywodraeth genedlaethol a lleol, byddai sefydliadau fel y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yn gallu chwarae rhan allweddol, drwy gydweithio â sefydliadau academiaidd, mewn ffurfio gweledigaeth gydlynol ar gyfer maestrefi'r dyfodol.

Mae rhan i'w chwarae gan y sector preifat hefyd, drwy gyfrannu gwybodaeth am ddylunio, darparu a hyfywedd o safbwynt masnachol. Mae prosiectau fel *Supurbia*¹⁷, o dan arweiniad HTA, wedi bod yn hanfodol o ran hyrwyddo dwyseddau anheddu uwch mewn maestrefi fel ffordd i ddarparu tai o ansawdd gwell yn gyflymach ac ar raddfa fwy ym maestrefi Llundain.

Yn wyneb maint yr angen i godi tai er mwyn delio â'r argyfwng tai, mae angen dulliau darparu newydd i sicrhau nifer ac ansawdd y tai mewn cymunedau newydd. Mae model yr uwch ddatblygwr wedi'i fabwysiadu fwyfwr yn y blynyddoedd diwethaf ac mae'n allweddol ar gyfer darparu tai ar raddfa strategol mewn maestrefi, gan ei fod yn sicrhau bod dyheadau'r fframwaith ar gyfer y datblygiad cyfan yn cael eu gwireddu wrth ddechrau gweithio ar gamau, datblygu, parseli a chartrefi penodol.

Yn y pen draw, bydd yn hollbwysig bod y sectorau cyhoeddus, academiaidd a phreifat yn cytuno ar weledigaeth gyffredin ar gyfer maestrefi a gellir cyflawni hyn drwy fentrau fel Siarter Creu Lleoedd Cymru¹⁶. Mae'r Siarter yn fecanwaith sy'n galluogi sefydliadau i ymrwymo i "...gefnogi datblygiad lleoedd o ansawdd da ledled Cymru er budd cymunedau."

Mae'r pandemig presennol wedi dangos pa mor gyflym y gall disgwyliadau newid, ac nid yw'r adroddiad hwn yn ceisio diffinio ateb sydyn i sicrhau bod maestrefi'n ffynnu fel a wnaeth canol dinasoedd dros y degawdau diwethaf. Yn hytrach, mae'n ceisio tynnu sylw at bwysigrwydd y maestrefi yn ein dulliau cynllunio a dylunio trefol ledled y wlad a'r tueddiadau allweddol sy'n dylanwadu ar ffurf cymunedau'r dyfodol.

Rhaid cydnabod hefyd y bydd unrhyw newid yn y dull o ddatblygu maestrefol sydd ohoni – pa mor ddiffygiol

bynnag y cafwyd bod ei ganlyniadau – yn debygol o gael ei wrthwynebu. Rhaid mynd yn bellach na gofyn "sut y gallwn ddylunio datblygiadau maestrefol gwell?" ac ystyried hefyd sut y gallwn greu model maestrefol sy'n parchu hunaniaeth unigryw'r maestrefi ac yn cael ei gefnogi'n llwyr gan gynllunwyr a chymunedau.

Am yr awduron:

Mae Hoare Lea yn ymgynghoriaeth wobrweddig sydd â thim creadigol o beirianwyr, dylunwyr, arbenigwyr technegol a strategwyr. Rydym yn arbenigo mewn sicrhau canlyniadau llwyddiannus i gleientiaid sy'n ceisio sicrhau cynaliadwyedd mewn portffolio amrywiol o brosiectau yn yr amgylchedd adeiledig. Rydym yn beirianwyr profiadau dynol.

Diana Sanchez, Uwch Ymgynghorydd Cyswllt – Arweinydd y tîm amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu

Fi yw Arweinydd y tîm amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu yn y grŵp cynaliadwyedd. Rwyf yn strategydd brwdfrydig sydd â mwy na 14 blynedd o brofiad o hyrwyddo ffyrdd i greu gwerth ar gyfer arloesi a thyfu busnesau.

Drwy ddangos gwerth yn y pum maes cynaliadwyedd, byddaf yn helpu i ffurfio fframweithiau effeithiol sy'n asio amcanion ariannol, cymdeithasol ac amgylcheddol er mwyn creu effaith lesol barhaus yn yr amgylchedd adeiledig. Yn ddiweddar, rwyf wedi gweithio ar nifer o bortffolios tir strategol yn y DU gan lunio dulliau a strategaethau arloesol ar gynaliadwyedd a chyfrifoldeb corfforaethol.

Tom Wigg, Uwch Ymgynghorydd Cynaliadwyedd + Asesydd Cymunedau BREEAM

Mae gennyf gefndir ym maes ffiseg ac rwyf yn ymddiddori'n benodol ym maes ynni yn y DU a'r rhan y mae'r amgylchedd adeiledig yn gallu ei chwarae i sicrhau dyfodol carbon sero net. Mae gennyf bedair blynedd o brofiad o ddarparu gwasanaethau cynhwysfawr ar ynni a chynaliadwyedd ar gyfer datblygiadau o sawl math. Byddaf yn gweithio'n bennaf ar brosiectau ar raddfa strategol, gan ddatblygu strategaethau cynaliadwyedd i greu cymunedau a fydd yn llesol i bobl a'r blaned. Fy uchelgais yw creu lleoedd addas i'r dyfodol a fydd yn galluogi pawb i fyw bywydau sy'n iach, cyfforddus, llewyrchus a hapus.

Nodiadau

- 1 Centre for Cities, "Urban demographics - Where people live and work," 2015.
- 2 Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, *Census Data*, 2011.
- 3 Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, "English indices of deprivation 2015," 2018.
- 4 Centre for Cities (2), "Urban demographics. Why people live where they do," 2015.
- 5 C. W. a. J. G. C. Sarkar, "Association between adiposity outcomes and residential density: a full data, cross sectional analysis of 419 562 UK Biobank adult participants," *The Lancet*, cyf. 1, tt. e277-e288, 2017.
- 6 Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, "Housing affordability in England and Wales: 2016," 2016. [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/housing/bulletins/housingaffordabilityinenglandandwales/1997to2016#affordability-gap-widens-over-time>.
- 7 Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, "UK private rented sector: 2018," 2018. [Ar-lein]. Ar gael yn: [https://www.ons.gov.uk/economy/inflationandpriceindices/articles/ukprivaterentedsector/2018#:~:text=The%20number%20of%20households%20living,of%201.7%20million%20\(63%25\).&text=The%20number%20of%20social%20rented,million%20\(Annual%20Population%20Survey\)](https://www.ons.gov.uk/economy/inflationandpriceindices/articles/ukprivaterentedsector/2018#:~:text=The%20number%20of%20households%20living,of%201.7%20million%20(63%25).&text=The%20number%20of%20social%20rented,million%20(Annual%20Population%20Survey)).
- 8 Laing O'Rourke, "Staying Ahead of the Pack," [Ar-lein]. Ar gael yn: <http://www.laingorourke.com/media/eej-2016/staying-ahead-of-the-pack.aspx>.
- 9 IPCC, *Global Warming of 1.5°C*, 2019.
- 10 Y Pwyllgor ar y Newid yn yr Hinsawdd (CCC), *Net Zero: The UK's contribution to stopping global warming*, 2019.
- 11 Llywodraeth EM, "UK becomes first major economy to pass net zero emissions law," 27 Mehefin 2019. [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/news/uk-becomes-first-major-economy-to-pass-net-zero-emissions-law>.
- 12 Climate Emergency UK, "List of councils who have declared a Climate Emergency," [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://www.climateemergency.uk/blog/list-of-councils/>.
- 13 UKGBC, "Climate Change - UKGBC's vision for a sustainable built environment is one that mitigates and adapts to climate change," [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://www.ukgbc.org/climate-change/>.
- 14 National Grid ESO, "Future Energy Scenarios 2020," 2020.
- 15 National Grid ESO, "Carbon Intensity API," [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://carbonintensity.org.uk/>.
- 16 "RTPI Placemaking principles for Wales," RTPI, 2020. [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://www.rtpi.org.uk/press-releases/2020/september/placemaking-principles-for-wales-welcomed-by-rtpi/>.
- 17 HTA, "Supurbia," HTA, 2011. [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://www.hta.co.uk/project/supurbia>.

Gwynfaen

Gan Rob Wheaton

Bydd y gwaith yn dechrau ar safle Gwynfaen yn Ionawr 2021, ond mae eisoes yn glir bod y datblygiad hwn yn un sy'n dangos dull o greu lleoedd a chreu cymunedau cynaliadwy a fydd yn gosod y safon ar gyfer datblygiadau preswyl yng Nghymru o hyn ymlaen. Drwy ymateb i'r her yn adroddiad y Llywodraeth 'Better Homes, Better Places, Better World', nod Gwynfaen yw creu cymuned newydd yn Abertawe wedi'i seilio ar ddull creu lleoedd sydd wedi'i ysbrydoli gan y cyd-destun a'r posibiliadau mewn dull seiliedig ar dirwedd, gan ymrwymo'n llwyr yr un pryd i ddarparu cartrefi lle defnyddir llai o garbon wrth eu hadeiladu a'u defnyddio. Bydd Gwynfaen yn cynnig cartrefi carbon isel i holl aelodau'r gymuned mewn amgylchedd o ddeiliadaethau cymysg a thrwy wneud hynny ar raddfa fawr bydd yn tarfu ar y farchnad dai er gwell.

Dechreuadau

Mae Cymdeithas Dai Coastal a Chymdeithas Dai Pobl yn gweithredu yn ne Cymru. Mae'r ddwy gymdeithas yn ddatblygwyr tai fforddiadwy mawr a gyda'i gilydd maent yn darparu 20,000 o gartrefi ar rent cymdeithasol. Mae'r ddwy gymdeithas eisoes wedi dangos uchelgais o ran dylunio cynaliadwy da, creu lleoedd, ac adfywio drwy gymunedau â deiliadaethau cymysg.

Yn 2017 penderfynodd y ddwy gymdeithas y byddent yn cydweithio i ddatblygu parcel o dir sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru a Chyngor Abertawe i'r gorllewin o Abertawe. 'Gwynfaen' yw'r enw ar y safle. Sicrhawyd caniatâd cynllunio amlinellol ar ei gyfer yn 2010 a chafodd ei ddyrannu yn y Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer 225 o gartrefi newydd. Roedd cyfran o'r tai hyn wedi'u cwblhau gan ddatblygwyr eraill fel bod tua 150 o dai'n weddill. Mae'r safle'n agos i aber afon Llŵchwr uwchben Bro Gŵyr ac, oherwydd ei leoliad a'r mynediad da at amwynderau a chefn gwlad, roedd yn cynnig cyfle rhagorol i greu lle arbennig wedi'i ysbrydoli gan y lleoliad gwledig hwn.



Ffigur 1:

Ffotograffau o'r safle a mapiau o'r prif wylfannau



Ffigur 2: Drwy integreiddio Systemau Draenio Cynaliadwy a gwybodaeth ddaearyddol, roedd yr uwchgynllun yn canolbwyntio ar wyrddu'r datblygiad a denu pobl i'r dirwedd

Gweledigaeth

Roedd y cleientiaid wedi penderfynu ar weledigaeth ar gyfer Gwynfaen fel lle â chymeriad gwledig amlwg, gan ymateb i nodweddion cynhenid y safle, yn cynnwys topograffi, nodweddion naturiol, cyfeiriadedd a golygfeydd. Roedd y cleientiaid hefyd am dynnu ysbrydoliaeth o'r cyd-destun o amgylch, nid y strydoedd cyfagos o reidrwydd, ond pentrefi o gwmpas aber afon Lluchwr a oedd wedi datblygu'n naturiol dros amser. Roedd yr aneddiadau hyn yn amlygu cymeriad a oedd yn deillio o'r defnydd o ddeunyddiau lleol mewn ymateb i hinsawdd, topograffi, a thraddodiad. Drwy osgoi cyffredinedd nifer mawr o ddatblygiadau tai maestrefol diweddar a oedd yn seiliedig ar gymhellion masnachol, safonau gofod gwael, ac wedi'u dylunio ar gyfer y defnydd o geir, byddai Gwynfaen yn fwy amrywiol o ran ei ddwysedd anheddu, byddai'n cynnwys mwy o fannau gwyrdd, llwybrau cerddadwy i gysylltu â'r cefn gwlad o'i gwmpas a phensaernïaeth gyfoes wedi'i hysbrydoli gan ei gyd-destun gwledig.

Ehangwyd y weledigaeth wreiddiol yn 2018 pan benderfynwyd y byddai'r holl gartrefi newydd ym mhob math o ddeiliadaeth yn Gwynfaen yn cael eu dylunio i fod yn ynni-ffeithlon dros ben drwy gyrraedd sgôr o 96 yn y Weithdrefn Asesu Safonol (SAP) a sgôr A ar gyfer Tystysgrif Perfformiad Ynni (EPC). SAP yw methodoleg cyfrifo genedlaethol y llywodraeth ar gyfer asesu effeithlonrwydd ynni anheddau sydd newydd eu hadeiladu. Roedd Llywodraeth Cymru, drwy ei Rhaglen Tai Arloesol, am weld mwy byth o uchelgais ac arloesi ar gyfer y trydydd cylch cyllido. Roedd Gwynfaen yn cynnig cyfle i ehangu'r profiad a oedd gan gymdeithasau tai

Coastal a Pobl o weithgynhyrchu oddi ar y safle, dulliau 'deunyddiau'n gyntaf' a thechnolegau adnewyddadwy ac i ystyried ffyrdd i greu cymunedau cynaliadwy wedi'u seilio ar ffordd o fyw syn fwy eco-gyfeillgar.

Roedd y weledigaeth wedi'i chrisialu mewn tair thema sy'n rhan hanfodol o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol - Lle, Carbon ac Ynni. Byddai Gwynfaen yn cynnig cartrefi i holl aelodau'r gymuned mewn lle a oedd wedi'i ddylunio i gysylltu cartrefi â'r awyr agored, wedi'i adeiladu â deunyddiau carbon isel a gafwyd yn lleol, a thrwy dechnolegau adnewyddadwy byddai preswylwyr y dyfodol yn cael cyfle i ddilyn ffyrdd o fyw fforddiadwy 'heb hylosgi'.

Creu lleoedd

Gwelodd y tîm dylunio fod y weledigaeth ar gyfer y safle yn cynnig cyfle go iawn i ddarparu rhywbeth blaengar, i ddylanwadu o ddifrif ar y ffordd y mae datblygiadau'n cael eu dylunio, eu darparu, a'u meddiannu.

Roedd y dull dylunio wedi'i seilio ar fapiau o gyfleoedd a chyfyngiadau a gafodd eu llunio yn ystod y cyfnod paratoi a'u cynnwys wedyn yn y broses ailadrodd. Drwy gydweithio â'r cleientiaid – gan gynnal gweithdai i fireinio blaenoriaethau a gwneud brasluniau o atebion dylunio – aeth y tîm ati i ddylunio cymuned wledig newydd a oedd yn gwbl integredig. Agwedd allweddol ar hynny oedd cysylltu'r tri phwynt mynediad posibl a sicrhau athreiddedd a chysylltedd yn hytrach na chanolbwyntio ar 'breifatrwydd' ac 'amgáu' tir, sef yr hyn sy'n ysgogi llawer o gynlluniau newydd.



Ffigur 3: Brasluniau cynnar o'r uwchgynllun a oedd yn datblygu

Yr her oedd dylunio datblygiad modern a oedd yn adlewyrchu patrymau adeiladu hanesyddol a chymeriad y pentrefi a oedd wedi tyfu'n naturiol yn yr ardal, gan osgoi 'pastiche'. Roedd y tîm wedi astudio nifer o ddatblygiadau blaenorol yn yr ardal, gan edrych ar eu dwysedd anheddu, trefn eu ffyrdd a'u hesblygiad. Wedyn roeddent wedi cynnal ymarfer ffuglennol i fodelu twf 'hanesyddol' safle Gwynfaen o gwmpas man cyfarfod y tri phwynt mynediad – dychmygu pentref a oedd wedi tyfu o un adeilad wrth y man cyfarfod hwn a oedd wedi arwain wedyn at godi tai a ffermdai ychwanegol mewn clwstwr dwys o amgylch y man canol hwn a datblygu maes y pentref mewn lleoliad lle'r oedd golygfeydd cyfyng uwchben aber afon Llŵchwr. Oddi yma, mae'r pentref yn dechrau ymledu a thyfu a'r mathau o dai a'u dwysedd anheddu'n amrywio wrth bellhau o'r 'craidd hanesyddol' ond bod sylw parhaus i naws y lle a gwerth y golygfeydd hyn a'r cysylltiadau â chefn gwlad y tu allan i'r safle. Yr ymarfer modelu hwn, y gweithdai ar ei gyfer, a'r cysyniad cychwynnol a gafwyd o ganlyniad yw'r sail i'r cynllun terfynol. Mae'r Ganolfan Gymunedol a'r Maes ar ganol y safle yn bwynt angori lle mae preswylwyr lleol yn gallu cwrdd, ymwneud â'i gilydd, ymlacio a chwarae. Mae'r Maes yn amgylchedd naturiolaid awyr agored lle gellir mwynhau'r golygfeydd dros aber afon Llŵchwr, wedi'u



Ffigur 4: Datblygwyd naratif o dan ddylanwad y patrymau anheddu presennol ym Mro Gŵyr

cyfyngu gan strydoedd sydd wedi'u cyfeirio'n ofalus, i helpu i adnabod a deall lleoliad y safle o fewn y dirwedd ehangach. Mae adeilad y Ganolfan Gymunedol yn amgylchedd hyblyg dan do sy'n darparu ar gyfer nifer o fathau o ddefnydd..

Yn sgil sefydlu Cyrff Cymeradwyo Systemau Draenio Cynaliadwy (CCSau) a'r gofyniad i sicrhau cymeradwyaeth gan CCS ochr yn ochr â chaniatâd cynllunio, achubwyd ar y cyfle i wella cymeriad a bioamrywiaeth y safle. Datblygwyd dewis o Systemau Draenio Cynaliadwy a oedd yn canolbwyntio ar gadw dŵr ar y wyneb o fewn nodweddion naturiolaid llawn planhigion sy'n ychwanegu at y strydlyn ac yn caniatáu i breswylwyr ddeall sut mae system draenio'r safle yn gweithio gan ddod â nhw i gysylltiad â natur yr un pryd.

Roedd yn anochel bod heriau wedi codi wrth greu lle â nodweddion pentref hanesyddol gan ddarparu yr un pryd ar gyfer anghenion yr 21fed ganrif fel mynediad ar gyfer casglu gwastraff. Nid yw'n hawdd datblygu systemau draenio cynaliadwy ac roedd yn rhaid trechu nifer o rwystrau technegol. Ni fyddai hyn wedi'i gyflawni oni bai am ddull cydweithredol y tîm a phenderfyniad y cleientiaid.

Wynebwyd heriau, fel y gwneir bob amser, wrth gwrdd ag anghenion parcio a phriffyrdd ond penderfynwyd peidio â chaniatáu parcio ar y lleiniau fel na fyddai'r cynllun strydoedd yn un maestrefol, yn enwedig ar ganol y datblygiad. Roedd mabwysiadu dull datblygu carbon isel hefyd wedi codi'r bwgan o gyfeirio adeiladau tua'r haul a'r posibilïad y byddai hynny'n ein gorfodi i greu cynllun sy'n wynebu'r de. O ganlyniad i hyn, roedd y cleientiaid wedi cydnabod bod angen dewis o fathau o dai er mwyn gallu gwireddu'r weledigaeth.

Ffigur 5: Cynllun y safle a gymeradwywyd



Lleoedd Byw 2 **Llunio Lleoedd**

Pensaernïaeth a Chynaliadwyedd

Roedd y dyluniad pensaernïol wedi codi o wir awydd i greu rhywbeth arbennig o ran lle, ynni a charbon. Er hynny, sylweddolwyd y byddai gwrthdymnu rhwng y sbardunau hyn. Nid oedd bwriad i greu cynllun ar gyfer Gwynfaen a fyddai'n wynebu'n ddieithriad tua'r de, sef y math o ddyluniad sy'n cael ei ystyried yn fwyaf manteisiol fel arfer ar gyfer ynni solar goddefol. Roedd angen ystyried nifer o wahanol agweddau, gan gynnwys: sicrhau'r golygfeydd ehangaf posibl o'r aber tua'r gorllewin; creu cefnlen ar bedair ochr i faes y pentref; a'r angen i gysylltu gerddi cefn â'i gilydd o dan egwyddorion diogelu drwy ddylunio. Roedd yn glir na ellid byth gyfiawnhau dylunio safle o'r maint hwn fel ei fod yn wynebu i un cyfeiriad yn unig ac y byddai cyfeiriadedd rhai o'r tai yn sicr o fod yn wael pe byddai hynny'n digwydd. Roedd angen ymateb i'r her hon drwy'r pensaernïaeth gan ddarparu ffyrntiau di-dor a strydoedd agos-atoc yr un pryd, fel y rhai a geir mewn pentref gwledig, er mwyn cadw cymeriad ac amrywiaeth yr uwchgynllun.

Roedd sgôr SAP o 96 o leiaf wedi'i rhagbennu ar gyfer pob cartref, felly roedd safon uchel o gynaliadwyedd yn rhan o'r briff o'r dechrau. Fodd bynnag, wrth ymateb i'r her o sicrhau cyllid y Rhaglen Tai Arloesol, penderfynodd y tîm y dylid ceisio sgôr well byth, gan ymrwmo i ganolbwyntio nid yn unig ar wella effeithlonrwydd ynni, ond hefyd ar leihau'r defnydd gydol oes o garbon. Yng nghyd-destun yr argyfwng hinsawdd, roedd y cleient a'r tîm dylunio yn teimlo cyfrifoldeb at genedlaethau'r dyfodol ac wedi holi'n gyson a oedd y cynllun yn gwneud digon i gwrdd â'r cyfrifoldeb hwn.


Er mwyn cyrraedd y sgoriau SAP, defnyddiwyd dull addasol i leihau'r galw am ynni a chynhyrchu'r ynni mwyaf posibl o ffynonellau adnewyddadwy. Mae ennill sgôr SAP uchel yn golygu defnyddio llai o ynni a reoleiddir o fewn y cartref ac felly lleihau ôl troed carbon y cartref. Mae hyn yn galw am fesurau goddefol fel inswleiddio ac atal drafftiau a defnyddio cymaint â phosibl o ynni adnewyddadwy a gynhyrchir ar y safle pan na ellir osgoi defnyddio trydan. Fel arfer, dim ond sgôr SAP o C neu B a fyddai'n bosibl ar lefelau perfformiad Passivhaus, heb ddefnyddio ynni adnewyddadwy. Bydd yr ynni adnewyddadwy arfaethedig yn dod o baneli ffotofoltäig integredig disylw ar ben toeau, a bydd effeithlonrwydd y rhain yn dibynnu ar eu cyfeiriad mewn perthynas â'r haul.

Dyluniwyd cartrefi fel bod modd i'w ffyrntiau fod ar ffurf talcen neu fondo er mwyn iddynt wynebu i'r cyfeiriad gorau ar gyfer gosod paneli ffotofoltäig. Roedd amrywiadau hefyd o ran y cyfeiriad roedd y mannau byw yn wynebu iddo er mwyn lleihau'r angen am wresogi gofodau, ac roedd mathau a oedd yn addas i wynebu o'r dwyrain i'r gorllewin gyda ffenestri llai er mwyn delio â'r risg o wresogi gormodol. Mae bron 50 o amrywiadau i gyd, wedi'u creu drwy ddefnyddio meddalwedd modelu gwybodaeth adeiladu.


Mae'r dyluniadau'n dilyn egwyddorion 'deunyddiau'n gyntaf' gan ddefnyddio deunydd inswleiddio thermol trwchus i



Ffigur 6:
Llun yn dangos
maes y pentref



Ffigur 7:
Darluniad o'r dull addasol o
ddylunio mathau o dai



Ffigur 8:
Darluniad o'r prif nodweddion
dylunio ynni isel

sicrhau gwerthoedd U o 0.13 W/m²K, y cyfan wedi'u modelu drwy efelychiadau sy'n rhagfynegi y bydd y biliau i gartrefi sy'n defnyddio trydan yn unig yn isel iawn. Drwy weithgynhyrchu'r cartrefi oddi ar y safle mewn ffatri, gellir sicrhau eu bod yn aerglos i'r graddau a ddymunir fel y bydd yn haws cyrraedd y targed SAP.

Drwy ddefnyddio cyllid y Rhaglen Tai Arloesol, roedd yn bosibl cynnwys mesurau cynaliadwy arloesol na fyddent yn hyfyw fel arall, ar yr amod bod eu heffeithiolrwydd yn cael ei fonitro. Gan rag-weld newid mewn rheoliadau yn y dyfodol, ni fydd y cartrefi wedi'u cysylltu â'r grid nwy. Ceir ynni ar gyfer gwresogi a dŵr poeth o bympiau aer ffynhonnell gwres a fydd wedi'u cysylltu â storfeydd thermol drwy offer rheoli digidol er mwyn manteisio ar dariffau trydan amrywiadwy, fel y bydd y costau rhedeg cyffredinol mor isel â phosibl.



Yn ogystal â hyn, bydd batrïau wedi'u gosod ym mhob cartref a hefyd, er mwyn hwyluso'r newid i gerbydau trydan, gwefryddion ceir. Mae cartrefi o'r math hwn yn troedio'n ysgafn ar y rhwydwaith trydan fel y gellir symud y llwythi ynni mwyaf i gynorthwyo'r grid.

Er gwaethaf y math o dechnoleg a ddefnyddiwyd, roedd yn bwysig bod y cartrefi'n adleisio'r bensaerniaeth frodorol ac yn cynnwys deunyddiau a gafwyd yn lleol. Mae amrywiaeth ffurfiau'r tai yn rhoi'r argraff o dwf organig, gan greu ymdeimlad cryf o gymeriad y lle ac mae cysylltiadau

rhwydd rhwng y datblygiad a'r dirwedd o'i gwmpas er mwyn hyrwyddo gweithgarwch yn yr awyr agored.

Roedd y diffiniadau diweddaraf o ddatblygu carbon sero net yn galw am sylw i'r carbon sydd wedi'i ymgorffori yn y cynhyrchion a deunyddiau mewn manylebau yn ogystal â'r costau carbon am redeg y cartrefi. Bydd yr adeiladau'n cael eu gwneud mewn ffatri gyfagos gan ddefnyddio fframiau coed Cymreig wedi'u hinswleiddio â ffeibrau pren ac yn cael cydosod i ffurfio paneli mawr. Mae'r system hon yn well o ran cyflymder adeiladu, iechyd a diogelwch, a lleihau gwastraff. Dewiswyd detholiad cyfyng o ddeunyddiau y gellid eu cyfnwio â'i gilydd, i gyd ar ffurf sgrin glaw (Ffigur 2) yn cynnwys cladin Llarwydd Cymreig a rendr calch. Ystyriwyd defnyddio system cladin o gerrig a gloddiwyd yn lleol ond nid oedd darparwyr gwarantau adeiladu yn barod i'w derbyn. Yn aml bydd y prosesau profi a chymeradwyo sydd eu hangen i brif ffrydio syniadau arloesol yn rhai rhy ddrud i gyflenwyr artisan bach ac mae hyn yn rhwystr wrth ystyried dulliau mwy dyfeisgar. Er hynny, mae rhai cerrig lleol yn cael eu defnyddio yn y cynllun ar gyfer codi waliau rhai o'r adeiladu canolog.

Defnyddiwyd meddalwedd Asesu Cylch Bywyd i fesur y CO₂ sydd wedi'i ymgorffori yn y fanyleb a gwnaed gwelliannau sylweddol i wella ôl troed carbon gydol oes y datblygiad. Mae'r data isod yn cymharu cartref confensiynol o waith maen traddodiadol a deunydd inswleiddio seiliedig ar olew â'r cartref yn natblygiad Gwynfaen.



Ffigur 9: Data am carbon corfforedig mewn cartrefi confensiynol o'u cymharu â chartrefi yn natblygiad Gwynfaen mewn perthynas â meincnodau diwydiant presennol





Ffigur 10: Delwedd yn dangos y cysylltiadau gwyrdd

Arloesi a hyfywedd

Drwy ddefnyddio cyllid y Rhaglen Tai Arloesol, mae cymdeithasau tai Coastal a Pobl wedi gallu arloesi o ran datblygu cynaliadwy sy'n seiliedig ar ddull creu lleoedd. Heb gyllid o'r fath, byddai cynllun o'r maint a chymhlethdod hwn yn wynebu heriau sylweddol i fod yn hyfw. Mae cymdeithasau tai Coastal a Pobl wedi gweithio ar y datblygiad hwn er 2017, cyn cyflwyno'r gofynion am systemau draenio cynaliadwy gan Lywodraeth Cymru. O ganlyniad i'r ddeddfwriaeth honno, roedd yn rhaid i'r cynllun ysgwyddo baich ariannol ychwanegol a heb gymorth cyllid y Rhaglen Tai Arloesol ni fyddai wedi bod yn bosibl cynnwys y costau ychwanegol ac aros yn economaidd hyfw er mwyn cyrraedd y targedau uchelgeisiol a osodwyd gan Lywodraeth Cymru fel amod ar werthu'r tir. Mae tir a chyllid cyhoeddus yn cynnig ffordd i ddefnyddio safleoedd a fyddai'n anhyfw fel arall lle gellir rhoi prawf ar dechnolegau newydd.

Wynebwyd heriau wrth geisio sicrhau deunyddiau carbon isel o ffynonellau lleol, o ran cost, ansawdd, argaeledd a chymeradwyo gwarantau adeiladu. Mae'r holl ffactorau hyn wedi dylanwadu ar y dull cyffredinol o ddylunio'r cynllun, gyda'r nod o gymhwyso egwyddorion y datblygiad at gynllunio yn y dyfodol heb yr angen am gymorth grant ychwanegol.

Sut y gellir prif ffrydio hyn


O ran technoleg, mae datblygiad Gwynfaen yn un anghonfensiynol am nad oes cysylltiadau â'r grid nwy ac am ei fod yn cael ei bweru gan nifer mawr o dechnolegau ynni adnewyddadwy. Mae costau economaidd sylweddol ynglŷn â'r dull newydd hwn ac ni fydd y rhain yn gostwng yn sylweddol nes ceir arbedion maint: yr unig ffordd i sicrhau'r rhain yw drwy fanylebu gan gleientiaid neu ymyrraeth allanol, er enghraifft drwy ddeddfu i greu newid.

Mae dadl hefyd o blaid sicrhau cyfraniad pellach gan ddarparwyr gwarantau adeiladu. Mae'r ddau gleient wedi bod yn ffodus o gael cefnogaeth gan ddarparwr gwarantau mawr ar gyfer y datblygiad hwn, ond wynebwyd heriau wrth sicrhau hynny. Derbynnir bod darparwyr o'r fath yn cael eu rheoli gan eu cyrff gwarantu sy'n tueddu i fod yn fwy gochelgar wrth ystyried arloesi. Fodd bynnag, os yw dulliau arloesol i gael eu mabwysiadu'n eang, yna rhaid i'r darparwyr gwarantau fod yn rhan o'r broses: mae hyn hefyd yn golygu sicrhau newid drwy'r galw gan y farchnad neu drwy ymyrraeth allanol.

O ran y dull creu lleoedd, mae dau brif rwystr rhag ei fabwysiadu'n eang. Yn gyntaf, mae datblygwyr preifat yn gweithredu ar sail maint yr elw; mae'r cynllun safle a ddefnyddiwyd yn natblygiad Gwynfaen wedi effeithio ar yr arwynebedd y gellir ei ddatblygu ar y safle, sy'n arwain un ai at werthoedd tir is, neu gost uwch am y cynnyrch terfynol. Yn ail, mae'r cymysgedd o ddeiliadaethau fforddiadwy – dwy ran o dair yn fforddiadwy, un rhan o dair i'w gwerthu ar y farchnad agored – hefyd yn her i'r modelau hyfywedd arferol. Y brif ffordd i hyrwyddo dull creu lleoedd ar draws y sector fydd sicrhau bod datblygwyr nad ydynt yn gweithredu er elw yn unig, fel Coastal a Pobl, yn parhau i arwain y ffordd ar hyn, fel y bydd cwsmeriaid yn cael y dewis i fyw mewn cymunedau amrywiol a bywiog eu diwylliant.

Buddion i'r preswylwyr

Bydd datblygiad Gwynfaen yn cynnig cyfle gwych i breswylwyr gwrdd a ffurfio cymuned. Bydd llwybrau cerdded o'r cartrefi newydd a chymdogaethau presennol yn creu cysylltiad rhesymegol rhwng cychfannau allweddol fel y ganolfan gymunedol, y maes chwarae, mannau agored allweddol, a Hawliau Tramwy. Bydd y mannau agored, y



Ffigur 11: Cymharu'r defnydd o dir



Ffigur 12: Delwedd o'r ganolfan gymunedol ganolog

seilwaith glas/gwyrdd, y cyfleusterau cymunedol a'r mannau chwarae yn rhoi cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio, chwarae, hamdden a chwaraeon sydd mor bwysig i sicrhau lles. Bydd y gymdogaeth newydd yn cael ei rheoli ar y cyd gan y cymdeithasau tai er mwyn sicrhau stiwardiaeth gyfrifol ar asedau'r gymuned a gwireddu'r holl fuddion.

Rhoddwyd sylw ers dechrau'r prosiect i ffyrdd i feithrin cydlyniant cymunedol. Drwy gaffael y contractwr, clustnodwyd 0.25% o werth y contract ar gyfer swm i'w fuddsoddi gan y gymuned a fydd ar gael i gyflawni unrhyw flaenoriaethau a bennir gan y gymuned ac a ddefnyddir i ddenu buddsoddiadau ychwanegol a phartneriaethau i gynyddu'r buddion. Bydd y Ganolfan Gymunedol yn datblygu dros amser a bydd yn bosibl iddi gael ei rheoli gan Gwmni Buddiannau Cymunedol a fyddai'n cael ei sefydlu drwy gydweithio rhwng y cymdeithasau tai a phreswylwyr lleol. Bydd ymgysylltu parhaus yn hanfodol i sicrhau bod y weledigaeth gyfredol yn gyson â dyheadau'r preswylwyr gan y bydd y rheini'n sicr o ddatblygu dros amser ac mae Bwrdd Prosiect wedi'i sefydlu, sy'n cynnwys partneriaid y cymdeithasau tai ar hyn o bryd, i ddellio â materion a godir sy'n ymwneud â phreswylwyr, cymdogion ac adeiladu.

Drwy ddyluniad, cyfeiriadedd a deunyddiau'r adeiladau a'r dechnoleg carbon isel sydd wedi'i chynnwys, sicrhau na fydd nemor ddim tloidi tanwydd, a bydd preswylwyr yn gallu manteisio ar dariffau ynni amrywiadwy a'r defnydd clyfar o ynni o gelloedd ffotofoltäig sydd wedi'i gasglu a'i storio. Mae pob math o dechnoleg newydd yn galw am ymgynefino â'r system er mwyn cael y fantais fwyaf o'i galluoedd. Yn ogystal â darparu set o ddogfennau clir ar bapur ac ar-lein, disgwylir y bydd angen monitro'r defnydd o'r dechnoleg gan breswylwyr, ac y bydd rheolwyr ynni yn darparu adborth i

breswylwyr er mwyn sicrhau gwelliannau drwy'r amser a fydd yn arbed arian i unigolion ac yn arbed carbon.

Mae datblygiad Gwynfaen yn dylanwadu eisoes ar fodolau busnes Coastal a Pobl, gan greu dyheadau o ran creu lleoedd a chynaliadwyedd ar gyfer cynlluniau yn y dyfodol. Yn ddiweddar, mae grŵp Pobl wedi recriwtio Pennaeth Arloesi a Chynaliadwyedd i ystyried sut i wneud y defnydd gorau o'r gwersi a ddysgir ac mae grŵp Coastal yn ystyried sut y gall normaleiddio'r dull carbon isel yn ei raglen darparu tai.

Tîm dylunio

Pensaer: Stride Treglown Cyf

Pensaer Tirwedd ac Uwchgynllunio: Environmental Dimension Partnership

Ymgynghorydd MEP: Hoare Lea

Peiriannydd Sifil a Strwythurol: WSP

Ymgynghorydd Cynllunio: Asbri

Awduron

Elfed Roberts,

Pennaeth Arloesi a Chynaliadwyedd, Grŵp Pobl

Adam Roberts,

Pennaeth Datblygu (Gorllewin), Grŵp Pobl

Rob Wheaton,

Uwch Bensaer Cyswllt, Stride Treglown

Dai Lewis,

Cyfarwyddwr, The Environmental Dimension Partnership

Peter Remedios,

Rheolwr Prosiectau, Grŵp Pobl

Rhianydd Jenkins,

Pennaeth Datblygu, Grŵp Tai Coastal

Ailgodi â Gwerthoedd Gwell

gan Robert I Chapman Diploma Rheoli Ystadau (Anrh),
M Sc (Regen), MRICS, Aelod Cyswllt o'r RTPI, FRSA

Mae Lleoedd Byw 2 yn ymwneud â hyrwyddo "ffyrdd da i greu lleoedd ac ailgodi'n well". Yn yr ysgrif hon, byddaf yn ystyried rôl datblygwyr, creu lleoedd a chynllunio.

Y sbardun i'r ysgrif hon oedd neges gan yr RSA ar 1 Gorffennaf 2014 o dan y teitl Datblygu Lleoedd Cymdeithasol Gynhyrchiol.¹ Roedd yn cyfeirio at adroddiad o'r un enw gan Ganolfan Gweithredu ac Ymchwil RSA a oedd wedi'i gymeradwyo gan British Land. Roedd yn herio ac yn annog awdurdodau lleol, datblygwyr, cymunedau a busnesau i gael gwell dealltwriaeth o'r hyn sy'n gwneud lleoedd yn dda i bobl yn y tymor hir. Ar ben hynny, nododd fod dulliau llwyddiannus o greu lleoedd yn galw am ddealltwriaeth o'r ffordd y mae pobl, teuluoedd a rhwydweithiau cymunedol yn ymateb ac yn elwa o'r cyfleoedd sydd ar gael yn yr amgylchedd adeiledig. O'i ddeall yn iawn, gwelir bod gwerth cymdeithasol yn rhywbeth cronol.

O'r gwahanol bwyntiau dysgu ar gyfer arweinwyr, roedd dau wedi dal fy sylw: yn gyntaf, mae datblygu lleoedd cymdeithasol gynhyrchiol yn golygu helpu pobl leol i ymwneud â datblygu fel ffordd i ddelio â materion fel cyflogaeth leol, trafnidiaeth a darparu gwasanaethau iechyd ac addysg; yn ail, mae lleoedd cymdeithasol gynhyrchiol yn meithrin gallu'r gymuned i elwa o dwf, i wrthsefyll ergydion yn well ac i hybu gallu pobl i gydaddasu i amgylchiadau newydd. Gyda'i gilydd, mae hyn yn swnio'n flaengar: cydasio'r amgylchedd adeiledig y dibynnir arno (y caledwedd) i fyw bywyd ynddo (y meddalwedd).

Ym mis Gorffennaf 2019, mewn adroddiad a baratowyd gan Grosvenor,² awgrymwyd bod datblygwyr a chynghorau yn y DU yn wynebu diffyg ymddiriedaeth sylweddol. Yn benodol, yn achos datblygu ar raddfa fawr, dim ond 2% o'r cyhoedd sy'n ymddiried mewn datblygwyr preifat i weithredu er y budd gorau i'r ardal. Dim ond 7% o'r cyhoedd sy'n ymddiried mewn awdurdodau lleol

i weithredu er y budd gorau i'r ardal. Os yw arweinwyr cynghorau a diwydiant am adfer ffydd y cyhoedd yn y system gynllunio a'r broses creu lleoedd, yna, yn ôl yr adroddiad, mae tair her i'w hwynebu: (i) deall elw preifat a budd cyhoeddus; (ii) ymestyn dylanwad y cyhoedd dros leoedd (mae nifer mawr o bobl yn teimlo bod datblygu ar raddfa fawr yn rhywbeth sy'n digwydd iddyn nhw, nid gyda nhw neu ar eu cyfer nhw); (iii) dal y sectorau cyhoeddus a phreifat yn atebol gan alw am dryloywder, cysondeb ac atebolrwydd, drwy gydol oes datblygiadau ar raddfa fawr.

Mae'r pandemig COVID-19 wedi peri i bobl fyfyrion am eu bywydau a'u lleoedd. Mae llawer o holi am beth sy'n gwneud lle da. Cyn i mi drafod lleoedd, gadewch i mi sôn am eitemau newyddion ar ddatblygiadau yn ystod y cyfnod ers Gorffennaf 2019, adeg cyhoeddi Adroddiad Grosvenor.

Datblygwyr:

Yn y cyfnod rhwng Gorffennaf 2019 ac Awst 2020, mae lluo o 'storïau truenus' wedi codi nad ydynt yn dweud yn dda am ddatblygwyr, eu datblygiadau a'r lleoedd y maent yn effeithio arnynt. Y gwir plaen yw nad yw pethau wedi gwella - thema gyffredinol a adleisiwyd gan gydsefydlydd a chyfarwyddwr y cwmni datblygu defnydd cymysg Cubex, Gavin Bridge sy'n nodi ".... fel datblygwyr, mae angen i ni fod yn fwy agored ac atebol".³

Y ddadl o blaid Ansawdd a Gwerth:

Mae ansawdd y datblygu a ddarperir gan ddatblygwyr yn berthnasol dros ben oherwydd ei effaith ar le, creu lleoedd, pobl a chymunedau. British Land yw un o'r datblygwyr mwy goleuedig sy'n meddwl am hyn. Yn 2015, roedd wedi cydweithio â Happy City i ddatblygu cyfres o egwyddorion lles i arwain ei strategaeth creu lleoedd (gweler Ffigur 1). Roedd hyn wedi arwain at saith egwyddor lles.



Ffigur 1: Yr egwyddorion lles sy'n arwain strategaeth creu lleoedd British Land

Ar ôl hynny, ceisiodd wneud rhywbeth sydd heb ei wneud o'r blaen. Yn 2018, mewn partneriaeth â WPI Economics, cynhyrchodd adroddiad am ymchwil i effeithiau'r amgylchedd adeiledig ar iechyd a lles pobl. Roedd hyn wedi arwain at yr adroddiad 'Design for Life: the impact of good design on mental health'⁴. Gan fod tua 46 miliwn o bobl yn byw yn amgylcheddau trefol y DU erbyn hyn, mae'r adroddiad yn awgrymu y byddai dylunio am oes yn gallu cael effaith gronol enfawr ar genedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Am y tro cyntaf, roedd yr adroddiad yn mesur y buddion economaidd dichonol o ddylunio lleoedd er mwyn iechyd meddwl. Roedd hefyd yn amlinellu rhaglen i roi lle canolog i iechyd a lles mewn datblygu. Gan gymryd tair enghraifft bwysig, mae'r adroddiad yn datgan bod dull creu lleoedd a'r amgylchedd adeiledig yn gallu dylanwadu ar: (1) lefelau gweithgarwch corfforol; (2) ansawdd yr aer a anadlwn; a (3) cyflwr ein hiechyd meddwl (gweler Ffigur 2).

Roedd yn tynnu sylw at y ffaith bod y GIG yn Lloegr yn gwario tua £11.6 biliwn ar wasanaethau iechyd meddwl, a hynny'n awgrymu y gallai'r costau ehangach i'r economi fod yn fwy na £105 biliwn. Yn ogystal â hynny, nodwyd yn yr adroddiad y byddai dinasoedd a ddyluniwyd yn well yn gallu gwella lles a lleihau dibyniaeth ar wasanaethau llywodraeth,

gan roi hwb o £15.3 biliwn i'r economi, yn ôl ei amcangyfrif, erbyn 2050 (heb gynnwys y cynnydd dichonol mewn cynhyrchiant o £5.4 biliwn ar draws yr economi).


Os yw rhan o'r bai ar amgylcheddau trefol gwael, yna byddai gwelliannau ar lefel uwch yn gallu creu arbedion enfawr ar lefel is: dadl sydd wedi'i hategu mewn adroddiad diweddar gan Homes England (Mehefin 2020) o'r enw Building for a Healthy Life⁵ a ysgrifennwyd mewn partneriaeth rhwng Homes England, NHS England ac NHS Improvement (ac sy'n cymryd lle Building for Life 12).

Calonogol hefyd yw gweld bod gwerth (heblaw gwerth ariannol) yn cael mwy o flaenoriaeth. Er enghraifft, mae Social Value UK wedi gweithredu yn y maes hwn ers rhai blynedd bellach. Yn ddiweddar, dan anogaeth y Construction Innovation Hub, rydym wedi dysgu am The Value Toolkit⁶ sy'n ymwneud yn benodol â phenderfynu ar sail gwerthoedd. Yn yr amgylchiadau presennol, mae hyn yn golygu achub ar y cyfle i wella'r canfyddiad o'r diwydiant a gosod y sylfeini ar gyfer dyfodol gwell. Rwyf yn gobeithio y bydd hyn yn digwydd.

Yn naturiol, mae adeiladu'n rhan o'r datblygiad a gaiff ei ddarparu neu ei gaffael gan ddatblygwyr a fydd yn effeithio ar leoedd a phobl. Mae arwyddion cadarnhaol o newid - boed ar ffurf gwerth cymdeithasol, cynaliadwydd neu'r economi gylchol - wedi cael eu tymheru gan adroddiad ymchwil a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan y diwydiant adeiladu: *From the Ground Up – Improving the Delivery of Social Value in Construction*.⁷ Fe'i cyhoeddwyd gan y Sefydliad Datblygu Economaidd (IED), ac mae'n dangos bod y diwydiant yn bell o gyrraedd y gwynfyd gwerthoedd cymdeithasol.

Cyn gorffen â thema ansawdd a gwerth, dyma eiriau'r diweddar Tony Pidgley, a oedd yn Gadeirydd y Berkeley Group cyn ei farwolaeth ym mis Mehefin eleni, ac mae'n alwad am greu lleoedd am oes. Meddai: "Mae datblygu da yn ymwneud â phobl. Mae'n golygu gwella bywyd, creu cartrefi hardd a rhoi lles y gymuned gyfan ar ganol pob cynllun. Mae'n golygu creu lleoedd y bydd pobl yn eu caru fel eu rhai eu hunain ac yn gofalu amdanynt yn bell ar ôl i ni fynd o'r byd."⁸ Mae angen rhagor o hyn. Bydd datblygwyr gwerth eu halen yn dyheu am greu lleoedd gwych bob tro y byddant yn datblygu lle.

Ffigur 2: y buddion economaidd gwirioneddol o ddylunio dinasoedd yn well



Datblygwyr Effaith Gymdeithasol:

Nid yw'r holl ddatblygwyr yr un fath. Meddylwch am ddatblygiadau sydd wedi'u darparu gan gymdeithasau tai, busnesau datblygu bach rhagorol a manteision amgylcheddol y datblygiadau a ddarperir gan Sero Homes, er enghraifft. Yn wir, mae carfan gynyddol o'r rhai a alwaf yn ddatblygwyr 'effaith gymdeithasol' sydd â gwir ddiddordeb yn y lleoedd y maent yn eu creu er budd pobl, lleoedd a chymunedau. Enghraifft arall yw Simon Baston o LoftCo sy'n dweud y dylai eiddo ymwneud â chymuned i fwy o raddau. Mae'n creu cynlluniau bach sy'n ateb galw cudd ac yn hwyluso ymgysylltu â phobl mewn lleoedd gwych lle mae ganddynt ddewis a hyblygrwydd. Mae hyn yn debyg i waith y cynllunydd trefol Kelvin Campbell, dyfeisydd y cysyniad MassiveSmall⁹. Datblygwr effaith gymdeithasol arall yw Jacob Loftus, sylfaenydd General Projects. Mewn cyfweiliad ar gyfer podlediad, mae'n egluro ei fod am greu gofod cynaliadwy yn seiliedig ar brofiad. Gofod sy'n ysbrydoli pobl ac yn cysylltu cymunedau. Mae Loftus yn dadlau bod "y mwyafrif llethol o adeiladau'n anniddorol ac anysbyrdoledig, wedi'u dylunio gan bobl sy'n monitro taenlenni a chostau."¹⁰

Yn olaf yn y rhan hon, rhaid sôn am Newid Hinsawdd a datblygu cynaliadwy: y cyntaf am fod yr amgylchedd adeiledig yn un o'r prif ffynonellau o allyriadau, a'r ail am fod angen 'amgylcheddau cynhwysol'. Ond nid adeiladau newydd yw unig achos y broblem. Fel y mae'r Athro Phil Jones yn dweud "mae tua 300,000 o deuluoedd yng Nghymru'n byw mewn tldi tanwydd, a nifer mawr mewn tai is-safonol na allant fforddio eu gwresogi. Mae rhaglenni ôl-osod mawr i arbed ynni yn hanfodol i iechyd a lles pobl a hefyd i leihau eu biliau ynni."¹¹ Mae'n nodi hefyd y bydd pob prosiect nad yw'n ddi-garbon neu'n gadarnhaol o ran ynni yn faich yn y dyfodol. Mae "amgylcheddau cynhwysol" yn berthnasol i rai elfennau yn 17 Nod Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig¹² a ddaeth i rym ar 1 Ionawr 2016 i fynd i'r afael â materion amgylcheddol, tldi a chyfiawnder, yn enwedig Nod 3 (iechyd a lles da) a Nod 11 (dinasoedd a chymunedau cynaliadwy) sy'n cydnabod y gwahanol anghenion sydd gan ddefnyddwyr a'r angen i roi pobl o bob oed a gallu ar ganol y broses. A hefyd, os caf ddweud, ar ganol lleoedd a'r broses creu lleoedd.

Lle:

Roedd y papur Developing Socially Productive Places a gyhoeddwyd gan yr RSA yn 2014, gyda chefnogaeth

British Land, yn herio ac yn annog y genhedlaeth nesaf o ddatblygwyr ac awdurdodau lleol i ddatblygu ffyrdd newydd o gydweithio â chymunedau lleol a llywodraethau, gan amlinellu'r gwerth sydd mewn deall rhwydweithiau lleol. Roedd yn datgan y dylai arweinwyr ystyried:

- Trin y gwasanaeth cynllunio fel un rheng flaen nad yw'n bodoli ar wahân i rolau eraill yn y sector cyhoeddus sy'n dylanwadu ar y ffordd y mae lle'n gweithio.
- Buddsoddi yn y gwasanaeth cynllunio er mwyn ychwanegu gwerth at amcanion eraill y sector cyhoeddus a chymryd camau i gryfhau cysylltiadau rhwng datblygwyr a phobl sy'n dod i mewn, a rhwng busnesau a chymunedau presennol.
- Bod datblygu lleoedd cymdeithasol gynhyrchiol yn golygu helpu pobl leol (meithrin gallu cymunedol) i ymwneud â'r broses datblygu er mwyn delio â materion fel cyflogaeth leol, trafnidiaeth a'r ddarpariaeth ar gyfer iechyd ac addysg.

Casgliad y papur yn 2014 oedd mai'r unig fodd i wneud cynnydd fyddai drwy gydweithio mewn ffyrdd newydd rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat ac unigolion a grwpiau cymunedol. Erbyn 2020, prin yw'r cynnydd a gafwyd ac mae storïau'n frith am ddatblygwyr a datblygiadau alaethus.

Mae lleoedd yn ganlyniad i Creu Lleoedd, boed drwy broses fwriadol neu beidio: mae'r olaf yn dylanwadu ar y cyntaf. Fel y sefydliad Placemaking X, rwyf yn cytuno bod pwysigrwydd creu lleoedd yn mynd yn angof yn rhy aml gan syrthio rhwng gwahanol ddisgyblaethau, sectorau, ac agendâu dyngarol.¹³ Ac, fel y mae adroddiad British Land 'Design for Life' wedi dangos, mae lleoedd yn effeithio ar ein hiechyd a lles (gweler Ffigur 2), ac yn dylanwadu ar yr economi. Yn fy marn i, mae ystyr cyfannol cryf i'r term 'creu lleoedd', am ei fod yn chwarae rhan hollbwysig 'drwy hybu iechyd cyhoeddus, diogelwch cyhoeddus, tai fforddiadwy, cynhwysiant cymdeithasol, datblygu economaidd, cynaliadwyedd, lleihau effeithiau'r newid yn yr hinsawdd, a meithrin teimlad cryf o berthyn i gymune.'¹⁴

Mae Fred Kent, mewn cyfweiliad â Mustafa Sherif ar gyfer y podlediad Urbanistica, yn taflu goleuni ar y broses creu lleoedd.¹⁵ Mae rhai dyfyniadau yn Ffigurau 3 i 7 sy'n tynnu sylw at agweddau allweddol ar Lleoedd Byw. Yn wir, yng Nghymru, cyfeirir at "Creu Lleoedd ... lle mae'r Gymraeg yn ffynnu / Placemaking...as if a thriving Welsh language mattered".

Mae tua 300,000 o deuluoedd yng Nghymru'n byw mewn tldi tanwydd, llawer ohonynt mewn tai is-safonol na allant fforddio eu gwresogi. Mae rhaglenni mawr i ôl-osod mesurau arbed ynni yn hollbwysig i iechyd a lles pobl a hefyd i leihau eu biliau ynni.



Figure 3-7:
Detholion o gyflwyniad Fred Kent

Lle a Chynllunio: mae cysylltiad annatod rhwng Creu Lleoedd a Chynllunio. Mewn gweminar yn 2020 gan yr Urban Design Group, tynnwyd sylw at Adolygiad Raynsford o Gynllunio yn Lloegr. Roedd un cynllunydd wedi'i alw'n adroddiad gwyb sy'n gosod gwir bwrpas ar gyfer cynllunio, yn cynnwys egwyddorion y Cenhedloedd Unedig. Dau o'r tri nod i brosiectau oedd: (i) ymwneud yn adeiladol â gwleidyddion a swyddogion cyngor, cymunedau, darparwyr tai, datblygwyr, ymgynghorwyr ac academwyr (pawb sy'n ymddiddori yn yr amgylchedd adeiledig) ynghylch sut y gellid gwella'r broses creu lleoedd drwy system gynllunio decach a mwy effeithiol; a (ii) amlinellu gweledigaeth newydd ar gyfer cynllunio yn Lloegr ac adfer ffydd yn y broses cynllunio drwy gyfathrebu â'r cyhoedd yn ogystal â gweithwyr proffesiynol. Mae'n werth nodi bod y pwyntiau amlwg hyn yn gyson â rhai o'r prif bwyntiau yn adroddiad Grosvenor ym mis Gorffennaf 2019.

Yn yr Alban, datblygwyd offeryn ar y cyd rhwng Llywodraeth yr Alban, y GIG ac Architecture and Design Scotland. Yr enw ar y broses yw 'creu cynlluniau drwy gyfranogi', a'r enw ar yr offeryn yw Place Standard. Mae'n darparu strwythur ar gyfer "deialog ffurfiol" â phobl am y mannau lle maent yn byw. Mae Egwyddor Lle yn athroniaeth sydd wedi'i hymgorffori mewn polisi mewn gwirionedd. Mae'n ddull o ymdrin â chreu lleoedd sydd, yng ngeiriau Llywodraeth yr Alban, "yn hyrwyddo cydddealltwriaeth o le, a'r angen i ymdrin mewn ffordd fwy cydweithredol â'r gwasanaethau ac asedau sydd mewn lle er mwyn sicrhau gwell canlyniadau i bobl a chymunedau".

Yng Nghymru, mewn araith gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, Julie James AS gerbron cynhadledd y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol (RTPI) yng Nghymru yn hydref 2019, amlinellwyd dull Llywodraeth Cymru o greu lleoedd, a sut mae'n bwriadu ei roi ar waith. Datganodd mai "yr her i bob un ohonon ni yw adeiladu datblygiadau o ansawdd da mewn cymunedau y bydd pobl yn falch o'u galw'n gartref". Ym mis Gorffennaf 2020, lansiwyd y canllaw Adeiladu Lleoedd Gwell gan Lywodraeth Cymru. Roedd yr RTPI wedi croesawu'r canllaw hwn sy'n rhoi lle canolog i gynllunio a chynllunwyr yn yr ymateb i'r pandemig COVID a'r adferiad ar ei ôl. Wedyn, ym Medi 2020, lansiwyd Siarter Creu Lleoedd Cymru, a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru a Chomisiwn Dylunio Cymru gyda mewnbn gan Bartneriaeth Creu Lleoedd Cymru.

Cynllunio a Lle: Dylai cynllunio gael ei ystyried yn wasanaeth rheng flaen, ond mae angen adnoddau digonol ar ei gyfer. Mae'r cynllunydd siartredig Wayne Reynolds wedi nodi bod paradocs ynglŷn â system gyllido Llywodraeth Cymru ar gyfer Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru sef nad yw'n cyfateb i fuddsoddi mewn pobl nac yn tanlinellu pwysigrwydd creu lleoedd. Rhoddir pwyslais ar gymell datblygwyr i gyflwyno cynlluniau o ansawdd da. Gan nad yw hyn yn digwydd ym mhob achos, bydd cynghorau yn aml yn gorfod wynebu'r cwestiwn: a yw dyluniad y datblygiad mor ddrwg fel y dylid ei wrthod? Y gwir yw bod buddsoddi

Tackling place-based inequality	Delivering affordable and high quality housing in the right locations, regenerating deprived areas for the benefit of existing communities, and improving access to key services, amenities and infrastructure
Enabling a green industrial revolution	Actively planning for the growth of sectors which deliver emission reductions, environmental gains and jobs, while helping places adapt to shifting economic and labour markets
Prioritising healthy and sustainable modes of transport	Integrating temporary active travel measures into strategies which lock-in behaviour change and support regeneration, and plan for growth that helps public and shared transport to recover
Accelerating the deployment of zero-carbon infrastructure	Local and strategic planning for energy efficiency, renewable energy, smart grids and nature-based solutions to flooding and overheating, guided by ambitious policies and standards

Ffigur 8: Blaenoriaethau ar gyfer adfer seiliedig ar leoedd, ar draws pedair thema

mewn cynllunio yn gallu ychwanegu gwerth at amcanion eraill y sector cyhoeddus, a bod yn ffordd i gryfhau cysylltiadau rhwng datblygwyr, pobl sy'n dod i mewn a busnesau, a chymunedau presennol.

Fel y dangoswyd yn yr adroddiad Design for Life gan British Land, mae cydnabyddiaeth gynyddol i'r berthynas rhwng yr amgylchedd adeiledig ac iechyd meddwl, yn ogystal ag anhwylderau niwrolegol a rhai ar y sbectrwm awtistig, ac i'r rhan sydd i gynllunio trefol mewn creu amgylcheddau iachach. Dylai lleoedd fod yn gartref i bobl iach yn ogystal â bod yn blant-gyfeillgar.

Tynnwyd sylw at bwysigrwydd Lle yn Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020 a gyhoeddwyd yn gynharach eleni, yn enwedig ym mhennod 5 sy'n ymdrin â chynllunio defnydd tir a chreu lleoedd. Yr argymhellion i Lywodraeth Cymru yw: (i) buddsoddi'n sylweddol i weithredu'r polisi creu lleoedd a Polisi Cynllunio Cymru 10 er mwyn sicrhau bod y polisi creu lleoedd yn cael ei weithredu ac na cholli'r sgiliau; a (ii) cynhyrchu esboniad mewn iaith glir o'r Cod Cynllunio a'r broses. Heblaw argymhellion ynghylch prosesau, dylid ystyried creu lleoedd yn holl fforymau penderfynu strategol y Cyrff Cyhoeddus. Yn ogystal â hyn, dylid darparu adnoddau ychwanegol i Gomisiwn Dylunio Cymru i ehangu cwrdd ei ymgysylltu.

Cyhoeddwyd ymateb polisi'r RTPI i'r ymgyrch COVID-19 Plan the world we need ym mis Mehefin 2020. Ym mhennodau 2 i 5 yn yr adroddiad, nodir blaenoriaethau'r RTPI ar gyfer adfer seiliedig ar leoedd, ar draws pedair thema – gweler Ffigur 8.

Ymatebodd RTPI Cymru i ganllaw Adeiladu Lleoedd Gwell Llywodraeth Cymru drwy gyhoeddi datganiad clir a oedd yn cefnogi'r canllaw ond yn gofyn am gyllid priodol i adrannau cynllunio am fod y broses creu lleoedd yn galw am strategaethau, polisiâu a dulliau cynllunio sy'n wirioneddol leol. Mae'r canllaw yn ymhelaethu ar yr ystyriaethau i iechyd a lles sydd yn Polisi Cynllunio Cymru 10 lle mae 8 mater allweddol wedi'u nodi i ddod â meysydd polisi gwahanol ynghyd i sicrhau'r gweithredu mwyaf effeithiol.

Casgliad:

Creu lleoedd da ac ailgodi'n well yw hanfod Lleoedd Byw 2. Mae'r pandemig COVID-19 wedi amlygu'r angen am Lleoedd gwell o lawer. Mae'r ddadl o blaid ansawdd a 'gwerth' - economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol, diwylliannol – yn un hollbwysig yn awr. Aeth blwyddyn a mwy heibio ers i Grosvenor godi'r mater pwysig o ymddiriedaeth yn y diwydiant datblygu (ac mewn awdurdodau lleol). Mae'r dystiolaeth yn awgrymu na chafwyd llawer o gynnydd ar ddelio â hyn, er cymaint y buddion i iechyd a lles o greu lleoedd gwych a chymdeithasol gynhyrchiol. Mae angen newid ym meddylfryd datblygwyr. Mae'n bosibl mai'r cyfrwng i sicrhau'r newid hwn fydd cyfuniad o ffactorau dylanwadu, yn cynnwys rhai amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu corfforaethol, gofynion gan gyrff caffael a chyrrff sy'n darparu cyllid cynaliadwy, defnyddwyr, a sefydliadau sy'n dylanwadu, fel Comisiwn Dylunio Cymru.

Gwasanaeth rheng flaen yw cynllunio ac mae'n allweddol i hyrwyddo datblygu o ansawdd da mewn Lleoedd ac i leihau anghydraddoldebau. Fodd bynnag, mae angen darparu adnoddau digonol ar ei gyfer a rhaid cael cydweithio rhagweithiol.

Mae angen i ddatblygwyr ailgodi'n well, nid adeiladu ac adeiladu'n unig. Rhaid osgoi sefyllfa lle mae safonau'n gostwng fwyfwy wrth geisio sicrhau canlyniadau o ansawdd da ar gyfer Lleoedd a phobl, lle mae'r diwydiant yn anghofio'r pethau pwysig, a amlygwyd drwy'r argyfwng COVID, a fydd yn arwain at ganlyniad tymor hir gwell i bob un ohonom. Mae'r sefyllfa bresennol yn gyfle sy'n codi unwaith mewn cenhedlaeth i ddechrau o'r newydd. Dyma'r cwestiwn i'r diwydiant datblygu: a oes ganddo'r awydd i arwain wrth greu Lleoedd Byw?

Am yr awdur

Mae'n syrfêwr siartredig â mwy na 35 mlynedd o brofiad ar ôl ymgymhwysu. Drwy ei bractis ymgynghorol RC2 mae'n darparu (i) cyngor strategol i fusnesau a sefydliadau ar ddelio ag eiddo masnachol a (ii) gwaith ymgynghori ar adfywio.

Ffynonellau'r ffigurau:

Figure 1:

<https://www.britishland.com/sustainability/our-views/articles/2018/placemaking-for-health-and-happiness>

Figure 2:

<https://www.britishland.com/news-and-views/design-for-life>

Figures 3-7:

<https://www.youtube.com/watch?v=0PuKn06-vvA> Figure 8: <https://www.rtpi.org.uk/research/2020/june/plan-the-world-we-need/>

Notes:

- 1 <https://www.thersa.org/reports/developing-socially-productive-places>
- 2 <https://www.grosvenor.com/news-and-insight/all-articles/grosvenor-britain-ireland-addresses-lack-of-trust->
- 3 <https://www.egi.co.uk/news/lockdown-diaries-cubexs-gavin-bridge/>
- 4 <https://www.britishland.com/sites/british-land-corp/files/news-insights/stories/design-for-life/a-design-for-life.pdf>
<http://wpieconomics.com/publications/a-design-for-life/>
- 5 https://www.udg.org.uk/sites/default/files/publications/files/14JULY20%20BFL%202020%20Brochure_3.pdf
- 6 https://www.housingtoday.co.uk/in-focus/webinar-speeding-up-the-journey-towards-value-based-decision-making-in-uk-construction/5106939.article?utm_medium=email&utm_campaign=Weekly%20Housing%20Today%20Daily&utm_content=Weekly%20Housing%20Today%20Daily+CID_fb02cb0731f4bcd02b68c92f4612902&utm_source=Campaign%20Monitor%20emails&utm_term=Webinar%20%20Speeding%20up%20the%20journey%20towards%20value-based%20decision%20making%20in%20UK%20construction
- 7 https://ied.co.uk/insights/from_the_ground_up_improving_the_delivery_of_social_value_in_construction/
- 8 <https://www.berkeleygroup.co.uk/news-and-insights/news-and-features/2020/good-development-is-all-about-people>
- 9 <https://www.massivesmall.org/>
- 10 <https://soundcloud.com/mishcon-de-reya-1/property-she-podcast-jacob-loftus>
- 11 http://orca.cf.ac.uk/124397/1/touchstone2019_P4-5.pdf
- 12 <https://sdgs.un.org/goals>
- 13 <https://www.placemakingx.org/>
- 14 <https://www.britishland.com/news-and-views/design-for-life>
- 15 <https://www.youtube.com/watch?v=0PuKn06-vvA>
- 16 <https://www.tcpa.org.uk/raynsford-review>
- 17 https://www.theplanner.co.uk/features/spirit-of-place-an-interview-with-brian-evans?utm_source=Adestra&utm_medium=email&utm_term=
- 18 <https://placestandard.scot/>
- 19 <https://www.gov.scot/publications/place-principle-introduction/>
- 20 <https://gov.wales/build-homes-communities-where-everyone-wants-live-julie-james>
- 21 <https://gov.wales/planning-policy-covid-19-recovery>
- 22 <https://dcfw.org/placemaking/placemaking-charter/>
- 23 <https://vimeo.com/362504963>
- 24 <https://www.rtpi.org.uk/blog/2020/january/planning-for-well-beings>
- 25 <https://www.rtpi.org.uk/practice/2019/november/child-friendly-planning-in-the-uk-a-review/>
- 26 https://www.futuregenerations.wales/public_info/the-future-generations-report-2020/
- 27 <https://www.rtpi.org.uk/research/2020/june/plan-the-world-we-need/>
- 28 <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-12/planning-policy-wales-edition-10.pdf>

